



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 20 Mai 2008  
Tuesday, 20 May 2008**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog  
Questions to the First Minister
- 32 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes  
Business Statement and Announcement
- 40 Datganiad ar Strategaeth Cludo Nwyddau Cymru  
Statement on the Freight Strategy for Wales
- 52 Datganiad ar Bryderon Diweddar ynghylch Gwasanaethau Mamolaeth  
Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent  
Statement on Recent Concerns regarding Gwent Healthcare NHS Trust's Maternity  
Services
- 67 Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Gofynion ynghylch Cydsyniad Awdurdodau  
Lleol) (Cymru a Lloegr) 2008  
The Legislative Reform (Local Authority Consent Requirements) (England and Wales)  
Order 2008
- 70 Dadl o dan Reol Sefydlog Rhif 22.34 ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol  
Drafft ynghylch Gofal Cartref  
Standing Order No. 22.34 Debate on the Draft Domiciliary Care Legislative  
Competence Order

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were  
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been  
included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.  
The Assembly met at 2 p.m. with the Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Deputy Presiding Officer:** I call the Assembly to order. **Y Dirprwy Lywydd:** Galwaf y Cynulliad i drefn.

## **Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister**

### **The Rating of Empty Property**

**Q1 Trish Law:** Will the First Minister outline the changes that have taken place since April 2008 to the rating of empty property? OAQ(3)1036(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** Under the new rules, empty industrial properties pay no rates for the first six months and then full rates. Non-industrial properties pay no rates for the first three months and then full rates. There are exemptions for charities. The rateable value of exempt empty properties has increased to £2,200.

**Trish Law:** Shortly before the Assembly elections last year, conveniently, the Welsh Assembly Government, amid a fanfare of publicity, announced a new package of business rate relief for small businesses. It said that around 48,000 businesses across Wales would benefit, but it did not say how the scheme was being paid for. Now we know. The Government will claw back an estimated £1 billion by removing rate relief on empty property, but my main concern is that these so-called 'reforms' will hit regeneration areas like Blaenau Gwent the hardest, for industrial and non-industrial properties in my constituency are not left vacant deliberately and, in many cases, there is little or no chance of their becoming occupied again in the foreseeable future, given the current economic climate. Will the Welsh Assembly Government use its powers under the Rating (Empty Properties) Act 2007 to reinstate the 50 per cent relief on empty properties, as has been done in Scotland?

### **Ardrethu Eiddo Gwag**

**C1 Trish Law:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r newidiadau a fu i ardrethu eiddo gwag er Ebrill 2008? OAQ(3)1036(FM)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Dan y rheolau newydd, ni fydd eiddo diwydiannol gwag yn talu dim ardrethi am y chwe mis cyntaf, ac yna byddant yn talu ardrethi llawn wedi hynny. Ni fydd eiddo nad yw'n ddiwydiannol yn talu dim ardrethi am y tri mis cyntaf, ac yna byddant yn talu ardrethi llawn wedi hynny. Ceir eithriadau i elusennau. Mae gwerth trethiannol eiddo gwag sydd wedi'i eithrio wedi codi i £2,200.

**Trish Law:** Ychydig cyn etholiadau'r Cynulliad y llynedd, yn gyfleus, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, yng nghanol ffanffer o gyhoeddusrwydd, becyn rhyddhad ardrethi busnes newydd i fusnesau bach. Dywedodd y byddai tua 48,000 o fusnesau ledled Cymru yn elwa, ond ni ddywedodd sut y byddai costau'r cynllun yn cael eu talu. Gwyddom yn awr. Bydd y Llywodraeth yn adfachu £1 biliwn, fe amcangyfrifir, drwy ddiddymu rhyddhad ardrethi ar eiddo gwag, ond yr hyn sy'n peri mwyaf o bryder imi yw y bydd y 'diwygiadau' honedig hyn yn effeithio fwyaf ar ardaloedd adfywio megis Blaenau Gwent, oherwydd ni chaiff eiddo diwydiannol ac eiddo nad yw'n ddiwydiannol yn fy etholaeth ei adael yn wag yn fwriadol ac, mewn llawer o achosion, nid oes fawr ddim gobaith y caiff yr eiddo hwn ei ddefnyddio eto yn y dyfodol agos, o ystyried yr hinsawdd economaidd ar hyn o bryd. A wnaiff Llywodraeth Cynulliad Cymru ddefnyddio'i phwerau dan Ddeddf Ardrethu (Eiddo Gwag) 2007, i adfer y rhyddhad o 50 y cant ar eiddo gwag, fel y gwnaethpwyd yn yr Alban?

**The First Minister:** It would have cost us £40 million to do that, so I do not know where this figure of £1 million comes from. The legislation was set up in such a way that, if we went for something that was different from that in England, we would have to meet the full cost of it, which would have been £40 million. I think that we could find a lot better use for £40 million in a typical year.

On the impact on business, you say that it is impossible to rent a property in Blaenau Gwent; we would contest that, if the owners of the property asked for a realistic rent. Following the six-month rate-free period, the owners would need to think seriously about whether they should lower the rent. That would be of great benefit to small and medium-sized enterprises in Blaenau Gwent and elsewhere in Wales.

**David Melding:** We have some sympathy with your position, because your Government did not have any choice in this matter if it was to avoid that £40 million whammy, but the result of UK Government policy is that it is the businesses in Wales that now face that bill of £40 million. They will look at the business rate relief scheme in Wales and compare the relatively small though welcome amount of relief here, which encourages small businesses in particular, against this massive increase in business tax.

**The First Minister:** You do not have to pay rates for six months if it is industrial property and for three months if it is non-industrial business property. You say that business in Wales is suffering from that, but that is not the case. Businesses looking for industrial premises at a reasonable rent will benefit from this, because it prevents property owners from withholding from the market a property for which they want to try to negotiate a redevelopment deal, get a change of use, or get an upgrade of some description. That would usually take the property off the market and raise the price for anybody who wanted simply to get on and rent a property to start or grow a business, and to move out of the bedroom or garage or wherever they started the business and 'go legit', as it were,

**Y Prif Weinidog:** Byddai gwneud hynny wedi costio £40 miliwn inni, felly ni wn o ble y daw'r ffigur hwn, sef £1 miliwn. Sefydlyd y ddeddfwriaeth yn y fath fodd fel ei bod yn golygu, petaem yn dewis rhywbeth sy'n wahanol i'r hyn a geir yn Lloegr, y byddai'n rhaid inni ysgwyddo'r gost lawn, sef £40 miliwn. Credaf y gallem ddod o hyd i ffyrdd gwell o lawer o ddefnyddio £40 miliwn mewn blwyddyn nodweddiadol.

Ynghylch yr effaith ar fusnesau, dywedwch ei bod yn amhosibl rhentu eiddo ym Mlaenau Gwent; byddem yn amau hynny, petai perchenogion yr eiddo yn gofyn am rent realistig. Wedi'r chwe mis heb ardrethi, byddai angen i'r perchnogion feddwl o ddifrif a ddylent leihau'r rhent. Byddai hynny o fudd mawr i fentrau bach a chanolig ym Mlaenau Gwent ac mewn mannau eraill yng Nghymru.

**David Melding:** Cydymdeimlwn i raddau â'ch safbwynt, oherwydd nid oedd gan eich Llywodraeth ddim dewis ynghylch y mater hwn os oedd am osgoi'r ergyd honno a oedd yn werth £40 miliwn, ond yn sgîl polisi Llywodraeth y DU, busnesau yng Nghymru sydd yn awr yn wynebu'r gost honno o £40 miliwn. Byddant yn edrych ar y cynllun rhyddhad ardrethi busnes yng Nghymru ac yn cymharu swm y rhyddhad a geir yma, sy'n gymharol fach er ei fod yn cael ei groesawu, sy'n annog busnesau bach yn enwedig, yn erbyn y cynnydd anferthol hwn mewn treth busnes.

**Y Prif Weinidog:** Nid oes yn rhaid ichi dalu ardrethi am chwe mis os yw'n eiddo diwydiannol, neu am dri mis os yw'n eiddo busnes nad yw'n ddiwydiannol. Dywedwch fod busnesau yng Nghymru yn dioddef yn sgîl hynny, ond nid yw hynny'n wir. Bydd busnesau sy'n chwilio am eiddo diwydiannol am rent rhesymol yn elwa o hyn, oherwydd y mae hyn yn rhwystro perchenogion eiddo rhag cadw eiddo oddi ar y farchnad pan fyddant am geisio dod i gytundeb ynghylch ailddatblygu, am gael newid defnydd, neu am ei uwchraddio mewn rhyw ffordd. Byddai hynny fel arfer yn golygu y bydd yr eiddo yn cael ei dynnu oddi ar y farchnad ac yn codi'r pris i unrhyw un a oedd yn awyddus i frwr ymlaen a rhentu eiddo er mwyn cychwyn neu ddatblygu busnes, a symud allan o'r ystafell

by renting a unit. You should now be able to do rent at a more reasonable price, because of this.

wely neu'r garej neu lle bynnag y cychwynnwyd y busnes ganddynt a mynd ati'n 'swyddogol', fel petai, drwy rentu uned. Erbyn hyn, dylech allu cynnig rhent am bris mwy rhesymol, oherwydd hyn.

**Alun Ffred Jones:** Byddwch wedi clywed yr adroddiadau y bore yma ynghylch y diwydiant twristiaeth a'r ffigurau siomedig am 2007. A derbyn y gall hynny ymwneud â'r tywydd lawn cymaint â dim byd arall, mae pobl yn y sector llety hunanarlwyo wedi cwyno lawer gwaith wrthyf am yr ardrethi busnes y maent yn gorfod eu talu, sy'n seiliedig ar osod y llety yn llawn drwy gydol y flwyddyn. Gwelwyd cynnydd o ryw 80 y cant yn yr ardrethi mewn rhai achosion yn y gorllewin. Gan ein bod yn edrych ar adolygiad arall o'r ardrethi hyn, a wnewch sicrhau tegwch i bob busnes drwy Gymru? A wnewch hefyd sicrhau ein bod yn edrych yn ofalus ar yr agwedd hon o dwristiaeth, gan ei bod yn rhan bwysig o economi'r gorllewin, a byddai ardrethi busnes uchel yn ergyd arall iddi?

**Alun Ffred Jones:** You will have heard the reports this morning about the tourism industry and the disappointing figures for 2007. While accepting that that may be down to the weather as much as anything else, people in the self-catering accommodation sector have complained to me several times about the business rates that they must pay, which are based on the accommodation being let fully all year. We have seen an increase in rates of around 80 per cent in some cases in west Wales. Given that we are now looking at another review of these rates, will you ensure that there is equity for all businesses throughout Wales? Will you also ensure that we look carefully at this aspect of the tourism industry, as it is an important element of the economy of west Wales, and high business rates would be another blow to it?

**Y Prif Weinidog:** Credaf fy mod yn cofio'r cwestiwn manwl hwnnw yn cael ei ofyn o'r blaen, pan roddais fanylion y polisi newydd gerbron y Cynulliad. Os cofiaf yn iawn, yr oedd bythynnod hunanarlwyo wedi'u diffinio mewn un categori, ac nid oedd eu perchnogion yn gymwys i gael y tri mis o ryddhad ardrethi sydd ar gael i bobl sy'n berchen ar eiddo nad yw'n ddiwydiannol ond sy'n fusnes. Credaf fod y diffiniad yn golygu na fyddai bythynnod hunanarlwyo, sy'n eithaf pwysig i'r diwydiant twristiaeth, yn cael eu hystyried yn eiddo busnes, ac nid ydynt yn cael eu hesemptio, hyd yn oed am y tri mis cyntaf. Nid wyf yn siŵr am y manylion, felly gwell fyddai gofyn i Brian Gibbons edrych ar y mater. Os cofiaf yn iawn, yr oedd addewid i adolygu'r sefyllfa ar ôl cyfnod penodol, i weld pa effaith yr oedd y diffiniad hwn wedi'i chael, ac a ddylid ei adolygu.

**The First Minister:** I seem to recall that in-depth question being asked previously, when I outlined the details of the new policy to the Assembly. If I remember correctly, the self-catering cottages were defined in one category and so their owners were not eligible for the three months of rate relief available to owners of non-industrial but business properties. I believe that the definition given was that self-catering cottages, which are quite important to the tourism industry, would not be considered as business premises, and they are not exempted, not even for the first three months. I am not certain of the details, and so it would be better if I asked Brian Gibbons to look into this. If I remember correctly, a pledge was given to review the situation after a specific period, to see what impact this definition had had, and whether it should be reviewed.

**The Deputy Presiding Officer:** Question 2 OAQ(3)1041(FM) is withdrawn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Tynnwyd cwestiwn 2 OAQ(3)1041(FM) yn ôl.

### A New Prison

### Carchar Newydd

**Q3 Lynne Neagle:** What discussions has the Welsh Assembly Government had on the

**C3 Lynne Neagle:** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cael

proposal for a new prison in Wales?  
OAQ(3)1021(FM)

**The First Minister:** Brian Gibbons, the Minister for Social Justice and Local Government has spoken and written to David Hanson, the Minister of State at the Ministry of Justice with responsibility for prisons, on several occasions about the proposal for a new prison, including in the past month.

**Lynne Neagle:** I am still very concerned that too little is being done here and at Westminster to investigate and promote sites other than that already identified by the Home Office at St Dials in Cwmbran, which is totally unsuitable. Torfaen County Borough Council has made a series of complaints about the behaviour of the Ministry of Justice in relation to requests for information and also its worrying and unfounded objection to Torfaen's local development plan, which identifies the central site for much needed new housing. The Ministry of Justice has clearly decided to start playing hardball on this issue, if only to keep its options open. Can you confirm that the Assembly Government will not take a backwards step on its stance on the Cwmbran site, and can you please detail what the Assembly Government has done proactively to promote a Heads of the Valleys location for the proposed new prison?

**The First Minister:** Thank you for that supplementary question, Lynne. I think that I slightly misled the Assembly earlier—it was David Hanson who wrote last month; our original letter was sent at the end of February. Our views have not changed. We cannot tell the Ministry of Justice where to put a new prison. What we can do is tell it where there are alternative sites to that at Cwmbran, which we do not think is a good idea. I think that you and I are at one on that, as is your opposite number in Parliament, the Member for Torfaen, who also happens to be the Secretary of State for Wales. We provide

ynghylch y cynnig ar gyfer carchar newydd yng Nghymru? OAQ(3)1021(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, wedi siarad â David Hanson, y Gweinidog Gwladol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder sydd yn gyfrifol am garchardai, ac wedi ysgrifennu ato, amryw o weithiau ynghylch y cynnig ar gyfer carchar newydd, gan gynnwys yn ystod y mis diwethaf.

**Lynne Neagle:** Yr wyf yn dal i bryderu'n fawr nad oes digon yn cael ei wneud yma nac yn San Steffan i ymchwilio i safleoedd a hyrwyddo safleoedd ar wahân i'r safle y mae'r Swyddfa Gartref wedi'i enwi eisoes, yn St Dials yng Nghwibrân, sy'n gwbl anaddas. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi gwneud cyfres o gwynion ynghylch ymddygiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder yng nghyswllt ceisiadau am wybodaeth ac ynghylch ei gwrthwynebiad, sy'n peri cryn bryder ac yn ddi-sail, i gynllun datblygu lleol Torfaen, sy'n dynodi'r safle canolog ar gyfer tai newydd, rhywbeth y mae gwir angen ei gael. Mae'n amlwg bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi penderfynu dechrau bod yn lletchwith ynghylch y mater hwn, er mwyn sicrhau bod y dewisiadau sydd ar gael iddi'n parhau, efallai. A allwch gadarnhau na fydd Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd cam yn ôl o ran ei safbwynt ynghylch y safle yng Nghwibrân, ac a allwch roi manylion ynghylch yr hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i wneud yn rhagweithiol i hyrwyddo safle ym Mlaenau'r Cymoedd ar gyfer y carchar newydd arfaethedig, os gwelwch yn dda?

**Y Prif Weinidog:** Diolch am y cwestiwn atodol hwnnw, Lynne. Credaf fy mod wedi camarwain y Cynulliad yn gynharach—David Hanson a ysgrifennodd y mis diwethaf; anfonwyd ein llythyr gwreiddiol ddiweddd mis Chwefror. Nid yw ein barn wedi newid. Ni allwn ddweud wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder lle i roi carchar newydd. Yr hyn y gallwn ei wneud yw dweud wrthi fod safleoedd eraill ar gael ar wahân i'r safle yng Nghwibrân, nad yw, yn ein tyb ni, yn syniad da. Credaf ein bod ni'n dau'n gytûn ynghylch hynny, a hefyd eich aelod cyfatebol yn y Senedd, yr Aelod dros

a list of sites. I do not think that we can promote a particular site, but we have said that we do not think that the Cwmbran site makes sense, and that a site at the Heads of the Valleys would make better sense in economic development terms. We have also indicated a few sites, some of which are in our ownership, which might make a great deal of sense.

**William Graham:** Thank you for your reassurance with regard to this site. You will know that it is a matter of great concern for residents in the Torfaen area. Would you also agree that it is wrong that Torfaen council may have to resort to making a request under freedom of information legislation to find out exactly what plans the Ministry of Justice has for that site? Would you also add your voice to those calling for adequate prison accommodation to be provided for women in Wales?

2.10 p.m.

**The First Minister:** When we think about what the Ministry of Justice means when it says that there is a need for 'new prison accommodation' in Wales, there are three questions that merge into one. First, is it partially to do with women's prisons, as there is not one at all in Wales? Secondly, is it referring to the need for a prison in north Wales, as there is not one currently? Thirdly, is it that additional prison accommodation is also needed in south Wales? We are trying to cover all three bases, and the latest position adopted by the Ministry of Justice is that it will issue a shortlist of potential sites in the summer, to enable a public debate. A copy of that shortlist will be supplied for public consumption at that time, and I am sure that the debate will carry on further at the Assembly. Therefore, in a couple of months' time, in the summer, it will emerge whether the shortlist referred to in David Hanson's letter will include sites in north Wales only or in north and south Wales, and whether it will deal with the issue of women prisoners. Perhaps the Ministry of Justice will go for the Peterborough model, which has a female wing as an adjunct to a mainly male prison,

Tor-faen, sef, fel y mae'n digwydd bod, Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Yr ydym yn darparu rhestr o safleoedd. Ni chredaf y gallwn hyrwyddo un safle penodol, ond yr ydym wedi dweud na chredwn fod y safle yng Nghwmbrân yn gwneud synnwyr, ac y byddai safle ym Mlaenau'r Cymoedd yn gwneud mwy o synnwyr o ran datblygu economaidd. Yr ydym hefyd wedi awgrymu ychydig o safleoedd, y mae rhai ohonynt yn eiddo inni, a fyddai efallai'n gwneud llawer o synnwyr.

**William Graham:** Diolch am sicrwydd gennych yng nghyswllt y safle hwn. Gwyddoch fod y mater hwn yn peri cryn bryder i drigolion ardal Tor-faen. A fyddech hefyd yn cytuno ei bod yn anghywir y bydd yn rhaid i gyngor Tor-faen, efallai, wneud cais dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth i gael gwybod pa gynlluniau yn union sydd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer y safle hwnnw? A fyddech hefyd yn ymuno â'r rhai sy'n galw am ddarparu lle digonol i garcharu menywod yng Nghymru?

**Y Prif Weinidog:** Pan fyddwn yn ystyried yr hyn y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei olygu wrth ddweud bod angen lle newydd i garcharu yng Nghymru, mae tri chwestiwn yn cyfuno'n un. Yn gyntaf, a oes a wnelo hyn yn rhannol â charchardai i fenywod, am nad oes un ar gael o gwbl yng Nghymru? Yn ail, a yw'n cyfeirio at yr angen am garchar yng ngogledd Cymru, am nad oes un yno ar hyn o bryd? Yn drydydd, a yw'n dweud bod angen lle ychwanegol i garcharu yn ne Cymru hefyd? Yr ydym yn ceisio ymdrin â phob un o'r tri mater, a'r safbwynt diweddaraf a fabwysiadwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw y bydd yn cyhoeddi rhestr fer o safleoedd posibl yn yr haf, i alluogi cynnal dadl gyhoeddus. Caiff copi o'r rhestr honno ei chyflwyno ar gyfer y cyhoedd bryd hynny, ac yr wyf yn siŵr y bydd y ddadl yn parhau ymhellach yn y Cynulliad. Felly, ymhen mis neu ddau, yn ystod yr haf, datgelir a fydd y rhestr fer y cyfeiriodd David Hanson ati yn ei lythyr yn cynnwys safleoedd yng ngogledd Cymru yn unig, ynteu safleoedd yng ngogledd a de Cymru, ac a fydd yn ymdrin â mater carcharorion benywaidd. Efallai y bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dewis model

or perhaps it will go for a separate women's prison.

**Leanne Wood:** While improved provision for prisoners in Wales is to be welcomed, do you agree that, in the long term, we need to reduce the numbers of people in prison? Do you also subscribe to the view put forward by the four chief constables in Wales that we need to determine our own criminal justice policies so that we can get on with the task of reducing the prison population? We could then decide where to place any new prison, and it could be made to suit Wales's needs. I contend that the Assembly is best placed to make decisions about the location of new prisons in Wales. Would you agree?

**The First Minister:** Yes, as we have strong views on these issues. However, we are talking about the overall number of prisoners in England and Wales as a unit. The last time prisoner numbers fell was when Ken Clarke was Home Secretary, between 1988 and 1990, I think, and prisoner numbers fell from 44,000 to 42,000—going on memory alone. They have probably more than doubled since, to close on 90,000 in England and Wales, with a similar increase seen in Scotland. Why did prisoner numbers fall during that period, and why have they risen constantly since then, in the past 18 years? It is a bit of a mystery. Is it simply a matter of home policy, or is it one of greater criminality in society deserving incarceration? We just do not know. If you asked Ken Clarke, he would probably say that the Home Secretary's attitude to incarceration was the answer, given his ability to widen or narrow the range of criminal offences punishable by conviction and remand.

### Gordewdra

**C4 David Lloyd:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu llawdriniaeth gordewdra yng Nghymru? OAQ(3)1039(FM)

Peterborough, sydd ag adain i fenywod fel estyniad i garchar i ddynion yn bennaf, neu efallai y bydd yn dewis carchar ar wahân i fenywod.

**Leanne Wood:** Er bod gwell darpariaeth i garcharorion yng Nghymru yn rhywbeth sydd i'w groesawu, a gytunwch fod angen inni, yn y tymor hir, leihau niferoedd y bobl sydd mewn carchardai? A ydych hefyd yn cytuno â'r farn a gyflwynwyd gan bedwar prif gwnstabl Cymru fod angen inni benderfynu ein polisïau cyfiawnder troseddol ein hunain fel y gallwn fwrw ymlaen â'r dasg o leihau poblogaeth carchardai? Gallem wedyn benderfynu lle i roi unrhyw garchar newydd, a gellid ei addasu i fodloni anghenion Cymru. Daliaf mai'r Cynulliad sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ynghylch lleoliad carchardai newydd yng Nghymru. A fyddech yn cytuno?

**Y Prif Weinidog:** Byddwn, am fod gennym farn gref ynghylch y materion hyn. Fodd bynnag, yr ydym yn sôn am gyfanswm y carcharorion yng Nghymru a Lloegr fel uned. Y tro diwethaf y disgynnodd nifer y carcharorion oedd pan oedd Ken Clarke yn Ysgrifennydd Cartref, rhwng 1988 a 1990, yr wyf yn credu, a disgynnodd nifer y carcharorion o 44,000 i 42,000—mae hynny ar sail yr hyn a gofïaf yn unig. Mae'n debygol eu bod wedi dyblu a mwy ers hynny, ac yn agos at 90,000 yng Nghymru a Lloegr, gyda chynnydd tebyg i'w weld yn yr Alban. Pam y disgynnodd niferoedd y carcharorion yn ystod y cyfnod hwnnw, a pham y maent wedi codi'n gyson ers hynny, yn y 18 mlynedd diwethaf? Mae'n dipyn o ddirgelwch. A oes a wnelo hyn, yn syml, â pholisi cartref, ynteu a yw'n ymwneud â mwy o droseddu yn y gymdeithas yn teilyngu carcharu? Petaech yn gofyn i Ken Clarke, mae'n debygol y byddai'n dweud mai agwedd yr Ysgrifennydd Cartref at garcharu oedd yr ateb, o ystyried ei allu i ehangu neu gyfyngu yr ystod o droseddau y gellir eu cosbi drwy euogfarn a remand.

### Obesity

**Q4 David Lloyd:** Will the First Minister make a statement on the development of obesity surgery in Wales? OAQ(3)1039(FM)



**Y Prif Weinidog:** Mae cynllun comisiynu Comisiwn Iechyd Cymru wedi asesu y dylid rhoi llai o flaenoriaeth i lawdriniaethau bariatrig o'u cymharu â gwasanaethau arbenigol eraill, ac felly bydd ar gael o dan amgylchiadau eithriadol yn unig, lle bydd mynegai màs corff y claf dros 50, ac felly'n achos difrifol o gyd-forbidrwydd.

**David Lloyd:** With only one obesity surgeon in Wales, whose service is grossly underfunded by Health Commission Wales such that his clinical skills are at risk of severe deterioration, and with an ever-increasing waiting list of patients needing surgery for morbid obesity to prevent death from allied conditions, what chance of movement is there so that we get an obesity surgery service that the people of Wales deserve?

**The First Minister:** Health Commission Wales has taken the view that performing bariatric surgery as a cure for acute obesity—that is the stomach-stapling method of treating severe obesity that has the comorbidity issues that you referred to, Dai—should be given a lower priority than pushing lifestyle changes and all of the other alternatives to surgery. The consequence is that bariatric surgery waiting lists were closed in 2005 in Swansea. There is a dispute between Health Commission Wales and the professor surgeon whom you mention about how many treatments he was and is carrying out; there is a large divergence in the statistical data. HCW will continue to put exceptional cases on the list, but it sees a future for commissioning the service from Bristol, because it is overdependent on one person if it is commissioned in Swansea.

**Jonathan Morgan:** While I agree with the points that Dai Lloyd raised with you, surely our emphasis must be on how we improve lifestyles and the health and wellbeing of the population, which includes exercise and eating better and healthier food, such as fruit and vegetables. What is your view about how the Government can achieve that, particularly through the Health Challenge Wales strategy? Will we see a measurable improvement in lowering the levels of

**The First Minister:** Health Commission Wales's commissioning plan has assessed that bariatric surgery should be given a lower priority than other specialist services, and it is therefore made available only in exceptional cases, where the patient has a body mass index of greater than 50 and so represents a serious case of co-morbidity.

**David Lloyd:** Gan mai un llawfeddyg gordewdra sydd yng Nghymru, ac mae ei wasanaethau wedi'u tangyllido'n ddybryd gan Gomisiwn Iechyd Cymru i'r fath raddau nes bod perygl i'w sgiliau clinigol ddirywio'n ddifrifol, a chan fod y rhestr aros o gleifion y mae arnynt angen llawdriniaeth ar gyfer gordewdra morbid rhag iddynt farw o gyflyrau perthynol yn tyfu'n barhaus, pa mor debygol ydyw y ceir symudiad er mwyn cael gwasanaeth llawdriniaeth gordewdra y mae pobl Cymru yn ei haeddu?

**Y Prif Weinidog:** Safbwynt Comisiwn Iechyd Cymru yw y dylid rhoi blaenoriaeth is i roi llawdriniaeth bariatrig fel ffordd o wella gordewdra aciwt—sef styffylu'r stumog fel dull o drin gordewdra difrifol pan fydd y problemau o ran cyd-forbidrwydd y cyfeiriasoch atynt, Dai—nag a roddir i annog pobl i newid eu ffordd o fyw, a'r holl ddewisiadau eraill ar wahân i lawdriniaeth. Yn sgîl hynny, caewyd y rhestrau aros ar gyfer llawdriniaeth bariatrig yn Abertawe yn 2005. Mae anghydfod rhwng Comisiwn Iechyd Cymru a'r athro llawfeddyg yr ydych yn sôn amdano ynghylch faint o driniaethau y bu'n eu cyflawni ac y mae'n eu cyflawni; ceir gwahaniaeth mawr yn y data ystadegol. Bydd CIC yn parhau i roi achosion eithriadol ar y rhestr, ond mae'n gweld dyfodol i gomisiynu'r gwasanaeth o Fryste, gan ei fod yn dibynnu gormod ar un unigolyn os caiff ei gomisiynu yn Abertawe.

**Jonathan Morgan:** Er fy mod yn cytuno â'r pwyntiau a gododd Dai Lloyd gyda chi, oni ddylem fod yn rhoi pwyslais bellach ar sut yr ydym yn gwella ffyrdd o fyw ac iechyd a lles y boblogaeth, sy'n cynnwys ymarfer corff a bwyta bwyd gwell ac iachach, megis ffrwythau a llysiau? Beth yw eich barn am sut y gall y Llywodraeth gyflawni hynny, yn enwedig drwy strategaeth Her Iechyd Cymru? A fyddwn yn gweld gwelliant y gellir ei fesur o ran gostwng lefelau

obesity, particularly among young children and adolescents, where we have seen a significant rise, particularly in the south Wales Valleys?

**The First Minister:** I have not seen data about the south Wales Valleys in particular, but we know that obesity among children causes more worry to public health experts than any other single issue on the 25-year horizon—more so than HIV/AIDS, more so than pandemic flu, and more so than MRSA or *Clostridium difficile*. What worries the experts is the literal shape of society as today's generation of obese young children grow up to be adults, because of the consequences of heart disease, stroke and diabetes risk. Therefore, I entirely agree that inculcating healthier eating lifestyles is key. People need to be persuaded that they can master this, that they can do it for themselves, that they can do it by accepting better advice on exercise, by reducing their fat or excess calorie content, and by reducing the number of cheap high-fat takeaways that they eat—I had better not name products here. People need to eat fresh fruit and vegetables and need a general low-fat diet and high-exercise lifestyle.

**Eleanor Burnham:** This is about a lifestyle change. How is the Welsh Assembly Government funding and encouraging the take-up of walking to school and more sport and leisure activities for people who are challenged at the moment, for whatever reason, perhaps because of insufficient money or insufficient means of travel to get to some of these activities?

**The First Minister:** You will sometimes find outstanding examples of new leisure facilities being heavily used, because there is an appetite for exercise. If we take Cardiff's new leisure centre at the sports village, I was pleased to hear that it is now operating without a subsidy, because the number of people using it is three times greater than the estimated number. That is fantastic. You will find that, if you provide new leisure centres, people will use them. There is a huge demand for youth sport, but it must be funded,

gordewdra, yn enwedig ymysg plant ifanc a'r glasoed, lle'r ydym wedi gweld cynnydd sylweddol, yn enwedig yng Nghymoedd y de?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf wedi gweld data am Gymoedd y de yn benodol, ond yr ydym yn gwybod bod gordewdra ymysg plant yn peri mwy o bryder i arbenigwyr iechyd y cyhoedd na dim un mater arall wrth edrych ymlaen 25 mlynedd—mwy na HIV/AIDS, mwy na fflw pandemig, a mwy nag MRSA neu *Clostridium difficile*. Yr hyn sy'n peri pryder i'r arbenigwyr yw siâp llythrennol ein cymdeithas wrth i'r genhedlaeth bresennol o blant ifanc gordew dyfu'n oedolion, oherwydd y canlyniadau yn sgîl hynny, sef clefyd y galon, strôc a'r pergyl i bobl gael diabetes. Felly, yr wyf yn cytuno'n llwyr fod argymell ffyrdd o fyw sy'n golygu bwyta'n iachach yn allweddol. Mae angen perswadio pobl y gallant feistroli hyn, y gallant ei wneud drostynt eu hunain, y gallant ei wneud drwy gael gwell cyngor ynghylch ymarfer corff, drwy leihau'r braster y maent yn ei fwyta neu'r gormodedd o galoriau, a thrwy fwyta llai o fwyd parod rhad braster uchel—byddai'n well imi beidio ag enwi cynhyrchion yma. Mae angen i bobl fwyta ffrwythau a llysiau ffres, ac mae arnynt angen deiet braster isel yn gyffredinol a ffordd o fyw sy'n cynnwys llawer o ymarfer corff.

**Eleanor Burnham:** Mae hyn yn fater o newid mewn ffordd o fyw. Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu ac yn annog cerdded i'r ysgol a mwy o weithgareddau chwaraeon a hamdden i bobl sy'n ei chael yn anodd ar hyn o bryd, am ba reswm bynnag, efallai am nad oes ganddynt ddigon o arian neu am na allant deithio i gyrraedd rhai o'r gweithgareddau hyn?

**Y Prif Weinidog:** Weithiau, fe welwch enghreifftiau nodedig o gyfleusterau hamdden newydd a llawer o ddefnyddio arnynt, oherwydd bod archwaeth am ymarfer corff. Os ystyriwn ganolfan hamdden newydd Caerdydd yn y pentref chwaraeon, yr oeddwn yn falch o glywed ei bod bellach yn gweithredu heb gymhorthdal, gan fod nifer y bobl sy'n ei defnyddio gymaint dair gwaith â'r nifer a amcangyfrifwyd. Mae hynny'n ardderchog. Gwelwch, os darparwch ganolfannau hamdden newydd, y bydd pobl

because you must have coaches, and those coaches must pass criminal background checks to ensure that it is safe for them to interact, unsupervised, with children. Therefore, there are all manner of issues that will sometimes obstruct ease, availability, cost, affordability and so on. However, the fundamental principle that we must get across is that what goes in, in terms of your food, has to be burnt up. Adults should be aware of that, because they can be a critical age group, but they should also be aware of it in their children. The attractions of staying at home and watching television with a remote control or playing at your personal computer are enormous; they were not around when I was a child. Therefore, we must counteract the obesity dangers of a sedentary lifestyle that can be only too attractive to children, and we must adapt their diet to take on board that they are not exercising as much as the previous generation of children did.

### Supporting Businesses

**Q5 Angela Burns:** What policies does the First Minister plan to introduce over the coming year to support businesses in Wales? OAQ(3)1034(FM)

**The First Minister:** As well as delivering the new flexible support for business model—and you could include skills development in that package—our key priorities for creating an economic environment where businesses can flourish are research and commercialisation, regeneration, transport and the ability to build upon the low value of sterling compared with the euro in terms of making exports profitable again after 10 years of high sterling.

2.20 p.m.

**Angela Burns:** As I am sure that you are aware, flexible working has been shown to reduce barriers to entering into business, staying in business, and progressing through the workforce. While larger businesses in Wales are capable of taking up flexible

yn eu defnyddio. Mae galw enfawr am chwaraeon ieuenctid, ond rhaid ei ariannu, oherwydd y mae angen hyfforddwy, a rhaid i'r hyfforddwy hynny gael archwiliadau cefndir troseddol i sicrhau ei bod yn ddiogel iddynt ymwneud â phlant heb gael eu goruchwyllo. Felly, ceir pob math o faterion a fydd weithiau'n amharu ar hwylustod, argaeledd, y gost, fforddiadwyedd ac yn y blaen. Fodd bynnag, yr egwyddor sylfaenol y mae'n rhaid inni ei chyfleu yw bod yn rhaid i beth bynnag a aiff i mewn, o ran eich bwyd, gael ei losgi. Dylai fod oedolion yn ymwybodol o hynny, oherwydd gallant fod yn grŵp oedran allweddol, ond dylent hefyd fod yn ymwybodol o hynny yn eu plant. Mae atyniadau aros gartref a gwyllo'r teledu gyda theclyn rheoli neu chwarae ar eich cyfrifiadur personol yn enfawr; nid oeddent ar gael pan oeddwn yn blentyn. Felly, rhaid inni wrthweithio peryglon gordewdra yn sgîl ffordd o fyw nad oes ynddi fawr o weithgarwch corfforol a all fod yn ddeniadol iawn i blant, a rhaid inni addasu eu deiet am nad ydynt yn cael cymaint o ymarfer corff â'r genhedlaeth flaenorol o blant.

### Cefnogi Busnesau

**C5 Angela Burns:** Pa bolisiau y mae'r Prif Weinidog yn bwriadu eu cyflwyno dros y flwyddyn nesaf i gefnogi busnesau yng Nghymru? OAQ(3)1034(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yn ogystal â darparu'r model newydd, cymorth hyblyg i fusnes—a gallech gynnwys datblygu sgiliau yn y pecyn hwnnw—ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer creu amgylchedd economaidd lle y gall busnesau ffynnu yw ymchwil a masnacheiddio, adfywio, trafndiaeth a'r gallu i adeiladu ar werth isel sterling o'i gymharu â'r ewro o ran sicrhau bod allforion yn broffidiol eto ar ôl 10 mlynedd o werth sterling uchel.

**Angela Burns:** Fel yr wyf yn siŵr eich bod yn gwybod, mae wedi'i ddangos bod gweithio hyblyg yn lleihau rhwystrau i fynd i fusnes, aros mewn busnes, a symud ymlaen drwy'r gweithlu. Tra mae busnesau mwy yng Nghymru yn gallu cynnig gweithio hyblyg

working for their employees, many small businesses may struggle to provide this fully, especially when they are faced with the type of market constraints that they have now. What support could the Welsh Assembly Government give to these businesses in order to get the work-life balance correct for smaller businesses?

**The First Minister:** We certainly want to see work-life balance and the sustaining of high levels of employment. Employment is at, or very near, a record high in Wales at the moment, as it is across the UK. That is on top of the minimum wage, which many people, particularly from your party, said would be a job destroyer. In fact, it certainly has not destroyed jobs; there is no evidence for that. Flexible working may be something that you have to work towards; it is something that people have to get used to. When they are told about it initially—as was the case with the minimum wage—people say that it is unaffordable. However, once it is in there by regulation, you know that all businesses have to play by the same rules, and it then becomes something that can be a positive way of keeping employees engaged despite their own lifestyle changes—such as new caring responsibilities for children or older people.

**Janice Gregory:** First Minister, the Sony UK technology centre at Pencoed has been chosen as the global centre for manufacturing the first generation of high-definition camcorder systems. It has also been chosen as the location for the company's European service and repair centre for digital cameras and camcorders. Would you agree that this is a tribute both to the skills of the magnificent workers at Pencoed and to the Government's successful economic development policies, which are providing first-class opportunities for forward-looking businesses in Wales?

**The First Minister:** Yes, Janice; I thought that this morning's news was encouraging, and we have been able to support this financially. It is a classic example of the way in which the Welsh economy has changed.

i'w gweithwyr, efallai fod llawer o fusnesau bach yn ei chael yn anodd darparu hyn yn llawn, yn enwedig pan fyddant yn wynebu'r math o gyfyngiadau o ran y farchnad sy'n bodoli'n awr. Pa gymorth y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei roi i'r busnesau hynny er mwyn sicrhau bod y cydbwysedd yn iawn rhwng bywyd a gwaith ar gyfer busnesau llai?

**Y Prif Weinidog:** Yn sicr, yr ydym am weld cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a chynnal lefelau uchel o gyflogaeth. Mae cyflogaeth yn agos iawn i'r lefel uchaf erioed yng Nghymru ar hyn o bryd, fel y mae ledled y DU. Mae hynny ar ben yr isafswm cyflog, a dywedodd nifer o bobl, yn enwedig o'ch plaid chi, y byddai'r isafswm cyflog yn dinistrio swyddi. Mewn gwirionedd, nid yw wedi dinistrio swyddi o gwbl; nid oes dim dystiolaeth o hynny. Efallai fod gweithio hyblyg yn rhywbeth y mae'n rhaid gweithio tuag ato; mae'n rhywbeth y mae'n rhaid i bobl ddod i arfer ag ef. Pan ddywedir wrthynt amdano i ddechrau—yn yr un modd â'r isafswm cyflog—bydd pobl yn dweud nad yw'n fforddiadwy. Fodd bynnag, pan fydd wedi'i sefydlu mewn rheoliad, byddwch yn gwybod bod yn rhaid i bob busnes ddilyn yr un rheolau, ac yna daw'n rhywbeth a all fod yn ffordd gadarnhaol o gadw gweithwyr ar waith er gwaethaf newidiadau yn eu ffyrdd hwy o fyw—megis cyfrifoldebau gofalu newydd am blant neu bobl hŷn.

**Janice Gregory:** Brif Weinidog, mae canolfan dechnoleg Sony UK ym Mhencoed wedi'i dewis yn ganolfan fyd-eang ar gyfer gweithgynhyrchu cenedlaeth gyntaf systemau camerâu fideo manylder uwch. Mae hefyd wedi'i dewis yn lleoliad canolfan gwasanaethu ac atgyweirio Ewropeaidd y cwmni ar gyfer camerâu digidol a chamerau fideo. A fydddech yn cytuno bod hyn yn deyrnged i sgiliau gweithwyr ardderchog Pencoed ac i bolisiau datblygu economaidd llwyddiannus y Llywodraeth, sy'n darparu cyfleoedd o'r radd flaenaf i fusnesau blaengar yng Nghymru?

**Y Prif Weinidog:** Byddwn, Janice; yr oeddwn yn meddwl bod y newyddion y bore yma'n galonogol, ac yr ydym wedi gallu rhoi cymorth ariannol i hyn. Mae'n enghraifft glasurrol o'r ffordd y mae economi Cymru

The commodity production of the classic Sony Trinitron television will not come back; that has gone to eastern Europe. What we have instead—although it employs only perhaps a tenth of the numbers compared with the period when a vast number of television sets were produced in Sony Pencoed and Bridgend 10 years ago—is high quality and involves a lot of research and development, which is carried out in Wales. It is also high value added; there is a technology centre located next door housing 25 companies that are using Sony test facilities to develop new products. Therefore, it is the way forward. We will never again see the thousands of jobs in commodity manufacturing, but we will have the more specialist, high-value jobs, which are much more resistant to competition from low-wage countries.

**The Leader of the Opposition (Nick Bourne):** In opening, I ask the First Minister to pass my regards and those of my group for a full and speedy recovery to Andrew Davies.

First Minister, I will return to the theme that I covered last week when I questioned you about the economy and you seemed at pains to paint what I think was a rosier picture than actually existed. In fact, as you were setting out the position on the economy, Caroline Flint's documents on the housing position were being disclosed via the world's press, indicating that housebuilding has stalled and that the best outcome in the current year is a 5 to 10 per cent fall in house prices. The inflation rate that came out at the same time was almost double the Government's target, and Mervyn King, the governor of the Bank of England, said that the nice decade was at an end. Would you like to revise your view on the Welsh and British economy?

**The First Minister:** Not at all. What you were doing last week—in a phrase that you borrowed from George Osborne, and which I objected to strongly because it could have a consequence of talking Britain into a recession that is not there—was saying that Gordon Brown could no longer boast that,

wedi newid. Ni ddaw cynhyrchu'r teledu Sony Trinitron clasurol ar raddfa fawr yn ôl; mae hynny wedi mynd i ddwyrain Ewrop. Mae'r hyn sydd gennym yn ei le—er nad yw ond yn cyflogi un rhan o ddeg efallai o'r niferoedd o'i gymharu â'r cyfnod pan gynhyrchid nifer fawr iawn o setiau teledu yn Sony Pencoed a Phen-y-bont ar Ogwr 10 mlynedd yn ôl—o safon uchel, ac mae'n cynnwys llawer o waith ymchwil a datblygu, a wneir yng Nghymru. Mae hefyd yn ychwanegu gwerth sylweddol; mae canolfan dechnoleg wedi'i lleoli y drws nesaf sy'n cynnwys 25 o gwmnïau sy'n defnyddio cyfleusterau profi Sony i ddatblygu cynhyrchion newydd. Felly, dyma'r ffordd ymlaen. Ni fyddwn byth eto'n gweld y miloedd o swyddi mewn gweithgynhyrchu nwyddau, ond bydd gennym y swyddi mwy arbenigol, gwerth sylweddol, sy'n llawer gwell o ran gwrthsefyll cystadleuaeth gan wledydd â chyflogau isel.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne):** I ddechrau, gofynnaf i'r Prif Weinidog gyfleu fy nymuniadau gorau, a dymuniadau gorau fy ngrŵp, i Andrew Davies iddo gael gwellhad llwyr a buan.

Brif Weinidog, dychwelaf at y thema yr ymdriniais â hi yr wythnos diwethaf pan ofynnais ichi am yr economi a phan oedd yn ymddangos eich bod yn mynd i drafferth fawr i geisio rhoi darlun gwell nag a oedd yn bodoli mewn gwirionedd, yn fy nhyb i. Yn wir, wrth ichi amlinellu sefyllfa'r economi, yr oedd dogfennau Caroline Flint am y sefyllfa dai'n cael eu datgelu drwy wasg y byd, gan nodi bod adeiladu tai wedi arafu ac mai'r canlyniad gorau yn y flwyddyn bresennol yw cwymp o 5 i 10 y cant ym mhrisiau tai. Yr oedd cyfradd chwyddiant a gyhoeddwyd ar yr un pryd bron yn ddwbl targed y Llywodraeth, a dywedodd Mervyn King, llywodraethwr Banc Lloegr, fod y degawd braf ar ben. A hoffech ailystyried eich barn am economi Cymru a Phrydain?

**Y Prif Weinidog:** Ddim o gwbl. Yr hyn yr oeddech yn ei wneud yr wythnos diwethaf—mewn ymadrodd y gwnaethoch ei fenthyca gan George Osborne, ac un yr oeddwn yn anghytuno'n gryf ag ef gan y gallai arwain at siarad nes peri bod Prydain mewn dirwasgiad nad yw'n bodoli—oedd dweud na allai

while Labour had been in power, there was no boom and bust. That is, you were saying that the British economy was now bust. George Osborne has made the same point. The Tory Party is so resentful of Labour's economic success over the past 11 years that it wants to say that boom and bust has come back, and that we have a bust for the first time in 11 years. Tories would be very happy about that, because people would forget about the two very heavy busts during their time in Government—the two recessions that occurred during the 18 years of Tory rule. You may think that that is good for the Tory Party, but it is not good for the Welsh or the British economy, and you should stop doing it.

**Nick Bourne:** To come back to the facts, which I have already reminded you about, at the same time as you were speaking last week, the governor of the Bank of England contradicted what you were saying about recession. You were at pains to say that there is no recession but he indicated that we could well have two quarters of negative growth, which is the definition of a recession.

On the housing crisis, which I asked you about last week but did not get a proper answer, what is your Government going to do to help people with negative equity? Are you going to do what, in fairness, is being done in England in terms of the provision of free legal advice to those homeowners who are facing repossession? The Government figures that Caroline Flint, the Minister, had in her possession when she went to the Cabinet meeting show that there is clear evidence of there being a housing crisis.

**The First Minister:** Again, you are hoist by your own petard. You are saying that you are talking about facts and I was talking about facts, but you are not talking about facts now; you just asserted that we are in a recession. We are not in a recession. You are trying to talk us into a recession by harping on about the fact that Labour's no boom and bust claim is no longer true. Where is your evidence as regards the facts? If you want to

The key point is that we have big opportunities in 2008 for the first time in 10 years to market heavily in the eurozone. Last summer, people were put off because of the publicity in relation to the rain and because of the actual rain, although the rain was much worse in England than it was in Wales, but that did not matter. There was wall-to-wall coverage of how appalling the floods were in the lower Severn valley, around Gloucester and Tewkesbury and so on. It made everyone book last-minute holidays abroad even if they had previously intended to holiday at home. They just decided not to take the risk. All of that stopped by August; when I went on holiday, the weather was lovely. However, people had already made up their minds to go abroad because the weather during July was so bad. In every picture on the television, there was water, water everywhere in Great Britain, therefore, that put people off the idea of having a holiday in Wales. Let us hope that that does not happen this year. There are big opportunities for us now that the pound has gone soft relative to the euro.

**Mohammad Asghar:** Tourism is the chief sector of the Welsh economy. For a small nation, we are blessed with so much potential to develop our tourism industry. The Blaenavon Forgotten Landscape Partnership, which includes input from the Welsh Assembly Government, has applied to the Heritage Lottery Fund for £2.7 million for

codi yn flynyddol, ac ni allwch hyd yn oed ddefnyddio cerdyn credyd na debyd. A ydych yn cymryd camau i'w gwneud yn haws i bobl ddod i Gymru a pha gamau yr ydych yn eu cymryd gyda'r Adran Drafnidiaeth i sicrhau bod twristiaid sylfaenol yn gallu dod i Gymru'n rhwydd?

**Y Prif Weinidog:** Nid oes gennym bŵer i newid y trefniadau ar gyfer talu ar bont Hafren. Os nad yw'r syniad hwnnw wedi cael ei ystyried eisoes, ceisiaf sicrhau bod Adran Drafnidiaeth Llywodraeth San Steffan yn ei ystyried. Tybiaf ei bod eisoes wedi gwneud hynny, ond sicrhaf fod y syniad hwnnw'n cael ei ystyried.

Y pwynt allweddol yw bod gennym gyfleoedd mawr yn 2008 am y tro cyntaf ers 10 mlynedd i farchnata'n ddwys yn ardal yr ewro. Yr haf diwethaf, tarfwyd ar bobl yn sgîl y cyhoeddusrwydd a roddwyd i'r glaw ac oherwydd y glaw ei hun, er bod y glaw yn waeth o lawer yn Lloegr nag a oedd yng Nghymru, ond nid oedd fawr o bwys am hynny. Yr oedd y cyfryngau'n llawn straeon ynghylch mor ddifrifol oedd y llifogydd yn rhan isaf dyffryn Hafren, yng nghyffiniau Caerloyw a Tewkesbury ac yn y blaen. Parodd hyn i bawb archebu gwyliau tramor ar y funud olaf hyd yn oed os oeddent wedi bwriadu mynd ar wyliau gartref. Penderfynasant beidio â mentro. Daeth hynny i gyd i ben erbyn mis Awst; pan euthum ar fy ngwyliau, yr oedd y tywydd yn fendigedig. Fodd bynnag, yr oedd pobl wedi penderfynu mynd i wlad dramor gan fod y tywydd ym mis Gorffennaf mor wael. Yr oedd pob llun ar y teledu'n dangos dŵr, dŵr a mwy o ddŵr ym mhob man ym Mhrydain Fawr, ac o'r herwydd parodd hynny i bobl roi'r gorau i'r syniad o fynd ar wyliau yng Nghymru. Gobeithiwn na fydd hynny'n digwydd eleni. Mae cyfleoedd mawr gennym gan fod y bunt bellach wedi gwanhau o'i chymharu â'r ewro.

**Mohammad Asghar:** Twristiaeth yw'r prif sector yn economi Cymru. O wlad fach, yr ydym mor lwcus bod gennym gynifer o bosibiliadau i ddatblygu ein diwydiant twristiaeth. Mae Partneriaeth Tirlun Angof Blaenafon, sy'n cynnwys mewnbwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, wedi gwneud cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri am £2.7

conservation projects and to set up activities for young people such as recreating Stone Age housing and nature rambles. Will the First Minister join me in congratulating the work done by the partnership and wish it the best of luck in its bid for this grant?

miliwn ar gyfer prosiectau cadwraeth ac i sefydlu gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc megis ail-greu cartrefi o Oes y Cerrig a theithiau cerdded natur. A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i longyfarch y gwaith a wnaethpwyd gan y bartneriaeth a dymuno pob llwyddiant iddynt gyda'r cais am y grant hwn?

2.50 p.m.

**The First Minister:** Yes. Obviously, it would not be appropriate to comment on the individual grant application because I would have to support every grant application from Wales to the Heritage Lottery Fund. However, it sounds as if it is a project with good youth engagement, which is something that we want to see. Conservation engagement for young people at that age will give young people benefits, a pride in their citizenship and in their contribution to their country, as well as, hopefully, benefiting the tourist industry.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Wrth gwrs, ni fyddai'n briodol gwneud sylw am gais unigol am grant oherwydd byddai'n rhaid imi gefnogi pob cais am grant o Gymru i Gronfa Treftadaeth y Loteri. Fodd bynnag, mae'n swnio fel petai'n brosiect y mae pobl ifanc yn ymwneud cryn dipyn ag ef, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym am ei weld. Mae cael pobl ifanc i ymwneud â chadwraeth yn yr oedran hwnnw'n cynnig manteision i bobl ifanc, yn peri iddynt ymfalchïo yn eu dinasyddiaeth ac yn eu cyfraniad i'w gwlad, a bydd o fantais i'r diwydiant twristiaeth hefyd, gobeithio.

### Higher Education

### Addysg Uwch

**Q8 Peter Black:** Will the First Minister make a statement on improving access to higher education for people from low income households? OAQ(3)1024(FM)

**C8 Peter Black:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wella mynediad at addysg uwch ar gyfer pobl o aelwydydd incwm isel? OAQ(3)1024(FM)

**The First Minister:** On most indicators, as you are probably aware, the Welsh higher education sector outperforms the English higher education sector in attracting a wide social mix of students. This is a key Assembly Government priority that is taken into account in the way in which we devise and set up a system of fees, bursaries, diversity and student support.

**Y Prif Weinidog:** O ran y rhan fwyaf o ddangosyddion, fel y gwyddoch mae'n siŵr, mae sector addysg uwch Cymru'n perfformio'n well na'r sector addysg uwch yn Lloegr o ran denu cymysgedd gymdeithasol eang o fyfyrwyr. Mae hyn yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth y Cynulliad ac fe ystyrir y flaenoriaeth yn y modd yr ydym yn llunio ac yn sefydlu ein system o ffioedd, bwrsariaethau, cymorth i fyfyrwyr ac amrywiaeth.

**Peter Black:** As you are aware, the Higher Education Funding Council for Wales has a target for higher education institutions to recruit students from Communities First areas around Wales. What recent work has the Assembly Government done on monitoring the achievement of those targets, and will you consider revising them in the near future?

**Peter Black:** Fel y gwyddoch, mae gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru darged ar gyfer sefydliadau addysg uwch i recriwtio myfyrwyr o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru. Pa waith y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i wneud yn ddiweddar o ran monitro'r hyn y mae'r targedau hynny'n ei gyflawni, ac a wnewch ystyried eu diwygio yn y dyfodol agos?

**The First Minister:** We have invested £2

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym wedi buddsoddi

million in the Reaching Wider partnerships to encourage people to reach their potential in full. I will have to ask what the outcomes of it are to know what the baseline was and, therefore, how successful we have been in reaching the baseline. We know that there were 1.6 million student hours in 2005-2006, and that there are outreach projects in areas such as Caia Park in Wrexham and with Polish communities throughout Wales, school-based citizenships projects in mid and west Wales, summer universities, and Easter GCSEs revision sessions.

**Jeff Cuthbert:** In terms of widening access, First Minister, do you agree that if we were to establish Merthyr Tydfil and Ebbw Vale as centres of higher education, it would be attractive to many people living in the northern part of my constituency, such as those in Gilfach and Bargoed, who would be able to access courses at those establishments with relative transport ease? As people in those communities tend to have difficulties with regard to childcare, for example, it would be extremely convenient and useful. Will you also join me in praising the work of the Open University, which, because of its flexibility, can provide courses in a way in which learners from lower income families in particular are best able to access?

**The First Minister:** Yes. The merger of the University of Glamorgan and Merthyr Tydfil College was critical to that process, and there is an expectation that the percentage of further education students who progress from ONC level to the HNC level and so on to higher education will increase to 22 per cent in this year, compared with 7 per cent four years ago, in 2004-05. Likewise, the partnership involving the University of Wales Newport and the University of Glamorgan is intended to expand science education through a programme of science shops and community-based learning in the Heads of the Valleys.

**Angela Burns:** I am concerned about access to higher education not only for those on low incomes but for all who wish to access it, especially when first-class institutions—such as Pembrokeshire College, which will make

£2 miliwn yn y partneriaethau Ymggyraedd yn Ehangach i annog pobl i wireddu eu potensial yn llawn. Bydd yn rhaid imi ofyn beth yw'r canlyniadau i wybod beth oedd y llinell sylfaen ac, felly, pa mor llwyddiannus yr ydym wedi bod o ran cyrraedd y llinell sylfaen. Gwyddom fod 1.6 miliwn o oriau myfyrwyr yn 2005-06, a bod prosiectau allgymorth yn ardaloedd fel Parc Caia yn Wrecsam a chyda chymunedau Pwylaidd ledled Cymru, prosiectau dinasyddiaeth mewn ysgolion yn y canolbarth a'r gorllewin, prifysgolion haf, a sesiynau adolygu TGAU dros y Pasg.

**Jeff Cuthbert:** O ran ehangu mynediad, Brif Weinidog, a ydych yn cytuno pe byddem yn sefydlu Merthyr Tudful a Glynebwy fel canolfannau addysg uwch, y byddai hynny'n ddeniadol i lawer o bobl sy'n byw yn rhan ogleddol fy etholaeth, megis y rhai yn Gilfach a Bargoed, a fyddai'n gallu cael mynediad at gyrsiau yn y sefydliadau hynny yn weddol rwydd o ran trafniadaeth? Gan fod pobl yn y cymunedau hynny yn dueddol o gael anawsterau o ran gofal plant, er enghraifft, byddai'n hynod o gyfleus a defnyddiol. A wnewch ymuno â mi hefyd i ganmol gwaith y Brifysgol Agored, sydd, gan ei fod mor hyblyg, yn gallu darparu cyrsiau mewn modd sy'n golygu bod dysgwyr o deuluoedd ar incwm is yn benodol yn gallu manteisio arnynt?

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Yr oedd uno Prifysgol Morgannwg a Choleg Merthyr Tudful yn hanfodol o ran y broses honno, a disgwylir y bydd canran y myfyrwyr addysg bellach sy'n datblygu o lefel ONC i lefel HNC ac yna ymlaen i addysg uwch yn codi i 22 y cant eleni, o'i gymharu â 7 y cant bedair blynedd yn ôl yn 2004-05. Yn yr un modd, diben y bartneriaeth sy'n cynnwys Prifysgol Cymru Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg yw ehangu addysg ym maes gwyddoniaeth drwy raglen o siopau gwyddoniaeth a dysgu yn y gymuned ym Mlaenau'r Cymoedd.

**Angela Burns:** Yr wyf yn poeni am fynediad at addysg uwch nid yn unig i rai sydd ar incwm isel ond i bawb sy'n dymuno cael hynny, yn enwedig pan fydd sefydliadau o'r radd flaenaf—megis Coleg Sir Benfro, a fydd

28 teaching staff and seven administration posts redundant this year in order to fund well-deserved higher education pay rises of 2.7 per cent—are having to make redundancies. What support can you give colleges that have received only a 1.4 per cent increase in their funding for this year and can, therefore, only fund these increases by making cuts to their workforce, therefore impacting on access to their services by limiting the number of students that they can afford to take in?

**The First Minister:** I do not know the individual circumstances in Pembrokeshire College; it is a remarkably successful college of further education, fully on a par with the three colleges that I mentioned earlier, namely Yale College, Wrexham, Coleg Llandrillo Cymru, and Deeside College, and it has a successful franchise programme to carry out higher education activities on the campus within easy reach of the 100,000-odd people who live in Pembrokeshire. The adaptation from the previous system of pay in further education to the new system of pay is painful. It is a once in 25 years exercise, because there is unequal pay and a decasualisation issue. Trying to establish further education as a proper, fully funded profession rather than getting people to teach sessions on a fairly casual basis is stressful. I am not aware of the particular switch of having to fund this out of the increase, meaning that redundancies have to be made at Pembrokeshire College. Perhaps you could let me have more details about that.

**Helen Mary Jones:** One specific barrier to people from lower income households, especially older students with families, going into higher education is the fact that when a student's benefits are assessed, it is automatically assumed that the student will take out the full amount of student loan available. I have examples of individuals from my constituency who were deterred from doing that because they were so afraid of the debt that they would incur. This is particularly true when somebody is qualifying for professions such as nursing, which is not particularly highly paid. Is there

yn diswyddo 28 aelod o'r staff dysgu a saith sy'n gweithio mewn swyddi gweinyddol eleni er mwyn cyllido'r cynnydd cyflog o 2.7 y cant mewn addysg uwch, cynnydd y maent yn ei lwyr haeddu—yn gorfod diswyddo staff. Pa gymorth y gallwch ei roi i golegau sydd wedi cael cynnydd o 1.4 y cant yn unig yn eu cyllid ar gyfer eleni ac na allant, o'r herwydd, gyllido'r codiadau hyn ond drwy gwtogi ar eu gweithlu, gan effeithio felly ar fynediad at eu gwasanaethau drwy gyfyngu ar nifer y myfyrwyr y gallant fforddio'u derbyn?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn ymwybodol o'r amgylchiadau penodol yng Ngholeg Sir Benfro; mae'n goleg addysg bellach hynod lwyddiannus, llawn cystal â'r tri choleg y soniais amdanynt yn gynharach, sef Coleg Iâl, Wrecsam, Coleg Llandrillo Cymru, a Choleg Glannau Dyfrdwy, ac mae ganddo raglen ryddfrait lwyddiannus i gyflawni gweithgareddau addysg uwch ar y campws sydd o fewn cyrraedd i'r 100,000 neu fwy o bobl sy'n byw yn sir Benfro. Mae newid o'r system flaenorol o gyflogau ym maes addysg bellach i'r system newydd o gyflogau yn broses boenus. Mae'n ymarferiad a wneir unwaith mewn 25 mlynedd sydd wedi cael ei gynnal oherwydd tâl anghyfartal a dod â gwaith achlysurol i ben. Mae ceisio sefydlu addysg bellach fel proffesiwn go iawn, sy'n cael ei gyllido'n llawn, yn hytrach na chael pobl i ddysgu sesiynau ar sail weddol achlysurol yn dipyn o her. Nid wyf yn ymwybodol o'r newid penodol o orfod cyllido hyn o'r cynnydd, sy'n golygu bod yn rhaid i Goleg Sir Benfro ddiswyddo staff. Efallai y gallech roi rhagor o fanylion imi am hynny.

**Helen Mary Jones:** Un rhwystr penodol i bobl o aelwydydd incwm is, yn enwedig myfyrwyr hŷn sydd â theuluoedd, sy'n mynd i addysg uwch yw'r ffaith y tybir yn awtomatig, pan gaiff budd-daliadau myfyrwyr eu hasesu, y bydd y myfyriwr yn benthyca swm llawn y benthychiad i fyfyrwyr sydd ar gael. Mae gennyf enghreifftiau o unigolion o'm hetholaeth sydd wedi dewis peidio â gwneud hynny oherwydd bod arnynt gymaint o ofn y ddyled a fyddai ganddynt. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd rhywun yn cymhwyso ar gyfer proffesiynau megis nyrsio, nad yw'n talu'n dda iawn ar y cyfan.

any way for the Assembly Government to look at addressing this issue, either through the Assembly's own student support system or through having discussions with Westminster? Perhaps having transitional arrangements when students first enter higher education could be considered so that students could be sure that they will not end up with debts for a course that they may find they are not able to complete?

**The First Minister:** I am not absolutely sure that we have the ability to do that. Obviously, we do not set the benefits rules. What gets deducted from benefit entitlement if you are in receipt of another grant from another administration is a big problem in Scotland with regard to its free personal care, as that is deducted from attendance allowance eligibility. We managed to negotiate something like this in the Assembly learning grant five years ago, but only after enormous difficulties. We did, in the end, persuade the Department of Social Security, as it was at the time, that it should not deduct from someone's benefit what he or she gets in Assembly learning grant if he or she is an adult who is entitled to benefit. Perhaps we should have a go at doing that again in terms of the circumstances that you describe. Perhaps you will let me have the details of some of the constituency casework that you have picked up in this area.

### Digital Switchover

**Q9 Irene James:** What discussions has the Welsh Assembly Government had on the digital switchover in Islwyn? OAQ(3)1022(FM)

**The First Minister:** We are in regular discussions with Digital UK, the Westminster Government, and Ofcom about digital switchover in all parts of Wales. We are represented on the UK Government's digital switchover group, which should be of considerable benefit to Islwyn as an area where Freeview is not available.

**Irene James:** Perhaps I should declare an interest, as I live in an area that fits the

A oes modd sut yn y byd i Lywodraeth y Cynulliad edrych ar sut i fynd i'r afael â'r mater hwn, naill ai drwy system cymorth i fyfyrwyr y Cynulliad ei hun neu drwy gynnal trafodaethau â San Steffan? Efallai y dylid ystyried sefydlu trefniadau trosiannol pan fydd myfyrwyr yn mynd i addysg uwch am y tro cyntaf fel y gallai myfyrwyr fod yn sicr na fydd ganddynt yn y diwedd ddyledion am gwrs y maent efallai'n canfod na allant ei gwblhau?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn hollol siŵr a yw'r gallu gennym i wneud hynny. Yn amlwg, nid ydym yn gosod y rheolau o ran budd-daliadau. Mae'r hyn sy'n cael ei dynnu o'r hawl i fudd-dal os ydych yn cael grant arall gan weinyddiaeth arall yn broblem fawr yn yr Alban o ran y gofal personol rhad ac am ddim sydd ganddynt, oherwydd y mae'n cael ei dynnu o'r hawl i'r lwfans gweini. Llwyddasom i negodi rhywbeth tebyg i hyn yng ngrant dysgu'r Cynulliad bum mlynedd yn ôl, ond yr oedd hynny ar ôl wynebu anawsterau anferth. Yn y pen draw, perswadiasom yr Adran Nawdd Cymdeithasol, fel yr oedd ar y pryd, na ddylai dynnu o fudd-dal yr unigolyn yr hyn a gaiff gan grant dysgu'r Cynulliad os yw'n oedolyn y mae hawl ganddo neu ganddi i gael budd-dal. Efallai y dylem roi cynnig ar wneud hynny eto dan yr amgylchiadau yr ydych yn eu disgrifio. Efallai y rhochwch fanylion ambell waith achos etholaethol yr ydych wedi'u casglu yn y maes hwn.

### Newid i'r Digidol

**C9 Irene James:** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cael ynghylch newid i'r digidol yn Islwyn? OAQ(3)1022(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn cynnal trafodaethau rheolaidd â Digital UK, Llywodraeth San Steffan, ac Ofcom ynghylch newid i'r digidol ym mhob rhan o Gymru. Cawn ein cynrychioli ar grŵp newid i'r digidol Llywodraeth y DU, a dylai hyn arwain at fanteision sylweddol i Islwyn oherwydd y mae'n ardal lle nad oes Freeview ar gael.

**Irene James:** Efallai y dylwn ddatgan buddiant, oherwydd yr wyf yn byw mewn

description that I am going to give. Some areas in Islwyn do not receive a signal through a television aerial. With the digital switchover fast approaching, what can we do to ensure that people can receive all the free channels available without having to pay extra for subscription television?

**The First Minister:** Not being able to access television at a time when other people are has been a longstanding problem in the south Wales Valleys and perhaps other valleys in Wales. The old Rediffusion pipe, as it was called, was the solution in many of the Valleys. Freeview is not available in many areas north of the M4, but I understand that Freesat is expected to cover many of the areas where Freeview reception is a problem. I am not saying that it will have reached every corner of the Valleys; straight south-facing valleys will have access to Freesat. However, if there is a big wiggle or if you are on the shadow side, it may not be accessible—I do not know. We will have to look into it, and I will respond to you regarding the areas of your constituency that you mention to the best of my limited technical ability.

**William Graham:** From looking at Hansard last year, you will know that the MP for Islwyn asked the Secretary of State for Culture, Media and Sport what the estimated percentage of homes in Islwyn that do not receive the appropriate signals is. He was told that no estimates are available. Now, fortunately, the Ofcom digital UK tracker survey shows that 86 per cent of Islwyn's households could receive the various stations. Do you agree that it will be the same 14 per cent that will not receive signals once digital switchover has taken place?

**The First Minister:** The figures that I have show that, after digital switchover, in the case of the Wenvoe transmitter—I do not know whether this applies to Blaenplwyf and all the other Welsh transmitters going at the same time; I guess that it probably does—in the first quarter of 2010, which is not so far away, the Freeview signal can be turned up as it will not then interfere with the analogue signal, and that will be of benefit. Freesat,

ardal sy'n cyfateb i'r disgrifiad yr wyf am ei gyflwyno. Nid yw rhai ardaloedd yn Islwyn yn cael signal drwy erial teledu. Gan fod newid i'r digidol yn prysur agosáu, beth y gallwn ei wneud i sicrhau bod pobl yn gallu cael yr holl sianeli rhad ac am ddim sydd ar gael heb orfod talu'n ychwanegol am deledu y mae'n rhaid tanysgrifio iddo?

**Y Prif Weinidog:** Mae methu â chael mynediad at deledu pan fydd pobl eraill yn gallu gwneud hynny wedi bod yn broblem ers tro byd yng Nghymoedd y de ac efallai mewn cymoedd eraill yng Nghymru. Yr hen beipen Rediffusion, fel y'i gelwid, oedd yr ateb mewn llawer o'r Cymoedd. Nid yw Freeview ar gael mewn sawl ardal i'r gogledd o'r M4, ond deallaf fod disgwyl i Freesat fod ar gael mewn llawer o'r ardaloedd lle y mae derbyniad Freeview yn broblem. Nid wyf yn dweud y bydd wedi cyrraedd pob cwr o'r Cymoedd; bydd cymoedd sy'n wynebu'n syth i'r de yn gallu cael Freesat. Fodd bynnag, os oes wiglo mawr neu os ydych yn y cysgod, efallai na fydd ar gael—nid wyf yn gwybod. Bydd yn rhaid inni ymchwilio i'r mater, a gwnaf fy ngorau glas i'ch ateb ynghylch yr ardaloedd y soniasoch amdanynt yn eich etholaeth, gan gofio bod fy ngallu technegol yn gyfyngedig.

**William Graham:** Wrth edrych ar Hansard y llynedd, gwyddoch fod AS Islwyn wedi gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am amcangyfrif o ganran y tai yn Islwyn nad ydynt yn cael y signal priodol. Dywedwyd wrtho nad oedd amcangyfrifon ar gael. Erbyn hyn, wrth lwc, mae arolwg tracio digidol y DU Ofcom yn dangos y gallai 86 y cant o aelwydydd Islwyn gael y gorsafoedd amrywiol. A ydych yn cytuno mai'r un 14 y cant a fydd yn methu â chael signalau pan fydd newid i'r digidol wedi dod i rym?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r ffigurau sydd gennyf yn dangos, ar ôl newid i'r digidol, yn achos trosglwyddydd Gwenfô—nid wyf yn gwybod a yw hyn yn berthnasol i Flaenplwyf a'r trosglwyddyddion eraill yng Nghymru sy'n newid ar yr un pryd; yr wyf yn tybio ei fod mae'n debyg—yn ystod chwarter cyntaf 2010, sef cyn bo hir iawn, y bydd yn bosibl cryfhau signal Freeview oherwydd na fydd yn amharu ar y signal analog erbyn

which is jointly funded by BBC and ITV and is free, is coming in this month, and set-top boxes will become available from various retailers, which I will not name, for about £50, as Freeview set-top boxes were, although they have now dropped from £50 to £20. Let us hope that the same happens to Freesat boxes, when they become a mass-market item. That will fill another part of the gap so that 98.7 per cent of Welsh homes, we are told, can access digital television after switchover in the first quarter of 2010.

hynny, a bydd hynny'n fanteisiol. Mae Freesat—sy'n cael ei gyllido ar y cyd gan y BBC ac ITV, ac sydd ar gael yn rhad am ddim—yn cael ei lansio y mis hwn a bydd blychau ar ben y teledu ar gael mewn siopau amrywiol, na wnaef eu henwi, am tua £50, fel yr oedd blychau tebyg Freeview yn wreiddiol, er bod eu pris wedi gostwng o £50 i £20 erbyn hyn. Gobeithiwn y bydd yr un peth yn digwydd i flychau Freesat, pan fyddant yn dechrau cael eu gwerthu'n eang ar y farchnad. Bydd hynny'n llenwi rhan arall o'r bwlech fel y bydd 98.7 y cant o gartrefi Cymru, yn ôl a ddeallwn, yn gallu cael teledu digidol ar ôl y newid yn chwarter cyntaf 2010.

3.00 p.m.

**Mohammad Asghar:** What is the take-up of digital television in South Wales East? What sort of difficulties, if any, can people in South Wales East expect as a result of digital switchover, and what technical and financial help is available to them?

**Mohammad Asghar:** Faint sydd wedi manteisio ar deledu digidol yn Nwyrain De Cymru? Pa fath o anawsterau, os oes rhai o gwbl, y gall pobl Dwyrain De Cymru eu disgwyl yn sgîl newid i'r digidol, a pha gymorth technegol ac ariannol sydd ar gael iddynt?

**The First Minister:** The help mechanism is the digital switchover help scheme, or DSHS, which is not a familiar abbreviation yet, but will become more so as we move into this period before switchover in the first quarter of 2010. The BBC has been charged—although switchover affects the other channels as well—with setting up a help scheme to provide assistance to those considered most vulnerable, who are defined as people aged 75 or over, or those who are severely disabled, registered blind, or partially sighted. About 7 million homes across the UK—and I do not know how many in Wales, but I will try to find out—are expected to qualify for the help scheme.

**Y Prif Weinidog:** Y mecanwaith cymorth yw'r cynllun cymorth newid i'r digidol, neu DSHS. Nid yw'r byrfodd yn un cyfarwydd eto, ond daw'n fwy cyfarwydd wrth inni symud i'r cyfnod hwn cyn y newid yn chwarter cyntaf 2010. Mae'r BBC—er bod y newid yn effeithio ar y sianelau eraill hefyd—wedi cael y dasg o sefydlu cynllun cymorth i gynorthwyo'r rhai yr ystyrir eu bod fwyaf agored i niwed, sef, yn ôl y diffiniad, pobl 75 oed neu hŷn, neu'r rhai sydd yn ddifrifol anabl, wedi'u cofrestru'n ddall, neu'n rhannol ddall. Disgwylir i tua 7 miliwn o gartrefi ledled y DU—ac ni wn faint yng Nghymru, ond ceisiaf gael gwybod—fod yn gymwys ar gyfer y cynllun cymorth.

### **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement**

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** There are a few changes to the report of this week's planned Government business. Today's statement on sustainability and housing, flood-risk management and the Pitt review has been deferred until tomorrow afternoon, and today's statement on sustainable development

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Mae ychydig o newidiadau yn yr adroddiad ynglŷn â busnes arfaethedig y Llywodraeth ar gyfer yr wythnos hon. Gohiriwyd datganiad heddiw am gynaliadwyedd a thai, rheoli perygl llifogydd ac adolygiad Pitt tan brynawn yfory, a gohiriwyd datganiad heddiw am ddatblygu



has been postponed until 3 June. In their place will be, first, a statement from the Deputy First Minister on the freight strategy for Wales, and, secondly, a statement from the Minister for Health and Social Services on maternity services provided by Gwent Healthcare NHS Trust.

Business for the next three weeks is as set out in the draft business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

**Jonathan Morgan:** Would the Leader of the House request a debate in Government time—or, at the least, a statement from the Minister for health—on the effectiveness of policies to combat hospital infections and on the lack of cleanliness in Welsh hospitals? He may not be aware that there is a duty on NHS trusts to ensure that all nursing staff are given hospital infection-control training. It was made mandatory by the Assembly Government, but only 46 per cent of nurses in Wales have received that training. There are some huge issues that the Assembly Government needs to deal with regarding the spread of hospital-based infections, and the role of staff, patients and patients' families in infection control, and I request that we have an urgent debate here in Government time as soon as possible.

**Carwyn Jones:** These are important matters, but they can be raised with the Minister for health in questions or in correspondence.

**Jenny Randerson:** First, could you ask the Minister for health to give an oral statement on the hepatitis C action plan? The draft plan was produced last November, but we still have no final plan. In Scotland, a plan was produced two years ago, and stage 2 was announced yesterday. England has had a hepatitis C plan for the past four years, and so yet again, Wales is sadly lagging behind. Hepatitis C is a curable disease, but it frequently goes undetected. Awareness raising via an action plan, and improved treatment via an action plan, are important

cynaliadwy tan 3 Mehefin. Yn eu lle, yn gyntaf, ceir datganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog ynglŷn â strategaeth cludo nwyddau Cymru, ac, yn ail, datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â gwasanaethau mamolaeth a ddarperir gan Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent.

Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad a chyhoeddiad busnes drafft, a geir ymhlith papurau'r agenda sydd gael i'r Aelodau ar ffurf electronig.

**Jonathan Morgan:** A fyddai Arweinydd y Tŷ'n gofyn am ddatl yn amser y Llywodraeth—neu, o leiaf, ddatganiad gan y Gweinidog dros iechyd—ynglŷn ag effeithiolrwydd polisïau i frwydro yn erbyn heintiau mewn ysbytai ac ynglŷn â diffyg glanweithdra yn ysbytai Cymru? Efallai nad yw'n gwybod ei bod yn ddyletswydd ar ymddiriedolaethau'r GIG sicrhau bod pob aelod o'r staff nyrsio'n cael hyfforddiant rheoli heintiau mewn ysbytai. Gwnaeth Llywodraeth y Cynulliad hynny'n orfodol, ond dim ond 46 y cant o nyrsys Cymru sydd wedi cael yr hyfforddiant hwnnw. Mae sawl mater o bwys mawr y mae angen i Lywodraeth y Cynulliad ymdrin â hwy sy'n ymwneud â lledaenu heintiau mewn ysbytai, a rôl staff, cleifion a theuluoedd cleifion o ran rheoli heintiau, a gofynnaf am gael dadl frys yma yn amser y Llywodraeth cyn gynted ag sy'n bosibl.

**Carwyn Jones:** Mae'r materion hyn yn rhai pwysig, ond gellir eu codi gyda'r Gweinidog dros iechyd drwy ofyn cwestiynau neu drwy ohebiaeth.

**Jenny Randerson:** Yn gyntaf, a allech ofyn i'r Gweinidog dros iechyd roi datganiad llafar am y cynllun gweithredu ar hepatitis C? Cynhyrchwyd y cynllun drafft fis Tachwedd diwethaf, ond yr ydym yn dal i ddisgwyl y cynllun terfynol. Yn yr Alban, cynhyrchwyd cynllun ddwy flynedd yn ôl, a chyhoeddwyd cam 2 ddoe. Mae gan Loegr gynllun hepatitis C ers pedair blynedd, ac felly, unwaith eto, yn anffodus, mae Cymru ar ei hôl hi. Mae hepatitis C yn glefyd y gellir ei wella, ond yn aml iawn, nid yw'n cael ei ganfod. Mae codi ymwybyddiaeth drwy gyfrwng cynllun

steps in treating this serious illness.

Secondly, could you ask the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills for a debate on further education funding? The variation between one FE college and another as regards funding for next year is stark, and there appears to be no understanding of the reasons for that, either within the sector or among the people whom I discuss this issue with. It appears that no rationale has been given to the colleges as to why some of them are having an increase of nigh on 10 per cent, while others are having a 1 per cent cut. That is putting many of them in a dire situation. At one college close to here, early warnings have already been given to staff about redundancies.

**Carwyn Jones:** First, I will ask the Minister for health to provide Members with an update on the latest regarding the hepatitis C action plan. Secondly, further education colleges are independent, so it is entirely a matter for them to decide how they manage themselves and justify the decisions that they take. If you take up any issues with the appropriate Minister, Jane Hutt, I am sure that she will provide the answers that you seek.

**Alun Davies:** May I make a plea from the backbenches for a debate on the new legislative processes? For a year now, we have been operating the new powers given to us under the Government of Wales Act 2006. There is now an opportunity for us to look back on the use and exercise of those powers, and on how they have affected those of us who sit on legislative competence Order and Measure committees, who have watched that process take shape. Secondly, will you consider the use of our powers in section 27 of that Act, which gives us powers to direct the work of the Assembly Commission? At present, the Assembly appears to have no processes for developing or using these powers, and perhaps we could have a debate in Government time on the commission's work, and on how we can use the powers that have been given to us under this Act.

gweithredu a gwell triniaeth drwy gyfrwng cynllun gweithredu'n gamau pwysig er mwyn trin y salwch difrifol hwn.

Yn ail, a allech ofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am ddadl ynglŷn ag ariannu addysg bellach. Mae gwahaniaeth mawr rhwng gwahanol golegau addysg bellach o ran yr arian a gânt y flwyddyn nesaf, ac ymddengys nad oes neb yn deall y rhesymau dros hynny, nac o fewn y sector nac ymhlith y bobl y byddaf yn trafod y mater hwn â hwy. Ymddengys nad oes rhesymau wedi'u rhoi i'r colegau ynglŷn â pham mae rhai ohonynt yn cael cynnydd sydd bron yn 10 y cant, ac eraill yn wynebu toriad o 1 y cant. Mae hynny'n rhoi llawer ohonynt mewn sefyllfa ddirifol. Mewn un coleg nid nepell o'r fan hon, mae staff eisoes wedi cael rhybudd cynnar ynglŷn â diswyddiadau.

**Carwyn Jones:** Yn gyntaf, gofynnaf i'r Gweinidog dros iechyd ddweud wrth yr Aelodau beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch y cynllun gweithredu ar hepatitis C. Yn ail, mae colegau addysg bellach yn annibynnol, felly mater iddynt hwy yn gyfan gwbl yw sut y maent yn eu rheoli eu hunain ac yn cyfiawnhau eu penderfyniadau. Os codwch unrhyw faterion gyda'r Gweinidog priodol, Jane Hutt, yr wyf yn siŵr y rhydd yr atebion yr ydych yn gofyn amdanynt.

**Alun Davies:** A gaf bledio o'r meinciau cefn dros gael dadl ynglŷn â'r prosesau deddfu newydd? Ers blwyddyn bellach, yr ydym wedi bod yn rhoi'r pwerau newydd a roddwyd inni dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar waith. Mae cyfle inni yn awr edrych yn ôl ar y ffordd y defnyddiwyd y pwerau hynny a'u rhoi ar waith, ac ar sut y maent wedi effeithio ar y rhai ohonom sy'n aelodau o bwyllgorau ar Orchmynion cymhwysedd deddfwriaethol a Mesurau, a ninnau wedi gwyllo'r broses honno'n ymffurfio. Yn ail, a wnewch ystyried defnyddio ein pwerau yn adran 27 y Ddeddf honno, sy'n rhoi'r pwerau inni gyfarwyddo gwaith Comisiwn y Cynulliad? Ar hyn o bryd, nid yw'n ymddangos bod gan y Cynulliad brosesau ar gyfer datblygu na defnyddio'r pwerau hyn, ac efallai y gallem gynnal dadl yn amser y Llywodraeth ynglŷn â gwaith y comisiwn, ac ynglŷn â sut y

gallwn ddefnyddio'r pwerau sydd wedi'u rhoi inni dan y Ddeddf hon.

**Carwyn Jones:** I do not think that the time has yet come for a debate on legislative processes, because we are still moving forward and developing the processes that we have. The priority for this Government is to ensure that we pass as much legislation as we can from our legislative programme. There will be an announcement on the next legislative programme, and the aim is to complete that programme in good time. The Assembly Commission is not a matter for the Government; it is a matter for the Presiding Office. If such a request were directed to the Presiding Office, I am sure that that would be looked at.

**Nerys Evans:** Mae'n Wythnos Genedlaethol Epilepsi. A fyddai'n bosibl cael dadl yn amser y Llywodraeth am y driniaeth sydd ar gael ar gyfer pobl sydd ag epilepsi? Cawsom gyfarfod hynod lwyddiannus amser cinio, gyda mwy na 85 o bobl yn bresennol yn y Neuadd, a hoffwn ddiolch i'r Aelodau a oedd yno. Byddai cytuno i gael trafodaeth yn y Siambr am y ddarpariaeth a'r driniaeth sydd ar gael yn codi ymwybyddiaeth am epilepsi a'r hyn y mae pobl sydd ag epilepsi yn ei ddioddef.

**Carwyn Jones:** Nid wyf yn credu y byddai dadl yn berthnasol i symud y mater hwn yn ei flaen, er yr ydym oll yn cytuno bod epilepsi yn bwnc difrifol, a'i fod yn effeithio ar fywydau llawer o bobl—y sawl sy'n dioddef o epilepsi a hefyd y sawl sy'n gofalu amdanynt. Yr wyf yn siŵr y byddai llawer o Aelodau eisiau sicrhau bod epilepsi yn cael sylw er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r salwch. Yr wyf hefyd yn siŵr y byddai'r Gweinidog iechyd yn hapus i ddelio â'r pwynt hwn ac i wneud yr hyn sy'n bosibl i sicrhau bod mwy o bobl yn ymwybodol o epilepsi, o'r mathau o driniaeth sydd ar gael, ac o sut mae pobl yn ymdopi â'r salwch.

**Mark Isherwood:** On that point, I note that you feel, justifiably perhaps, that we should not have a full debate on epilepsy. However, could we not have a statement on the progress on the draft epilepsy strategy? We heard today that 22,500 people in Wales have epilepsy, and that there is a need for a

**Carwyn Jones:** Ni chredaf fod yr amser wedi dod eto inni gynnal dadl am brosesau deddfu, oherwydd yr ydym yn dal i symud yn ein blaen ac yn datblygu'r prosesau sydd gennym. Y flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon yw sicrhau ein bod yn pasio cymaint o ddeddfwriaeth sydd yn ein rhaglen ddeddfu ag y gallwn. Bydd cyhoeddiad ynglŷn â'r rhaglen ddeddfu nesaf, a'r nod yw cwblhau'r rhaglen honno mewn da bryd. Nid mater i'r Llywodraeth yw Comisiwn y Cynulliad, ond mater i Swyddfa'r Llywydd. Pe cyflwynid cais o'r fath i Swyddfa'r Llywydd, yr wyf yn siŵr yr edrychid ar hynny.

**Nerys Evans:** It is National Epilepsy Week. Would it be possible to have a debate during Government time on the treatment that is available to epilepsy sufferers? We had an extremely successful meeting at lunchtime, with more than 85 people present in the Neuadd, and I thank the Members who attended. If you were to agree to hold a debate in the Chamber on the provision and treatment on offer, that would raise awareness of epilepsy and of what epilepsy sufferers have to go through.

**Carwyn Jones:** I do not believe that a debate would be appropriate to move this issue forward, although we all agree that epilepsy is a serious subject, and that it has an impact on the lives of many people—both as sufferers of epilepsy and those who care for them. I am certain that many Members would wish to ensure that epilepsy was given attention to raise awareness of the condition. I am also certain that the Minister for health would be prepared to deal with this point and to do whatever is possible to ensure that more people are aware of epilepsy, the types of treatment available, and how people deal with the condition.

**Mark Isherwood:** Ynglŷn â'r pwynt hwnnw, sylwaf eich bod yn teimlo, ac efallai fod modd cyfiawnhau hynny, na ddylem gael dadl lawn am epilepsi. Fodd bynnag, oni allem gael datganiad ynglŷn â'r cynnydd o ran y strategaeth ddrafft ar epilepsi? Clywsom heddiw fod epilepsi ar 22,500 o

managed clinical network across Wales of co-ordinated services for people with epilepsy. Therefore, having listened to some of the stories today at the event to which Nerys referred, I would be grateful if that could be considered.

3.10 p.m.

Secondly, you also endorsed the event that was organised today by Jenny on hepatitis. I welcome the fact that you will refer this matter to the Minister. We now know that 14,500 people are estimated to be infected with hepatitis C in Wales. That has risen from 12,000 in just two years, and three quarters of those people do not even know that they have the condition. I think that that emphasises the urgency of this matter, and I welcome your response to Jenny.

Finally, I request that the Assembly Government make an urgent statement on its intended action over mortgage repossessions. We know from recently published court figures that Wales is the part of the UK worst hit by repossessions. So far, 566 homeowners in north Wales have been threatened with repossession this year, which is a big increase on previous years. Last year, from whence the increase came, lenders began more repossession procedures in Wales than at any time since 1992, when we were still trapped within the exchange rate mechanism, which had all-party support. Citizens Advice has said that it has seen a sharp rise in the number of people in Wales going to its bureaux for advice on their mortgage arrears. I know that the Assembly Government, during *purdah*, announced a sale-and-rent-back scheme for housing—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. This is not a debate. Will you just make your requests, as you seem to be going into this issue in rather a lot of detail?

**Mark Isherwood:** Yes. No funding was announced for that scheme, so it is a clear,

bobl yng Nghymru, a bod angen rhwydwaith o wasanaethau cydgysylltiedig ledled Cymru ar gyfer pobl sydd ag epilepsi a hwnnw'n rhwydwaith clinigol a reolir. Felly, ar ôl gwranddo ar rai o'r straeon heddiw yn y digwyddiad y cyfeiriodd Nerys ato, byddwn yn ddiolchgar petai modd ystyried hynny.

Yn ail, yr oeddech hefyd yn cefnogi'r digwyddiad a drefnwyd gan Jenny heddiw ynghylch hepatitis. Yr wyf yn croesawu'r ffaith y byddwch yn cyfeirio'r mater hwn at y Gweinidog. Gwyddom erbyn hyn fod 14,500, yn ôl yr amcangyfrif, wedi'u heintio â hepatitis C yng Nghymru. Mae'r nifer wedi codi o 12,000 mewn dwy flynedd, ac nid yw tri chwarter y bobl hynny hyd yn oed yn gwybod bod y cyflwr arnynt. Credaf fod hynny'n pwysleisio faint o frys sydd ynglŷn â hyn, a chroesawaf eich ymateb i Jenny.

Yn olaf, gofynnaf i Lywodraeth y Cynulliad wneud datganiad brys ynglŷn â'r hyn y bwriada'i wneud ynglŷn ag adfeddiannu eiddo dan forgais. Gwyddom, yn sgîl ffigurau'r llysoedd a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mai Cymru yw'r rhan o'r DU sy'n cael ei tharo waethaf gan adfeddiannu. Hyd yn hyn, mae 566 o berchnogion tai yn y gogledd wedi'u bygwth ag adfeddiannu eleni, sy'n gynnydd mawr o'i gymharu â'r hyn a fu mewn blynyddoedd a aeth heibio. Y llynedd, pan ddechreuodd y cynnydd, cychwynnodd benthyccwyr fwy o achosion adfeddiannu yng Nghymru nag a wnaethant ar unrhyw adeg ers 1992, pan oeddem yn dal ym magl mecanwaith y gyfradd gyfnewid, mecanwaith yr oedd pob plaid yn ei gefnogi. Mae Cyngor ar Bopeth wedi dweud ei fod wedi gweld cynnydd sydyn yn nifer y bobl yng Nghymru sy'n mynd at ei ganolfannau i gael cyngor am eu dyledion ar eu morgais. Gwn fod Llywodraeth y Cynulliad, yn ystod *purdah*, wedi cyhoeddi cynllun gwerthu a rhentu yn ôl ar gyfer tai—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Nid dadl yw hyn. A wnewch gyflwyno eich ceisiadau, gan ei bod yn ymddangos eich bod yn manylu cryn dipyn ynglŷn â'r mater hwn?

**Mark Isherwood:** Iawn. Ni chyhoeddwyd arian ar gyfer y cynllun hwnnw, felly, mae'n

pressing and urgent matter for the people of Wales, and I hope that the Government will respond positively to this request.

**Carwyn Jones:** It would be possible to deal with the health issues raised by Mark by discussing them with the Minister for Health and Social Services. Members are perfectly entitled to raise issues in the Chamber, but granting a debate in Government time is exceptionally difficult, if not impossible, given the pressures that we face. Nevertheless, there are opportunities for Members to raise important issues with Ministers and those issues have been raised today.

On mortgage repossessions, debt counselling is available for those who find themselves in difficulties with their mortgage repayments. We are not yet in a position, and I doubt whether we will be, of seeing house prices plummeting. There is no doubt that there is evidence of house prices dropping, but they are dropping only slightly. The vast majority of people have substantial equity in their houses and that will remain the case in the future. We are not in the position that we were in during the early 1990s when house prices were dropping 20, 30 and 40 per cent, and so people found that they had negative equity and could not service their mortgages. There are a few people in that position now, but it is certainly nothing like it was at that time. The evidence seems to suggest that, although times have been tough, it may well be the case that the situation will improve in the future. We are not in a recession, as the First Minister made clear many times today. I do not recall anything being done by the Conservatives for the large numbers of people who had their houses repossessed in the early 1990s; it was just their tough luck, as far as I remember. I stand here with a wry smile on my face having heard that the current credit crunch is apparently the fault of the Labour Government when the 1992 disaster over the ERM was something that all parties supported.

**Lesley Griffiths:** Following the points raised by Alun Davies, you will be aware of the growing dissatisfaction among Members about the lack of progress made by our

amlwg ei fod yn fater brys sydd o bwys mawr i bobl Cymru, a gobeithiaf y bydd y Llywodraeth yn ymateb yn gadarnhaol i'r cais hwn.

**Carwyn Jones:** Byddai modd ymdrin â'r materion ynglŷn ag iechyd a godwyd gan Mark drwy eu trafod gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae rhwydd hynt i Aelodau godi materion yn y Siambr, ond mae'n eithriadol o anodd caniatáu dadl yn amser y Llywodraeth, os nad yn amhosibl, o ystyried y pwysau a wynebwn. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i Aelodau godi materion pwysig gyda Gweinidogion ac mae'r materion hynny wedi'u codi heddiw.

O ran adfeddiannu tai dan forgais, mae cyngor ynglŷn â dyledion ar gael i'r rhai sy'n ei chael yn anodd ad-dalu eu morgais. Nid ydym mewn sefyllfa eto, a go brin y byddwn, lle y mae prisiau tai'n suddo i'r gwaelodion. Nid oes amheuaeth nad oes tystiolaeth bod prisiau tai'n gostwng, ond ychydig o ostyngiad sydd. Mae gan y mwyafrif helaeth o bobl ecwiti sylweddol yn eu tai a bydd hynny'n parhau'n wir yn y dyfodol. Nid ydym yn y sefyllfa yr oeddem ynddi ddechrau'r 1990au pan oedd prisiau tai'n gostwng 20, 30 a 40 y cant, a phobl, o'r herwydd, yn gweld na allent ad-dalu eu morgais oherwydd bod eu dyledion yn fwy na gwerth eu tai. Mae ychydig o bobl yn y sefyllfa honno yn awr, ond yn sicr, nid yw'n debyg o gwbl i'r sefyllfa bryd hynny. Mae'r dystiolaeth, i bob golwg, yn awgrymu, er bod y cyfnod hwn wedi bod yn un anodd, ei bod yn eithaf posibl y bydd pethau'n gwella yn y dyfodol. Nid ydym mewn dirwasgiad, fel yr eglurodd y Prif Weinidog droeon heddiw. Nid wyf yn cofio i'r Ceidwadwyr wneud dim dros y nifer fawr o bobl yr adfeddiannwyd eu tai ddechrau'r 1990au; eu hanffawd hwy oedd hynny, hyd y cofiaf. Safaf yma gyda gwên gam ar fy wyneb o glywed mai bai'r Llywodraeth Lafur, mae'n debyg, yw'r wasgfa gredyd, ac eto fod y trychineb o ran yr ERM yn 1992 yn rhywbeth yr oedd pob plaid yn ei gefnogi.

**Lesley Griffiths:** A dilyn y pwyntiau a godwyd gan Alun Davies, byddwch yn ymwybodol o'r anfodlonrwydd cynyddol ymhlith Aelodau ynglŷn â'r diffyg cynnydd o

legislative competence Orders once they leave this place. Indeed, the Presiding Officer made a useful suggestion recently as to how their progress could be expedited. Would you assure me that the next time you meet the Counsel General—[*Interruption.*]—you will raise the possibility of the Assembly Government asking the UK Government and other devolved institutions to look again at the ‘Memorandum of Understanding and Supplementary Agreements’, or command paper CM 5240, to give it its proper reference? As you know, that memorandum is the de facto rule book of how devolution works in the UK and, unfortunately for us, the current edition predates the Government of Wales Act 2006 by five years and so does not fully reflect the unusual quasi-legislative process that we have in Wales. Could the time have come for that memorandum to have a radical overhaul to include current Welsh legislative needs and requirements?

**Carwyn Jones:** I will try to raise the matter with the Counsel General although the quality and relevance of any advice that he may be able to give may be questionable. [*Laughter.*] However, it is important that we update the memorandum, as we are now five years on. I think that we all realise that the system that we have in place as a result of the Government of Wales Act 2006 must work and must be seen to work. I think that we are in that situation: we have had the first LCO passed and we have the domiciliary care LCO, which is being discussed today, and other LCOs are being taken forward to ensure that we are in a position to pass Measures based on them in the future. Nevertheless, it is right to say that, if the system is to work, it is important that there is sufficient flexibility both at our end and in Westminster.

**Kirsty Williams:** May I give the Leader of the House an opportunity to reflect on what he has just said with regard to a debate on FE funding? For him to state that these colleges are independent bodies and that, therefore, it is not appropriate for us to have a debate on

ran ein Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol ar ôl iddynt adael y lle hwn. Yn wir, cynigiodd y Llywydd awgrym buddiol yn ddiweddar ynglŷn â sut y gellid hwyluso pethau. A fyddech yn fy sicrhau, y tro nesaf y byddwch yn cyfarfod â'r Cwnsler Cyffredinol—[*Torri ar draws.*]—y codwch y posibilrwydd y gallai Llywodraeth y Cynulliad ofyn i Lywodraeth y DU a sefydliadau datganoledig eraill edrych eto ar y ‘Memorandum of Understanding and Supplementary Agreements’, neu bapur gorchymyn CM 5240, a rhoi ei gyfeirnod cywir iddo? Fel y gwyddoch, y memorandwm hwnnw yw'r llyfr rheolau *de facto* ynglŷn â sut y mae datganoli'n gweithio yn y DU, ac, yn anffodus i ni, cyhoeddwyd yr argraffiad diweddaraf bum mlynedd cyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Felly, nid yw'n adlewyrchu'n llawn y broses led-ddeddfwriaethol anghyffredin sydd gennym yng Nghymru. A yw'n bryd bellach ailwampio'r memorandwm hwnnw'n sylweddol er mwyn cynnwys anghenion a gofynion deddfu presennol Cymru?

**Carwyn Jones:** Ceisïaf godi'r mater gyda'r Cwnsler Cyffredinol er nad wyf yn siŵr beth fydd safon unrhyw gyngor y gall ei gynnig na pha mor berthnasol fydd. [*Chwerthin.*] Fodd bynnag, mae'n bwysig inni ddiweddarau'r memorandwm, gan fod pum mlynedd wedi mynd heibio bellach. Credaf ein bod i gyd yn sylweddoli bod yn rhaid i'r system sydd gennym yn sgîl Deddf Llywodraeth Cymru 2006 weithio a bod yn rhaid i bobl weld ei bod yn gweithio. Credaf mai dyna'r sefyllfa yr ydym ynnddi: mae'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol cyntaf wedi'i basio ac mae'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar ofal cartref yn cael ei drafod heddiw, ac mae Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol eraill ar y gweill i sicrhau y byddwn yn gallu pasio Mesurau'n seiliedig arnynt yn y dyfodol. Serch hynny, teg yw dweud, os yw'r system i weithio, ei bod yn bwysig sicrhau bod digon o hyblygrwydd o'n rhan ni ac yn San Steffan.

**Kirsty Williams:** A gaf roi cyfle i Arweinydd y Tŷ fyfyrion ynghylch yr hyn y mae newydd ei ddweud ynglŷn â dadl ar gyllido addysg bellach? Lol, mae'n amlwg, yw dweud bod y colegau hyn yn gyrff annibynnol ac na allwn gynnal dadl ynghylch

how they are funded is clearly nonsense. The funding formula that the Government has used to fund these colleges has resulted in some colleges being winners and having quite a large increase in their budget, while other colleges, including some of the most successful colleges, will see a 1 per cent cut in their budgets. Therefore, it is perfectly appropriate that the Minister has an opportunity to explain in the Chamber how that situation has arisen.

Secondly, the Deputy First Minister recently made a written statement on concessionary railway fares, and while I acknowledge that that statement brought some good news to some rail travellers in some parts of Wales, it seems to have been at the expense of my constituents, who will see their concessionary travel measures on the Heart of Wales line in the summer months cut, simply because they have been using it too often. Rather than putting an extra carriage on the train, he has removed that benefit. Will you ensure that the Deputy First Minister has an opportunity to make an oral statement on those changes, to explain to my constituents why they should lose out?

**Carwyn Jones:** Those are all issues that can be raised in questions to the appropriate Minister. It is not the intention of the Government to hold a debate in Government time on FE funding, but it is open to opposition parties, including the Liberal Democrats, to hold a debate in their own time if they feel that the issue is at least as important as the issue of public toilets.

**Lorraine Barrett:** Leader of the House, I ask for an assurance that the statement on sustainable development will go ahead on 3 June, because I was disappointed not to have the opportunity today, during vegetarian week, to ask the Minister for Environment, Sustainability and Housing for her views on the fact that an affluent diet containing meat requires up to three times as many resources as a vegetarian diet, and that going vegetarian is an easy way to lower our environmental impact on the world. [*Interruption.*]

sut y maent yn cael eu hariannu o'r herwydd. Mae'r fformiwla gyllido y mae'r Llywodraeth wedi'i defnyddio i gyllido'r colegau hyn wedi bod yn fanteisiol i rai colegau sydd wedi gweld cynnydd mawr yn eu cyllidebau, ac yn anfanteisiol i rai eraill, gan gynnwys rhai o'r colegau mwyaf llwyddiannus, a fydd yn gweld toriad o 1 y cant yn eu cyllidebau. Felly, mae'n gwbl briodol i'r Gweinidog gael cyfle i esbonio yn y Siambr sut y cododd y fath sefyllfa.

Yn ail, gwnaeth y Dirprwy Brif Weinidog ddatganiad ysgrifenedig yn ddiweddar ynghylch cynllun teithio rhatach ar y rheilffyrdd, ac er fy mod yn cydnabod bod y datganiad hwnnw'n newyddion da i rai o deithwyr y rheilffyrdd mewn rhannau o Gymru, ymddengys fod hynny ar draul fy etholwyr i, a fydd yn gweld cynllun teithio rhatach rheilffordd Calon Cymru yn yr haf yn cael ei gwtogi, a hynny am eu bod wedi bod yn ei ddefnyddio'n rhy aml. Yn hytrach na rhoi cerbyd ychwanegol ar y trê, mae wedi diddymu'r fantais honno. A wnewch sicrhau y bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn cael cyfle i wneud datganiad llafar ynghylch y newidiadau hynny er mwyn esbonio wrth fy etholwyr pam y dylent fod ar eu colled?

**Carwyn Jones:** Gellir codi'r materion hynny i gyd mewn cwestiynau i'r Gweinidog priodol. Nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu cynnal dadl yn ystod amser y Llywodraeth ynghylch cyllid addysg bellach, ond mae croeso i'r gwrthbleidiau, gan gynnwys y Democratiaid Rhyddfrydol, gynnal dadl yn eu hamser eu hunain os teimlant fod y mater o leiaf mor bwysig â mater toiledau cyhoeddus.

**Lorraine Barrett:** Arweinydd y Tŷ, gofynnaf am sicrwydd y bydd y datganiad ynghylch datblygu cynaliadwy'n mynd rhagddo ar 3 Mehefin, oherwydd yr oeddwn yn siomedig na chafwyd cyfle heddiw, yn ystod wythnos y llysieuwyr, i ofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai am ei barn ynglŷn â'r ffaith bod angen cymaint deirgwaith o adnoddau ar gyfer deiet pobl gefnog sy'n cynnwys cig â deiet llysieuol, a bod troi'n llysieuydd yn ffordd hawdd o leihau'r effaith amgylcheddol a gawn ar y byd. [*Torri ar draws.*]

**Carwyn Jones:** There will undoubtedly be a statement on sustainable development. I fully respect the choice that people make when they become vegetarians, and I was surprised to hear the outraged heckling from the benches opposite. It is entirely a matter of personal choice, and heckling or criticising someone simply because they choose to be a vegetarian does us meat-eaters no credit at all.

**Eleanor Burnham:** May I press the Leader of the House to ask the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport for a statement or even a debate on Virgin Trains's outrageous commercial decision to fleece north Wales rail passengers by tripling, from about £60 to about £200, the price of a ticket from north Wales to Euston station? It is absolutely outrageous. I have an e-mail about this in front of me. If you want to encourage eco-travelling and encourage businesses in north Wales, for goodness's sake, get to grips with Virgin Trains, because it is outrageous.

**Carwyn Jones:** That is not a devolved matter, but I honestly do not think that an hour's debate would add more to Eleanor's vehemence and clarity in putting forward her points so strongly.

**Carwyn Jones:** Yn ddiau bydd datganiad ynghylch datblygu cynaliadwy. Yr wyf yn llwyr barchu'r dewis y mae pobl yn ei wneud wrth iddynt droi'n llysieuwyr, ac yr oeddwn yn synnu o glywed y gweiddi dicllon o'r meinciau gyferbyn. Mater o ddewis personol ydyw, ac nid yw gweiddi ar rywun a'i feirniadu am iddo ddewis bod yn llysieuydd yn glod o gwbl i ni sy'n bwyta cig.

**Eleanor Burnham:** A gaf ddwyn pwysau ar Arweinydd y Tŷ i ofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth am ddatganiad neu hyd yn oed dadl ynghylch penderfyniad masnachol gwaradwyddus Trenau Virgin i flingo teithwyr trenau'r gogledd drwy dreblu pris tocyn o ryw £60 hyd ryw £200, o'r gogledd i orsaf Euston? Mae'n gwbl warthus. Mae gennyf e-bost ynglŷn â hyn o'm blaen. Os ydych am annog eco-deithio ac annog busnesau yn y gogledd, da chi, ewch i'r afael â Threnau Virgin, oherwydd y mae'n waradwyddus.

**Carwyn Jones:** Nid yw hyn yn fater sydd wedi'i ddatganoli, ond ni chredaf, a bod yn onest, y byddai awr o ddatl yn ychwanegu dim at ddieter Eleanor a'i heglurder wrth gyflwyno'i phwyntiau mewn modd mor gadarn.

### **Datganiad ar Strategaeth Cludo Nwyddau Cymru Statement on the Freight Strategy for Wales**

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Mae'n bleser gennyf gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol strategaeth cludo nwyddau Cymru y prynhawn yma.

**The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones):** I am pleased this afternoon to present to the National Assembly our Wales freight strategy.

3.20 p.m.

Yn gynharach y mis hwn, cyhoeddais 'Cysylltu Cymru', sef strategaeth drafnidiaeth Llywodraeth y Cynulliad. Nod y strategaeth hon yw ymdrin â heriau cynaliadwyedd a dod â phob rhan o Gymru ynghyd, yn unol â'r ymrwymiad a wnaed yn ein rhaglen lywodraethu, 'Cymru'n Un'. Yr ydym yn cymryd cam pellach ymlaen heddiw, drwy amlinellu mewn rhagor o fanylder y goblygiadau ar gyfer cludo nwyddau.

Earlier this month, I published 'Connecting the Nation', the Welsh Assembly Government's transport strategy. This strategy seeks to deal with the challenges of sustainability and drawing together all parts of Wales, in line with the commitment made in our 'One Wales' programme of government. Today we take a further step forward, by spelling out in greater detail the implications for the movement of freight.



Mae system drafnidiaeth o'r radd flaenaf, ar gyfer teithwyr a nwyddau fel ei gilydd, yn hanfodol er mwyn sicrhau ffyniant economaidd. Mae hefyd yn allweddol ar gyfer sicrhau gwir gyfiawnder cymdeithasol ac ar gyfer galluogi pawb i fanteisio ar y ddarpariaeth sydd ar gael. Mae cludo nwyddau yn allweddol ar gyfer sawl agwedd ar fywyd dyddiol, gan gynnwys cyswllt allweddol busnesau â chwsmeriaid a chyflenwyr, a chyflenwi bwyd a nwyddau ar gyfer defnyddwyr.

Yr ydym yn amcangyfrif bod gweithgareddau cludo nwyddau a gweithgareddau logisteg yn cyfrif am hyd at 7 y cant o gyflogaeth yng Nghymru—gyda thua 2,400 o gwmnïau logisteg a 7,400 o weithleoedd, sydd rhyngddynt yn cyfrannu tua £2.5 biliwn y flwyddyn i economi Cymru. Serch hynny, mae'n rhaid i ni hefyd gydnabod y gall gweithgareddau cludo nwyddau gael effaith fawr ar ein hamgylchedd, ein cymunedau a hyd yn oed ein hiechyd. Mae angen amlwg i ddatblygu dull newydd. Golyga'r ffaith bod rhagor o nwyddau yn cael eu cynhyrchu yn y dwyrain pell ac yn nwyrain Ewrop fod ein heconomi a'n rhwydwaith cludo nwyddau yn wynebu nifer o heriau newydd. Mae marchnadoedd a chyfleoedd newydd yn datblygu, ynghyd â newidiadau mewn dulliau dosbarthu nwyddau yn y wlad.

Yn anad dim, golyga her newid yn yr hinsawdd fod gwell cynaliadwyedd amgylcheddol yn gwbl hanfodol. Mae datblygiadau gwleidyddol ar droed yn ogystal, fel yr adolygiad o bolisi porthladdoedd gan yr Adran Drafnidiaeth ac, wrth gwrs, bwerau newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch cludiant. Golyga hyn oll fod cyhoeddiad heddiw yn amserol iawn.

Ffrwyth cydweithrediad agos rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, ein partneriaid yn y consortia trafndiaeth rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill yw strategaeth cludo nwyddau Cymru. Mae grŵp cludo nwyddau Cymru wedi creu fforwm ar gyfer trafod materion allweddol a pharatoi'r ddogfen, ac yr wyf yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu at y dasg bwysig hon. Mae'n bleser gennyf ddweud y cafwyd

A first-class system of transport, for passengers and freight alike, is a vital element in securing economic prosperity. It is also necessary to ensure real social justice and to enable everyone to access the provision that is available. Freight transport is essential for many aspects of daily life, including the crucial connection of businesses with customers and suppliers, and the supply of food and consumer goods.

We estimate that freight and logistics activities account for up to 7 per cent of employment in Wales—with some 2,400 logistics companies and 7,400 workplaces, which between them contribute around £2.5 billion a year to the Welsh economy. However, we must also recognise that freight transport activities can have a profound impact on our environment, our communities, and even our health. There is a clear need to develop a new approach. A global shift in the production of goods to the far east and eastern Europe brings fresh challenges to our economy and freight network. New markets and opportunities are emerging, together with changes in domestic distribution of goods.

Above all, the challenge of climate change makes greater environmental sustainability essential. There are political developments, such as the review of port policy by the Department for Transport and, of course, the new transport powers of the Welsh Assembly Government. All of this makes today's announcement very timely.

The Wales freight strategy is the result of close co-operation between the Welsh Assembly Government, our partners in the regional transport consortia and other stakeholders. In particular, the Wales freight group has provided a forum for discussing key issues and preparing the document, and I am grateful to everyone who has contributed to this important task. I am pleased to say that we have received a broadly positive response

ymateb cadarnhaol i raddau helaeth yn ystod proses ymgynghori drylwyr.

The overall message was that the strategy covers the main issues involved, and provides appropriate action to deal with them. The strategy clearly recognises that the freight industry is commercially driven, and that this reality must be taken into account in framing the role of the public sector. It sets out high-level aims and policies for freight transport, and identifies a series of specific steps towards their delivery. It makes our 'One Wales' objective of transferring freight from road to rail a priority—ensuring that freight transport plays a major role in promoting a sustainable environment.

Many of the 49 steps set out in the strategy are designed to reduce the overall environmental impact of freight transport, through modal shift and efficiency measures; in particular, they aim to curb greenhouse gas emissions. For example, one of our steps concerns options for promotion of a freight direct information service for Wales. This would provide information on alternative journey options, and show how to go about sending goods by rail or sea, as well as reducing the number of lorries running with empty loads. This could help to lower the number of vehicles on our roads and help to reduce emissions.

This is a strategy designed to support businesses, communities and the environment. It guides development of a reliable, cost-effective network for moving raw materials, manufactured goods and consumer goods. It identifies constraints on the existing freight network that may impact negatively on the Welsh economy and also anticipates changes in supply chains and markets and promotes sustainable distribution systems. In the first instance, this means integrating and making the best use of existing freight infrastructure, using all transport modes for the benefit of the environment and the economy.

during an extensive consultation process.

Y neges gyffredinol oedd bod y strategaeth yn mynd i'r afael â'r prif faterion perthnasol, ac yn cynnig camau priodol ar gyfer ymdrin â hwy. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod y diwydiant cludo nwyddau yn ymateb i alw masnachol, a bod yn rhaid ystyried hyn wrth bennu rôl y sector cyhoeddus. Mae'n gosod nodau a pholisïau ar lefel uchel ar gyfer cludo nwyddau, ac yn pennu cyfres o gamau penodol ar gyfer eu cyflawni. Mae'n gwneud un o amcanion 'Cymru'n Un', sef symud cludo nwyddau o'r ffyrdd i'r rheilffyrdd, yn flaenoriaeth—gan sicrhau bod gan gludo nwyddau rôl bwysig o ran hyrwyddo amgylchedd cynaliadwy.

Nod llawer o'r 49 o gamau a amlinellir yn y strategaeth yw lleihau effaith amgylcheddol gyffredinol cludo nwyddau, drwy newid y dull o deithio a thrwy fesurau effeithlonrwydd; maent yn anelu yn benodol at ostwng lefel allyriadau nwyon tŷ gwydr. Er enghraifft, mae un o'n camau'n cynnig opsiynau ar gyfer hyrwyddo gwasanaeth gwybodaeth uniongyrchol am gludo nwyddau ar gyfer Cymru. Byddai gwasanaeth o'r fath yn darparu gwybodaeth am wahanol opsiynau teithio, ac yn dangos sut y gellid anfon nwyddau ar drên neu ar long, ynghyd â lleihau nifer y lorïau ar y ffyrdd sydd â llwythi gwag. Gallai hyn helpu i leihau nifer y cerbydau ar ein ffyrdd a helpu i ostwng allyriadau.

Y bwriad yw y bydd y strategaeth hon yn cynorthwyo busnesau, cymunedau a'r amgylchedd. Mae'n llywio datblygiad rhwydwaith dibynadwy a chosteffeithiol ar gyfer symud deunyddiau crai, nwyddau a weithgynhyrchwyd a nwyddau ar gyfer defnyddwyr. Mae'n tynnu sylw at gyfyngiadau o ran y rhwydwaith cludo nwyddau presennol a all gael effaith negyddol ar economi Cymru, a hefyd yn rhagweld newidiadau mewn cadwynau cyflenwi a marchnadoedd ac yn hyrwyddo systemau dosbarthu cynaliadwy. Golyga hyn oll fod angen yn gyntaf integreiddio'r seilwaith cludo nwyddau presennol a'i ddefnyddio yn y ffordd orau, gan ddefnyddio pob dull gwahanol o deithio er lles yr amgylchedd a'r economi.

The Wales freight strategy is part of the process of taking forward our overall transport strategy, 'Connecting the Nation'. As such, it focuses on principles, but we have struck a balance between high-level statements and steps towards practical delivery. Now the focus will move to delivery, with a clear framework for producing a national transport plan for Wales and the detailed plans of our four regional consortia.

The delivery requires us to work together in partnership, especially given the commercial nature of freight transport. I believe that this is best taken forward through a series of partnerships between the Welsh Assembly Government, the regional transport consortia, the freight transport industry, environmental organisations and other organisations and authorities. We will also promote freight quality partnerships, which can help to bring together local authorities with the business community and other stakeholders to seek agreement on measures such as routing changes at the local level.

Devolution means that we can decide for ourselves how best to develop the transport that Wales needs. The Wales freight strategy takes us another step forward, and I commend it to the Assembly.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for your statement this afternoon, Deputy First Minister, which I welcome. Freight is a vital component of any economy and the ability to move it around unhindered, hopefully in the most environmentally friendly way possible, will make the economy more competitive. However, I note that there is a discrepancy—although I have not had the pleasure of reading all the 90-odd pages of the document, as it only arrived around 15 minutes ago—in terms of the numbers and the size of the freight industry in Wales. The draft document that was launched last autumn refers to a 6 per cent employment rate in Wales with 72,000 people employed by the industry. However, in the strategy, we seem to have lost 12,000 jobs somewhere and we are down

Mae strategaeth cludo nwyddau Cymru yn rhan o'r broses o roi ar waith ein strategaeth drafnidiaeth gyffredinol, 'Cysylltu Cymru'. O'r herwydd, mae'n canolbwyntio ar egwyddorion, ond yr ydym wedi sicrhau cydbwysedd rhwng datganiadau lefel uchel a chymau at gyflawni'n ymarferol. Y bwriad yn awr yw mynd ati i gyflawni, gyda fframwaith clir ar gyfer llunio cynllun trafndiaeth cenedlaethol ar gyfer Cymru a chynlluniau manwl ein pedwar consortiwm rhanbarthol.

Golyga hyn y bydd gofyn i ni weithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth, yn arbennig o ystyried natur fasnachol cludo nwyddau. Yr wyf yn credu mai'r ffordd orau o gyflawni hyn yw drwy gyfres o bartneriaethau rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, y consortia trafndiaeth rhanbarthol, y diwydiant cludo nwyddau, sefydliadau amgylcheddol ynghyd â sefydliadau ac awdurdodau eraill. Byddwn hefyd yn hyrwyddo partneriaethau ansawdd cludo nwyddau, a all helpu i ddod ag awdurdodau, y gymuned fusnes a rhanddeiliaid eraill ynghyd er mwyn ceisio sicrhau cytundeb ynghylch mesurau megis newid llwybrau ar lefel leol.

Mae datganoli yn golygu y gallwn benderfynu drosom ein hunain beth yw'r ffordd orau o ddatblygu'r drafnidiaeth y mae ar Gymru ei hangen. Mae strategaeth cludo nwyddau Cymru yn gam arall ymlaen, ac yr wyf yn ei chymeradwyo i'r Cynulliad.

**Andrew R.T. Davies:** Diolch am eich datganiad y prynhawn yma, Ddirprwy Brif Weinidog, yr wyf yn ei groesawu. Mae cludo nwyddau'n rhan allweddol o bob economi a bydd gallu eu symud o gwmpas yn ddilyffethair, yn y dull mwyaf eco-gyfeillgar posibl, gobeithio, yn gwneud yr economi'n fwy cystadleuol. Fodd bynnag, sylwaf fod anghysondeb—er nad wyf wedi darllen pob un o'r 90 tudalen neu fwy yn y ddogfen, gan na chyrrhaeddodd tan ryw 15 munud yn ôl—o ran niferoedd a maint y diwydiant cludo nwyddau yng Nghymru. Mae'r ddogfen ddrafft a lanswyd yr hydref diwethaf yn cyfeirio at gyfradd gyflogaeth o 6 y cant yng Nghymru a 72,000 o bobl yn cael eu cyflogi yn y diwydiant. Fodd bynnag, yn y strategaeth, ymddengys ein bod wedi colli

to 60,000. If there is a basic error in terms of the figures in the summary, how much confidence can we have in the rest of the figures in this strategy? I would be grateful if you could clarify that, because it is a rather large discrepancy, to say the least.

The strategy highlights the importance of freight and freight movement in Wales. Sadly, many of the issues that many freight companies are facing at the moment are not within the Assembly's control—we are all aware of the massive increase in fuel prices, for example. It is lamentable that, in response to a question that the leader of the opposition put to you on hauliers and the increasing cost of fuel, you said that you had had no discussions to date on this very topical issue. While there is a lot of paperwork here, how much effort and impetus is being put into understanding what hauliers need in order to be competitive?

Roads are obviously the main plank for delivering much of the freight strategy in Wales, given what has happened over the years in terms of planning and the development of supermarkets. Thirty per cent of the goods that travel on Welsh roads are food related, and much of it is delivered just in time. One of the key issues that we believe could be addressed in any strategy is the training of drivers to be more efficient in terms of the way in which they operate their units and understand the roads. Sadly, in Wales, we have not adapted to that mode and the safe and fuel-efficient driving scheme that was operated in England never came here. Although the strategy highlights the issue of training, it does not refer to any specifics. I would be grateful if you could highlight in your response, Minister, some specific ways in which you believe you could offer training and advice that would be of real benefit to the road haulage industry to ensure that deliveries are more efficient and flexible.

12,000 o swyddi yn rhywle a 60,000 yw'r ffigur erbyn hyn. Os oes camgymeriad sylfaenol wedi'i wneud o ran ffigurau'r crynodeb, sut y gallwn fod yn hyderus ynghylch gweddill ffigurau'r strategaeth hon? Byddwn yn ddiolchgar pe gallech egluro hynny, oherwydd y mae'n anghysondeb mawr iawn a dweud y lleiaf.

Mae'r strategaeth yn tynnu sylw at bwysigrwydd cludo a symud nwyddau yng Nghymru. Gwaetha'r modd, nid yw llawer o'r materion sy'n wynebu llawer o'r cwmnïau cludo nwyddau ar hyn o bryd o fewn rheolaeth y Cynulliad—gwyddom i gyd am y cynnydd anferth ym mhrisiau tanwydd, er enghraifft. Mae'n resyn eich bod wedi dweud, mewn ateb i gwestiwn a ofynnodd arweinydd yr wrthblaid ichi ynghylch cludwyr a chost gynyddol tanwydd, nad ydych wedi cynnal trafodaethau hyd yma ynghylch y mater hynod amserol hwn. Er bod llawer o waith papur i'w weld yma, faint o ymdrech ac ysgogiad sydd i ddeall yr hyn y mae ei angen ar y cludwyr er mwyn iddynt fod yn gystadleuol?

Mae'n amlwg mai'r ffyrdd yw'r prif gyfrwng ar gyfer cyflawni llawer o'r strategaeth cludo nwyddau yng Nghymru, o ystyried yr hyn sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd o ran cynllunio a datblygu archfarchnadoedd. Mae a wnelo 30 y cant o'r nwyddau a gludir ar ffyrdd Cymru â bwyd, a chaiff llawer ohono ei gyflenwi mewn union bryd. Un o'r materion allweddol y credwn y gellid rhoi sylw iddo mewn unrhyw strategaeth yw hyfforddi gyrwyr i fod yn fwy effeithlon o ran y ffordd y maent yn gweithredu eu hunedau ac yn deall y ffyrdd. Gwaetha'r modd, nid ydym wedi ymaddasu i'r dull hwnnw yng Nghymru ac ni chafodd y cynllun gyrru diogel ac effeithlon o ran tanwydd a fu'n weithredol yn Lloegr ei weithredu yma o gwbl. Er bod y strategaeth yn tynnu sylw at hyfforddiant, nid yw'n cyfeirio at ddim byd penodol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech yn eich ateb, Weinidog, bwysleisio rhai o'r ffyrdd penodol y credwch y gallech gynnig hyfforddiant a chyngor a fyddai o fudd gwirioneddol i'r diwydiant cludo nwyddau ar y ffyrdd er mwyn sicrhau bod nwyddau'n cael eu danfon yn fwy effeithlon a hyblyg.

On rail, the real issue is capacity. We have seen massive increases in capacity for rail passengers but, sadly, passenger services and freight services in Wales must compete for lines. How does the Deputy First Minister see his department and the Government increasing that capacity so that we can see that modal shift instead of these being just fine words?

Celsa Steel (UK) Limited in Cardiff has received £2.5 million for a development that will take 300,000 lorries off the road. That is a hard example, but how can the new Government take forward any initiatives that will combine the increase in passenger numbers with the demand for freight to travel by rail?

Ports are another critical component—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. This is an opportunity to ask questions; this is not a debate. Can you please ask succinct questions?

**Andrew R.T. Davies:** I apologise, Deputy Presiding Officer; I was just following the form of other statements that have been made in the Chamber. I obviously need to learn the new rules.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. There are no new rules. Some people are flexible but we do not have time to be quite so flexible today.

3.30 p.m.

**Andrew R.T. Davies:** I apologise for that. It is critical that Welsh ports have their opportunity. Avonmouth, just up the estuary, is expanding at a rate of knots, and, sadly, the Welsh ports all along the southern estuary seem to be missing out on that opportunity for development. Again, can you highlight how this strategy will work with Welsh port operators, north and south, to ensure that we benefit from that capacity increase and how we can move goods off the roads and into the ports?

O ran y rheilffyrdd, y broblem wirioneddol yw capasiti. Yr ydym wedi gweld cynnydd enfawr mewn capasiti ar gyfer teithwyr trenau ond, gwaetha'r modd, rhaid i wasanaethau teithwyr a gwasanaethau cludo nwyddau yng Nghymru gystadlu am reilffyrdd. Sut y mae'r Dirprwy Brif Weinidog yn gweld ei adran a'r Llywodraeth yn cynyddu'r capasiti hwnnw fel y gallwn weld y newid hwnnw yn y dull o deithio yn hytrach na geiriau da'n unig?

Cafodd Celsa Steel (UK) Cyf yng Nghaerdydd £2.5 miliwn ar gyfer datblygiad a fydd yn mynd â 300,000 o lorïau oddi ar y ffyrdd. Mae hynny'n enghraifft bendant, ond sut y gall y Llywodraeth newydd gyflwyno unrhyw gynlluniau a fydd yn cyfuno'r cynnydd yn niferoedd y teithwyr â'r galw am gludo nwyddau ar y rheilffyrdd?

Mae'r porthladdoedd yn allweddol hefyd—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Cyfle i ofyn cwestiynau yw hyn; nid dadl. A wnewch ofyn cwestiynau cryno, os gwelwch yn dda?

**Andrew R.T. Davies:** Ymddiheuraf, Ddirprwy Lywydd; dilyn ffurf y datganiadau blaenorol a wnaethpwyd yn y Siambr yr oeddwn. Mae'n amlwg bod angen imi ddysgu'r rheolau newydd.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Nid oes rheolau newydd. Mae rhai pobl yn hyblyg ond nid oes amser gennym i fod mor hyblyg heddiw.

**Andrew R.T. Davies:** Ymddiheuraf am hynny. Mae'n allweddol i borthladdoedd Cymru gael eu cyfle. Mae Avonmouth, ychydig i fyny'r aber, yn ehangu'n gyflym iawn, ac, yn anffodus, mae porthladdoedd Cymru yr holl ffordd ar hyd glan ddeheuol yr aber fel petaent yn colli'r cyfle hwnnw i ddatblygu. Unwaith eto, a allwch ddangos sut y bydd y strategaeth hon yn gweithio gyda gweithredwyr porthladdoedd Cymru, yn y gogledd a'r de, i sicrhau ein bod yn elwa o'r cynnydd hwnnw o ran capasiti a sut y gallwn symud nwyddau oddi ar y ffyrdd ac i'r porthladdoedd?

Finally, in south Wales, we have Cardiff international airport, which has a real opportunity to expand its freight operation, should the Government engage with delivering a major carrier to that airport. Heathrow accounts for 50 per cent of all UK air freight at the moment. However, here in Cardiff, we have an underused asset. Although there are environmental arguments to be had about air travel, it is a fact that industry looks time and again to use this mode of transport. As we have this asset, are you prepared to engage with the airport on your freight strategy in order to deliver such a carrier?

**The Deputy First Minister:** Thank you for the general welcome that you gave to the statement and the report. I will clarify the issue in terms of the numbers, but my understanding is that the figures quoted in the Wales freight strategy document published today are correct. However, if there is any change to that or anything that I need to clarify, I will write to you separately.

On the issue of fuel—and you mentioned the written question from Nick Bourne to which I replied—you must accept that the power to make policy on fuel duty and prices is not devolved. Therefore, we have no responsibility for that. That is not to say that we do not recognise the impact of fuel costs on haulage operators; I have that discussion with the logistics sector on a fairly regular basis, and my officials meet representatives of the sector even more regularly. I accept that it is an issue, and I know that it is hitting smaller haulage contractors quite hard. However, there is nothing that this Assembly Government can do to change fuel duty for the industry.

If I remember correctly, you made a point about training drivers to drive efficiently. In other words, we could reduce fuel consumption through training. In the statement, I said that there are ways in which that can happen, but because this is a strategy

Yn olaf, mae maes awyr rhyngwladol Caerdydd gennym yn y de, a byddai ganddo gyfle gwirioneddol i ehangu a chludo mwy o nwyddau, petai'r Llywodraeth yn mynd ati i ddarparu awyren fawr i'r maes awyr hwnnw. Ar hyn o bryd, mae 50 y cant o lwythi awyr y DU yn mynd drwy faes awyr Heathrow. Yma yng Nghaerdydd, fodd bynnag, mae gennym ased na ddefnyddir digon arno. Er bod dadleuon amgylcheddol yn gysylltiedig â theithio mewn awyrennau, mae'n ffaith bod diwydiannau'n ystyried defnyddio'r dull hwn o gludo nwyddau dro ar ôl tro. Gan fod yr ased hwn gennym, a ydych yn barod i ymgysylltu â'r maes awyr yng nghyswllt eich strategaeth cludo nwyddau er mwyn darparu awyren o'r fath?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Diolch ichi am y croeso cyffredinol a roddasoch i'r datganiad a'r adroddiad. Egluraf y mater sy'n ymwneud â'r niferoedd, ond yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae'r ffigurau a ddyfynnir yn nogfen strategaeth cludo nwyddau Cymru, a gyhoeddwyd heddiw, yn gywir. Fodd bynnag, os bydd hynny'n newid o gwbl, neu os oes rhywbeth y mae angen imi ei egluro, ysgrifennaf atoch ar wahân.

O ran tanwydd—a soniasoch am y cwestiwn ysgrifenedig gan Nick Bourne a atebais—rhaid ichi dderbyn nad yw'r pŵer i wneud polisiau sy'n ymwneud â'r dreth ar danwydd a phrisiau tanwydd wedi cael ei ddatganoli. O ganlyniad, nid ydym yn gyfrifol am hynny. Nid yw hynny'n golygu nad ydym yn cydnabod effaith costau tanwydd ar gwmnïau cludo nwyddau; yr wyf yn cael y drafodaeth honno gyda'r sector logisteg yn gymharol reolaidd, ac mae fy swyddogion yn cwrdd â chynrychiolwyr y sector yn fwy rheolaidd byth. Derbyniaf fod hyn yn broblem, a gwn ei fod yn taro'r contractwyr cludo nwyddau llai yn bur galed. Fodd bynnag, nid oes dim y gall y Llywodraeth hon yn y Cynulliad ei wneud i newid y dreth ar danwydd ar gyfer y diwydiant.

Os cofiaf yn iawn, gwnaethoch bwynt ynglŷn â hyfforddi gyrwyr i yrru'n effeithlon. Mewn geiriau eraill, gallem sicrhau bod llai o danwydd yn cael ei ddefnyddio drwy ddarparu hyfforddiant. Yn y datganiad, dywedais fod ffyrdd y gall hynny ddigwydd,

rather than a delivery document, I am not in a position to explain the full details. However, as we develop our transport plan, it is right for us to give that some more attention.

You rightly pointed out that the constraint in relation to a modal shift from road to rail is very often capacity. I have asked my officials to look at particular parts of the rail network to see whether we can address particular pinch points in the system and introduce greater opportunities for freight trains to be used alongside passenger services. I hope that I can make some progress on that in the not-too-distant future, because I wanted to stress today—and you have given me that opportunity—that that modal shift is a key priority for this Government.

You also mentioned the ports, and I am pleased to say that I had a meeting only the other day with the chief executive of the south Wales ports, which are Newport, Swansea, Barry and Port Talbot, to discuss the very issue that you raised. There is a great future for our ports, provided that the matter can be dealt with in a cost-effective way whereby the short sea crossings can be used as a way of conveying large quantities of goods without having an impact on our road network. I am pleased to have your support on that.

The issue about using airports for freight is harder to achieve because of the environmental impact. However, I am prepared to see what can be done, and I hope to have a meeting with the manager of Cardiff international airport to see how far we can take that issue.

**The Deputy Presiding Officer:** I wish to remind Members that this is an opportunity to question the Minister rather than to make long speeches. If Members can do that we will fit more speakers in.

**Gareth Jones:** Yr wyf finnau'n croesawu'r datganiad am strategaeth cludo nwyddau

ond gan mai strategaeth yw hon yn hytrach na dogfen ynghylch cyflawni, nid wyf yn gallu esbonio'r holl fanylion. Fodd bynnag, wrth inni ddatblygu ein cynllun trafnidiaeth, mae'n briodol inni roi ychydig bach mwy o sylw i hynny.

Dywedasoch yn gwbl briodol mai'r hyn sy'n atal newid yn y dull o deithio o'r ffordd i'r rheilffordd yn aml iawn yw capasiti. Yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion edrych ar rannau penodol o'r rhwydwaith rheilffyrdd er mwyn gweld a allwn roi sylw i fannau cyfyng penodol yn y system a chyflwyno mwy o gyfleoedd i ddefnyddio trenau cludo nwyddau ochr yn ochr â gwasanaethau teithwyr. Yr wyf yn gobeithio y gallaf sicrhau rhywfaint o gynnydd yn y cyswllt hwnnw cyn bo hir, oherwydd yr oeddwn yn awyddus i bwysleisio heddiw—ac yr ydych wedi rhoi'r cyfle hwnnw imi—fod y newid hwnnw yn y dull o deithio'n o brif flaenoriaethau'r Llywodraeth hon.

Cyfeiriasoch hefyd at y porthladdoedd, ac yr wyf yn falch o ddweud fy mod wedi cyfarfod y diwrnod o'r blaen â phrif weithredwr porthladdoedd y de, sef Casnewydd, Abertawe, y Barri a Phort Talbot, i drafod yr union bwynt a godwyd gennych. Mae dyfodol disglair i'n porthladdoedd, ar yr amod y gellir ymdrin â'r mater mewn ffordd gosteffeithiol, a defnyddio'r mordeithiau byr fel ffordd o gludo llawer iawn o nwyddau heb effeithio ar ein rhwydwaith ffyrdd. Yr wyf yn falch o gael eich cefnogaeth yn y cyswllt hwnnw.

Mae'r pwynt sy'n ymwneud â defnyddio meysydd awyr i gludo nwyddau'n anos ei gyflawni oherwydd yr effaith amgylcheddol. Fodd bynnag, yr wyf yn barod i weld beth y gellir ei wneud, ac yr wyf yn gobeithio cael cyfarfod â rheolwr maes awyr rhyngwladol Caerdydd er mwyn gweld pa mor bell y gallwn fynd gyda'r pwynt hwnnw.

**Y Dirprwy Lywydd:** Hoffwn atgoffa'r Aelodau mai cyfle i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog yw hyn yn hytrach na gwneud areithiau hir. Os gall yr Aelodau wneud hynny gallwn gael mwy o siaradwyr.

**Gareth Jones:** I also welcome the statement on the Wales freight strategy.

Cymru.

Mae'n amlwg eich bod wedi ystyried yn ddwys yr angen am strategaeth a goblygiadau'r fath strategaeth i Gymru. Mae'n deg cydnabod pwysigrwydd y sector hwn, sydd yn cyfrif am 7 y cant o gyflogaeth Cymru ac yn cyfrannu mwy na £2.5 biliwn y flwyddyn i'r economi. Dylem gydnabod hynny. Serch hynny, mae'n amlwg o'ch datganiad fod cost amgylcheddol a chymdeithasol yn sgîl hyn ac mai'r her yw cyflawni gwelliannau heb ryfygu na bygwth y llwyddiant masnachol a'r cyfraniad pwysig y mae'r sector yn ei wneud i'r economi.

Cytunaf hefyd fod angen ymagwedd newydd at hen broblem, sef gordddefnydd ein priffyrdd a thanddefnydd ein rheilffyrdd, ein llwybrau awyr a morol. Fel y dywedaso, mae'r amgylchiadau yn wahanol heddiw gyda marchnadoedd byd-eang newydd, newid yn yr hinsawdd, newidiadau gwleidyddol, megis y pwerau newydd sydd yn y Cynulliad, a phrisiau tanwydd, fel y nodwyd eisoes. A fydd y strategaeth hon yn caniatáu i chi ymateb yn gadarnhaol i newidiadau eraill a ddaw yn y dyfodol fel na fyddwn yn rhoi ein hunain mewn sefyllfa haearnidd ac yn dilyn rhyw drywydd doed a ddelo? Mae angen inni fod yn hyblyg yn y byd sydd ohoni gyda'r holl newidiadau.

Ac ystyried yr hyn sydd yn y fantol, yr wyf hefyd yn falch o glywed am ymateb cadarnhaol Grŵp Cludo Nwyddau Cymru, gan ei bod yn amlwg bod y grŵp yn deall yr angen am newid, a'r hyn y mae'n ei olygu i'w aelodau. Mae hyn eto'n ategu pa mor bwysig ydyw gwneud y paratodau cywir ac angenrheidiol ar gyfer newidiadau a all arwain at welliannau cymdeithasol, masnachol ac amgylcheddol, gan gynnwys gostwng allyriadau carbon.

Mae hwn yn ddatganiad i'w gymeradwyo. Mae'n ddatganiad o fwriad i roi strategaeth cludo nwyddau Cymru ar waith a sicrhau cydweithrediad y partneriaethau sydd gennych fel eich bod yn ymgymryd â'r 49 cam i'r dyfodol ac yn eu gweithredu. Yr ydych yn creu'r ymwybyddiaeth, sy'n beth da, ond a wnewch chi sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael yn cael ei lledaenu fel eich bod yn ennill y gefnogaeth drwy

It is clear that you have given some serious thought to the need for a strategy, and the implications of such a strategy for Wales. It is only fair to acknowledge the importance of this sector, which accounts for 7 per cent of Welsh employment, and contributes more than £2.5 billion a year to the economy. However, it is also clear from your statement that there is an environmental and social price to pay, and that the challenge is to deliver improvements without threatening the commercial success and the important contribution of the sector to the economy.

I also agree that we need a new approach to an old problem, namely the overuse of our trunk roads and the underuse of our railways, air and sea routes. As you said, the circumstances today are very different, given emerging global markets, climate change, political changes, such as the new powers of the Assembly, and the rising price of fuel, as has already been mentioned. Will this strategy allow you to respond positively to other changes that may emerge in the future, so that we do not place ourselves in too rigid a position, and follow a certain path come what may? We need to be flexible, given the current climate that we are faced with, and all the changes.

Given what is at stake here, I am also pleased to hear about the positive response of the Wales Freight Group, as it is evident that the group understands the need for change, and also what it means for its members. This once more reinforces how important it is to make the proper and necessary preparations for changes that could lead to improvements for society, commerce and the environment, including by way of reducing carbon emissions.

This statement is to be applauded. It is a statement of intent to deliver the Wales freight strategy and to ensure the co-operation of the partnerships that you have established, so that you can take the 49 steps to the future and act on them. You are raising awareness, which is a good thing, but will you also ensure that the information that is available is disseminated properly so that you can gain support throughout Wales for this



Gymru gyfan ar gyfer mater hollbwysig? Rhaid i ni gael dealltwriaeth a chefnogaeth os ydym am newid y sefyllfa bresennol o ran cludo nwyddau.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Diolch yn fawr am eich sylwadau defnyddiol, Gareth. Fel y gwyddoch, rhaid i'r Llywodraeth fod yn hyblyg, wrth ymateb i'r her o ran cludo nwyddau. Er ei bod yn strategaeth dros gyfnod o flynyddoedd, yr ydym oll yn sylweddoli y gall anghenion yr economi, diwydiant a'r amgylchedd newid yn gyflym. Rhaid i'r strategaeth hon fod yn ddigon hyblyg i ddylanwadu ar y newidiadau hynny. Ar hyn o bryd, gwelwn mai'r patrwm bydeang yw cludo nwyddau dros y cyfandiroedd. Yn y blynyddoedd nesaf, bydd mwy o bwyslais ar leihau'r ôl-troed hwnnw, felly rhaid bod yn ymwybodol y gallai hynny newid. Bydd mwy o bwysau ar siwrneiau byrion yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Felly, yr wyf yn ymwybodol o'r angen i ni fod yn hyblyg.

O ran Grŵp Cludo Nwyddau Cymru, yr ydym yn ymwybodol o'r angen i gynrychioli buddion y sawl sy'n ymwneud â'r amgylchedd. Dyna pam yr ydym wedi cytuno bod dau grŵp amgylcheddol yn dod yn aelodau o Grŵp Cludo Nwyddau Cymru, er mwyn sicrhau bod cydbwysedd cywir rhwng ystyriaethau diwydiant a'r amgylchedd.

Yr oedd eich cwestiwn olaf yn un pwysig iawn, yn gofyn sut y gallwn sicrhau bod y diwydiant yn ymwybodol o'r strategaeth a'r dewisiadau posibl sy'n deillio ohoni. Gwyddom y caiff y cwmnïau logisteg mawr y wybodaeth honno. Yr hyn sy'n peri pryder yw nad oes gan y person sydd ag un neu ddwy lorri yr amser i gael yr holl wybodaeth sydd ar gael. Bydd ein swyddogion am sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael yn cael ei lledaenu mor eang â phosibl.

3.40 p.m.

**Kirsty Williams:** Thank you, Minister, for your statement. I note that in chapter 9 of your strategy you outline your short, medium and long-term goals. 'Short term' is defined as actions up until 2010, but there is no timescale associated with the medium term, and all that it states about the long-term goals

crucial matter? We must secure people's understanding and support if we are to change the situation as it stands with regard to freight transport.

**The Deputy First Minister:** Thank you for your useful comments, Gareth. As you know, the Government must be flexible in responding to the challenges presented by freight transport. Although the strategy is for a period of years, we all appreciate that the needs of the economy, of industry, and of the environment could change quickly. This strategy must be flexible enough to have an influence on those changes. At present, we see that the current pattern globally is to transport freight across continents. In the coming years, there will be more of an emphasis placed on reducing that footprint, and so we must be aware of how the situation could change. More emphasis will be placed on making shorter journeys over the coming years. Therefore, I am aware of the need to be flexible.

On the Wales Freight Group, we are all aware of the need to represent the interests of those who campaign for the environment. That is why we have agreed for two environmental groups to become members of the Wales Freight Group, to ensure that we strike the right balance between industrial and environmental considerations.

Your final question was crucial, asking how we could ensure that the industry is aware of the strategy and of the possible options that stem from it. We know that the larger logistics companies will get that information. However, what causes concern is that those people who own just one or two lorries do not have the time to gather all the information that is available. Our officials will endeavour to ensure that the information that is available is disseminated as widely as possible.

**Kirsty Williams:** Diolch, Weinidog, am eich datganiad. Sylwaf eich bod yn amlinellu, ym mhennod 9 eich strategaeth, eich nodau ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Diffinnir 'tymor byr' fel camau hyd at 2010, ond nid oes amserlen ar gyfer y tymor canolig, a'r cyfan y mae'n ei ddweud ynglŷn

is that they are steps towards delivery looking further into the future. Can you provide timescales by which you would expect the medium and long-term goals, outlined in the document, to be delivered?

I note your assertion, quite rightly, that this place does not have direct influence over fuel duty, but I am sure that you would agree that it is not just the actual cost to the hauliers that is causing difficulties at the moment, but the knock-on effect that has on the price of goods in the shops—it is remarkable how quickly food prices, particularly in rural constituencies, can shoot up because of the increased cost of getting food to the market. I appreciate that you do not have a direct role in this regard, but surely you have the ear of the national Government and would want to make representations regarding this issue to Westminster. Can you clarify whether you have done so or not?

Andrew R.T. Davies talked about driver training. Would you agree that the safety of haulage drivers and of the communities through which they drive is paramount? Have you, therefore, given any further consideration to a system of adequate stop and rest facilities for lorry drivers? I know that this is a particular concern along the north Wales coast. Are you any further forward in terms of identifying and producing a system of adequate rest facilities for drivers?

Back in October, in the statement on the consultation document, you were asked about investment in railway infrastructure, particularly at Severn Junction, to allow for modal shift. You said, in answer to that question, that you would go back to your officials and you would hope to come forward shortly with an answer—you have said exactly the same today. Can you give us an idea as to when we might get a definitive answer with regard to infrastructure investments in the rail service, for instance at Severn Junction? You were also asked in October about the possibility of establishing a marshalling yard in Holyhead, which is an issue that you are very familiar with, and,

â'r amcanion hirdymor yw eu bod yn gamau i gyflawni ymhellach yn y dyfodol. A allwch roi amserlen a fyddai'n nodi erbyn pryd y byddech yn disgwyl i'r amcanion tymor canolig a hirdymor, a amlinellir yn y ddogfen, gael eu cyflawni?

Sylwaf ar eich honiad, cwbl briodol, nad oes gan y lle hwn ddylanwad uniongyrchol ar y dreth ar danwydd, ond yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno nad y wir gost i'r cludwyr yw'r unig beth sy'n achosi anawsterau ar hyn o bryd. Mae'r effaith ganlyniadol y mae hynny'n ei chael ar bris nwyddau yn y siopau'n achosi anawsterau hefyd—mae'n syndod mor sydyn y gall prisiau bwyd godi, yn enwedig mewn etholaethau gwledig, oherwydd y cynnydd yng nghost cludo bwyd i'r farchnad. Sylweddolaf nad oes gennych rôl uniongyrchol yn y cyswllt hwn, ond siawns nad yw'r Llywodraeth genedlaethol yn gwrando arnoch ac y byddech yn awyddus i gyflwyno sylwadau ynglŷn â'r mater hwn i San Steffan? A allwch egluro a ydych wedi gwneud hynny ai peidio?

Siaradodd Andrew R.T. Davies am hyfforddi gyrwyr. A fydddech yn cytuno bod diogelwch gyrwyr cerbydau cludo nwyddau a'r cymunedau y maent yn gyrru drwyddynt yn hollbwysig? A ydych, felly, wedi rhoi ystyriaeth bellach i system o gyfleusterau aros a gorffwys digonol ar gyfer gyrwyr lorïau? Gwn fod pryder mawr ynglŷn â hyn ar hyd arfordir y gogledd. A ydych rywfaint nes i'r lan o ran canfod a chynhyrchu system o gyfleusterau gorffwys digonol ar gyfer gyrwyr?

Ym mis Hydref y llynedd, yn y datganiad ar y ddogfen ymgynghori, gofynnwyd cwestiwn ichi ynglŷn â buddsoddiad yn seilwaith y rheilffyrdd, yn enwedig yng Nghyffordd Hafren, er mwyn sicrhau newid yn y dull o deithio. Dywedasoch, wrth ateb y cwestiwn hwnnw, y byddech yn mynd yn ôl at eich swyddogion ac y byddech yn gobeithio y byddai gennych ateb cyn bo hir—yr ydych wedi dweud yr un peth yn union heddiw. A allwch roi rhyw syniad inni pryd y gallem gael ateb pendant ynglŷn â buddsoddiad o ran y seilwaith yn y gwasanaeth rheilffyrdd, er enghraifft yng Nghyffordd Hafren? Gofynnwyd cwestiwn ichi hefyd ym mis Hydref ynglŷn â phosibilrwydd sefydlu iard

again, you said that that was work in progress. Can you give us an update on whether you have been able to make any progress on that scheme?

**The Deputy First Minister:** We have expressed our concern about the escalating cost of fuel, but we have to accept that there is nothing that we, as an Assembly Government, can do to change the situation. It is a matter for the UK Government. I was rather concerned by your saying that I have the ‘ear of the national Government’, because I always thought that this Assembly was the national Government, whereas you meant the UK Government in London, but I will let that pass.

On the issue of training, I very much agree with the points that have been made that there are ways in which we can give advice to the logistics industry, and it is obviously ready to take that advice, because achieving greater fuel efficiency is in its interests. I will want to make some progress on that.

Discussions are ongoing with regard to the provision of stop and rest facilities for drivers, but we must all recognise that there is not an easy answer. It is easy to say that we should have those facilities, but where they are proposed there is often great resistance to them among the local community. It is difficult to find locations for them. There is general support for stop and rest facilities, and I have had many representations about them, but the problem is finding locations for which there is local community support.

On investment in railway infrastructure, this, again, is not simply a matter for the Assembly Government, because we have to work in co-operation and in partnership with Network Rail and other partners in some instances. I hope that Kirsty will forgive me

drefnu yng Nghaergybi, sy'n fater yr ydych yn gyfarwydd iawn ag ef, ac, unwaith eto, dywedasoich fod y gwaith hwnnw'n mynd rhagddo. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a ydych wedi gallu gwneud unrhyw gynnydd gyda'r cynllun hwnnw?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr ydym wedi mynegi ein pryder ynglŷn â'r cynnydd yng nghost tanwydd, ond rhaid inni dderbyn nad oes dim y gallwn ni, fel Llywodraeth y Cynulliad, ei wneud i newid y sefyllfa. Mater i Lywodraeth y DU yw hynny. Yr oeddwn braidd yn bryderus o'ch clywed yn dweud bod y ‘Llywodraeth genedlaethol yn gwrando’ arnaf, oherwydd yr oeddwn bob amser yn meddwl mai'r Cynulliad hwn oedd y Llywodraeth genedlaethol, ond Llywodraeth y DU yn Llundain yr oeddech chi'n ei olygu, ond nid wyf am fynd ar ôl hynny.

O safbwynt hyfforddiant, yr wyf yn cytuno'n llwyr â'r pwyntiau sydd wedi cael eu gwneud, sef bod modd inni allu cynnig cyngor i'r diwydiant logisteg, ac mae'n amlwg ei fod yn barod i wrando ar y cyngor hwnnw, oherwydd y mae sicrhau bod tanwydd yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithlon o fudd iddo. Byddaf yn awyddus i sicrhau rhywfaint o gynnydd yn y cyswllt hwnnw.

Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ynglŷn â phosibilrwydd darparu cyfleusterau aros a gorffwys ar gyfer gyrwyr, ond rhaid i bob un ohonom gydnabod nad oes ateb hawdd. Mae'n hawdd dweud y dylem gael y cyfleusterau hynny, ond yn aml iawn mae'r gymuned leol yn yr ardaloedd lle y cynigir y dylid eu cael yn eu gwrthwynebu'n gryf. Mae'n anodd dod o hyd i leoliadau ar eu cyfer. Mae cefnogaeth gyffredinol i gyfleusterau aros a gorffwys, ac yr wyf wedi cael llawer o sylwadau yn eu cylch, ond dod o hyd i leoliadau lle y mae'r gymuned leol o'u plaid yw'r broblem.

O ran buddsoddiad yn seilwaith y rheilffyrdd, nid mater i Lywodraeth y Cynulliad yn unig yw hyn ychwaith, oherwydd rhaid inni weithio ar y cyd â Network Rail, ac mewn partneriaeth ag ef, a phartneriaid eraill mewn rhai achosion. Gobeithiaf y gwnaiff Kirsty

if I do not mention specific details today because this document is about strategy and not the detail of specific improvements. However, I can say that it has moved forward from the position that we outlined in October. I regard the improvements in the infrastructure to be a way of releasing capacity for passenger services and, if we are to be meaningful about our modal shift, infrastructure improvements are essential.

**Eleanor Burnham:** Yr wyf yn falch bod gennych strategaeth ond yr wyf yn siomedig nad oes manylder, gan ein bod i gyd ar bigau'r drain ynglŷn â hyn. Yr ydych yn dweud na fyddwch yn mynd i'r holl fanylion, ond hoffwn wybod mwy am gludo'r agregau drwy ddyffryn Conwy. Gwn fod gwaith manwl wedi ei wneud gan y Tad Deiniol ar ran cymuned Ffestiniog—a gwn nad yw hynny yn fy rhanbarth i, ond mae'r dyffryn yn fy rhanbarth i. Yr wyf wedi cael trafodaethau gyda'r Tad Deiniol ac yr wyf wedi gweld yn union yr hyn yr oedd yn sôn amdano. Fel y mae ef wedi dweud dros y blynyddoedd, byddai rhoi isadeiledd drwy'r dyffryn yn fuddsoddiad yn y gymuned. A ydych wedi cael unrhyw drafodaeth ar wella'r sefyllfa, defnyddio'r agregau, a gwella'r isadeiledd ar gyfer y bobl yn y gymuned honno a chymunedau eraill y dyffryn?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Os ydych yn derbyn mai strategaeth yw hon, ni fydech yn disgwyl i ni gynnwys manylion ynghylch cynlluniau penodol. Fodd bynnag, yr wyf yn cydnabod bod y Tad Deiniol ac Yn Ein Blaenau wedi gwneud nifer o sylwadau am ddefnyddio trafniadaeth gyhoeddus a rheilffyrdd i gludo nwyddau. Fe'ch sicrhaf fod y Llywodraeth yn ystyried pob cynllun a fydd yn ein cynorthwyo i ehangu capasiti'r isadeiledd i sicrhau ein bod yn gallu symud nwyddau o'r ffyrdd i'r rheilffyrdd. Ni allaf wneud addewid pendant ynghylch cynlluniau penodol, ond yr wyf yn eich sicrhau bod y Llywodraeth yn ymwybodol o'r angen i wneud hyn.

faddau imi os na soniaf am fanylion penodol heddiw gan mai dogfen ynghylch strategaeth yw hon, nid ynghylch manylion gwelliannau penodol. Fodd bynnag, gallaf ddweud ei bod wedi symud ymlaen o'r sefyllfa a amlinellwyd gennym ym mis Hydref. Yr wyf yn barnu bod y gwelliannau yn y seilwaith yn ffordd o ryddhau capasiti ar gyfer gwasanaethau i deithwyr ac, os ydym am fod yn ystyrlon ynghylch ein newid yn y dull o deithio, mae gwelliannau yn y seilwaith yn hanfodol.

**Eleanor Burnham:** I am pleased that you have a strategy but I am disappointed that there is not any detail, as we have all been waiting with bated breath for this. You say that you are not going to go into detail, but I would like to know more about the transport of aggregates through the Conwy valley. I know that detailed work has been carried out by Father Deiniol on behalf of the Ffestiniog community—and I know that that is not in my region, but the valley is. I have had discussions with Father Deiniol and I have seen exactly what he is talking about. As he has said over the years, putting an infrastructure through the valley would be an investment in the community. Have you had any discussion on improving the situation, using the aggregate and improving the infrastructure for the people of that community and the other communities in the valley?

**The Deputy First Minister:** If you accept that this is a strategy, you would not expect us to include details about specific plans. However, I recognise that Father Deiniol and Yn Ein Blaenau have made several comments regarding the use of public transport and railways to transport goods. I can assure you that the Government is considering every plan that will help us to expand the capacity of the infrastructure to ensure that we can move goods from the roads to the railways. I cannot make a definite promise about specific plans, but I can reassure you that the Government is aware of the need to do this.

### **Datganiad ar Bryderon Diweddar ynghylch Gwasanaethau Mamolaeth Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent**

## Statement on Recent Concerns regarding Gwent Healthcare NHS Trust's Maternity Services

**The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart):** In March this year, I was pleased to open the new maternity suite at the Royal Gwent Hospital. At that event, however, concerns about maternity services in Gwent and, in particular, the number of midwives currently employed within the trust, were brought to my attention. These anxieties were echoed in concerns also raised with me by some local Assembly Members. As a result, I agreed to meet with a deputation of midwives from Gwent, together with their Unison representative and with the Deputy Presiding Officer. That meeting took place on 18 March.

Subsequent investigations have made it clear that there are several individual, but not unrelated, strands of the situation regarding maternity services in Gwent. Cumulatively, these issues amount to a level of concern that has resulted in this oral statement.

The initial representation from a group of midwives from Gwent centred on the restructuring of the maternity services within the trust. That included the consultation process and the outcome in terms of the individual re-grading of posts, which has been the subject of a formal grievance. The midwives also pointed to a disparity that they perceived between the clinical environment at Nevill Hall Hospital and that of the Royal Gwent Hospital. A general concern was that there were insufficient midwives across the trust to provide a safe and adequate service for mothers and babies.

I asked the chief nursing officer to look into the issues raised, on my behalf, and to report back. The CNO's investigations included unannounced visits to the Nevill Hall and Royal Gwent hospitals, a meeting between the nurse executive and maternity service managers and the CNO, an investigation into the human resources processes and the conduct of the restructuring exercise, and a meeting between Healthcare Inspectorate

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Ym mis Mawrth eleni, yr oeddwn yn falch o agor yr ystafelloedd mamolaeth newydd yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Yn y digwyddiad hwnnw, fodd bynnag, tynnwyd fy sylw at bryderon ynghylch y gwasanaethau mamolaeth yng Ngwent ac, yn arbennig, nifer y bydwagedd sy'n cael eu cyflogi yn yr ymddiriedolaeth ar hyn o bryd. Adleisiwyd y pryderon hyn mewn pryderon a godwyd gyda mi hefyd gan rai Aelodau Cynulliad lleol. O ganlyniad, cytunais i gwrdd â dirprwyaeth o fydwragedd o Went, ynghyd â'u cynrychiolydd o undeb Unsain ac â'r Dirprwy Lywydd. Cynhaliwyd y cyfarfod hwnnw ar 18 Mawrth.

Mae ymchwiliadau ers hynny wedi ei gwneud yn glir fod amryw o elfennau unigol, ond nid digyswllt, ynglŷn â'r sefyllfa o ran gwasanaethau mamolaeth yng Ngwent. Gyda'i gilydd, mae'r materion hyn yn peri lefel o bryder sydd wedi arwain at y ddarganiad llafar hwn.

Yr oedd a wnelo'r sylw cychwynnol gan grŵp o fydwragedd o Went â'r ailstrwythuro ar y gwasanaethau mamolaeth yn yr ymddiriedolaeth. Yr oedd hynny'n cynnwys y broses ymgynghori a'r canlyniad o ran ailraddio swyddi unigol, sydd wedi bod yn destun cwyn ffurfiol. Tynnodd y bydwagedd sylw hefyd at wahaniaeth yn eu tyb hwy rhwng yr amgylchedd clinigol yn Ysbyty Nevill Hall a'r amgylchedd clinigol yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Yr hyn a oedd yn peri pryder cyffredinol oedd nad oedd digon o fydwragedd ar draws yr ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaeth diogel a digonol i famau a babanod.

Gofynnais i'r prif swyddog nyrsio ymchwilio, ar fy rhan, i'r materion a godwyd ac adrodd yn ôl. Yr oedd ymchwiliadau'r prif swyddog nyrsio yn cynnwys ymwiliadau dirybudd ag Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Brenhinol Gwent, cyfarfod rhwng rheolwyr y nyrsys gweithredol a'r gwasanaeth mamolaeth a'r prif swyddog nyrsio, ymchwiliad i'r prosesau adnoddau dynol a'r ffordd yr ymdriniwyd â'r ailstrwythuro, a

Wales and the CNO on safety concerns for mothers and babies.

chyfarfod rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r prif swyddog nyrsio ynghylch pryderon ynglŷn â diogelwch yng nghyswllt mamau a babanod.

Although many of the issues could not be substantiated, two areas in particular were highlighted as needing urgent attention, namely an acknowledged shortage of staff, as indicated by the workload measurement tool, Birthrate Plus, and the lack of leadership and management in place to sustain the staff and take the service forward.

Er nad oedd modd profi llawer o'r materion, pwysleisiwyd dau faes yn arbennig yr oedd angen rhoi sylw brys iddynt, sef prinder staff cydnabyddedig, fel yr oedd y pecyn mesur llwyth gwaith, Birthrate Plus, yn dangos, a'r diffyg arweiniad a rheolaeth a oedd ar waith i gynnal y staff ac i symud y gwasanaeth ymlaen.

3.50 p.m.

Meanwhile, last year, Healthcare Inspectorate Wales conducted a review of maternity services throughout Wales. Following the concerns highlighted within this work, HIW decided to undertake a special review in Gwent, concentrating on the systems in place to ensure the safety of mothers and babies. Having discussed its early findings with the chief executive of HIW, I consider the situation described to be unacceptable. HIW also believes that the position of maternity services in Gwent is being adversely affected by inadequacies in management and leadership and less than optimal staffing arrangements. However, from the advice that I have received from the chief nursing officer and HIW, I believe that this situation might be remedied relatively quickly if there is determination and good leadership.

Yn y cyfamser, y llynedd, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru adolygiad o'r gwasanaethau mamolaeth ledled Cymru. Yn dilyn y pryderon y tynnwyd sylw atynt yn y gwaith hwn, penderfynodd AGIC gynnal adolygiad arbennig yng Ngwent, gan ganolbwyntio ar y systemau a oedd ar waith i sicrhau diogelwch mamau a babanod. Ar ôl trafod y canfyddiadau cynnar gyda phrif weithredwr AGIC, credaf fod y sefyllfa a ddisgrifiwyd yn annerbyniol. Mae AGIC hefyd yn credu bod y diffygion o ran rheolaeth ac arweiniad a'r trefniadau staffio sydd ymhell o fod yn foddhaol yn effeithio'n andwyol ar sefyllfa'r gwasanaethau mamolaeth yng Ngwent. Fodd bynnag, yn ôl y cyngor yr wyf wedi'i gael gan y prif swyddog nyrsio ac AGIC, credaf y gellid unioni'r sefyllfa hon yn gymharol gyflym os yw pobl yn benderfynol ac os oes arweiniad da.

Last week, the Royal College of Midwives also made known its views that without the appropriate level of staff, midwives are unable to provide support to key elements of maternity care, such as antenatal booking and breastfeeding support. The college is calling for the trust to increase staffing to the level indicated by Birthrate Plus, namely an additional 15 members of staff over and above the number currently being recruited by the trust.

Yr wythnos diwethaf, gwnaeth Coleg Brenhinol y Bydwagedd hefyd ei farn yn hysbys, sef nad oes modd i fydwagedd, heb y lefel briodol o staff, ddarparu cymorth i elfennau allweddol o ofal mamolaeth, megis trefnu apwyntiadau cyn geni a chymorth bwydo o'r fron. Mae'r coleg yn galw ar yr ymddiriedolaeth i gynyddu'r staffio i'r lefel a nodir gan Birthrate Plus, sef 15 aelod ychwanegol o staff ar ben y nifer sy'n cael eu recriwtio gan yr ymddiriedolaeth ar hyn o bryd.

As a result of all of the above, I have taken the following action. First, I have accepted the advice of HIW that it institutes its special measures protocol for the maternity services

O ganlyniad i'r holl bethau uchod, yr wyf wedi gweithredu fel a ganlyn. Yn gyntaf, yr wyf wedi derbyn cyngor AGIC y dylai sefydlu ei phrotocol mesurau arbennig ar

in Gwent. To that end, HIW met with the trust on Thursday of last week, 15 May, to discuss the content of an action plan that must address all of the shortcomings that have been identified in a timely and robust manner. The inspectorate is satisfied that, provided the steps outlined by the trust last week are implemented in a timely manner, the necessary change will be produced. Progress will be monitored by the inspectorate on a weekly basis, until such time as it considers that an acceptable level of improvement has been made. In turn, I will request regular updates from HIW so that I can be assured that rapid and robust progress is being made.

More generally, I have been sufficiently concerned at the inspectorate's findings in this area to request that it brings forward inspections of community and mental health services within the trust, so that the issues that are the focus of this statement can be placed in a wider context.

Secondly, I have asked Ann Lloyd as chief executive of the NHS in Wales to intervene in the management of these services. She has asked Denise Llewellyn, executive nurse director of the former Carmarthenshire NHS Trust, to review the effectiveness of the leadership of these services, and to work with management over the next three months to implement improvements in the services.

Finally, I met the chair of the trust earlier today to ensure that he is fully aware of my real concerns about these services. It was a positive meeting, and the chair agreed that we need to work together and support the work that is going on in the trust. There are also industrial relations issues in the organisation, and I have asked David Jenkins to investigate those on my behalf.

The safety of patients and the quality and equity of service that they receive are of vital

gyfer y gwasanaethau mamolaeth yng Ngwent. I'r perwyl hwnnw, cyfarfu AGIC â'r ymddiriedolaeth ddydd Iau diwethaf, 15 Mai, i drafod cynnwys cynllun gweithredu y mae'n rhaid iddo ymdrin â'r holl ddiffygion sydd wedi cael eu nodi mewn modd amserol a thrylwyr. Mae'r arolygiaeth yn argyhoeddedig, cyhyd â bod y camau a amlinellwyd gan yr ymddiriedolaeth yr wythnos diwethaf yn cael eu gweithredu mewn modd amserol, y creir y newid angenrheidiol. Bydd y cynnydd yn cael ei fonitro gan yr arolygiaeth yn wythnosol, nes bydd o'r farn fod lefel dderbyniol o welliant wedi cael ei sicrhau. Yn fy nhro, byddaf finnau'n gofyn am adroddiadau diweddarau rheolaidd gan AGIC fel y gallaf fod yn siŵr fod cynnydd cyflym a thrylwyr yn cael ei wneud.

Yn fwy cyffredinol, yr wyf wedi bod yn ddigon pryderus ynglŷn â chanfyddiadau'r arolygiaeth yn yr ardal hon i ofyn iddi gyflwyno arolygiadau o'r gwasanaethau iechyd cymunedol ac iechyd meddwl yn yr ymddiriedolaeth, fel y gellir rhoi'r materion y mae'r datganiad hwn yn canolbwyntio arnynt mewn cyd-destun ehangach.

Yn ail, yr wyf wedi gofyn i Ann Lloyd fel prif weithredwr y GIG yng Nghymru ymyrryd yn y modd y rheolir y gwasanaethau hyn. Mae hithau wedi gofyn i Denise Llewellyn, cyfarwyddwr gweithredol nyrsio Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin gynt, adolygu effeithiolrwydd arweinyddiaeth y gwasanaethau hyn, a gweithio gyda'r rheolwyr dros y tri mis nesaf i roi gwelliannau ar waith yn y gwasanaethau.

Yn olaf, cyfarfûm â chadeirydd yr ymddiriedolaeth yn gynharach heddiw i sicrhau ei fod yn gwbl ymwybodol o'm pryderon gwirioneddol ynglŷn â'r gwasanaethau hyn. Yr oedd yn gyfarfod cadarnhaol, a chytunodd y cadeirydd fod angen inni weithio gyda'n gilydd a chefnogi'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn yr ymddiriedolaeth. Mae problemau ynglŷn â chysylltiadau diwydiannol yn y sefydliad hefyd, ac yr wyf wedi gofyn i David Jenkins ymchwilio i'r rheini ar fy rhan.

Mae diogelwch cleifion ac ansawdd a thegwch y gwasanaethau y maent yn eu cael

importance to us all, and I am determined to act on such concerns that patient care might be compromised. I shall report back to Members further on the issues outlined here as developments take place.

**Jonathan Morgan:** I thank the Minister for the statement, and I welcome the steps to improve maternity services in Gwent. The situation seems extremely worrying, particularly in relation to the recruitment problems and the leadership and management issues that you have outlined in your statement. In the light of the seriousness of the issues, it was right that Healthcare Inspectorate Wales should be asked to intervene directly to ensure that the services and the level of services provided are improved.

You talk about the safety of mothers and their babies in several parts of your statement. There has been an issue with safety, and clinical issues have come to light in recent months in Gwent. Will you give an assurance that those issues are confined to Gwent, and that you are not concerned about any other trust in Wales? I would be rather concerned if this picture were repeated elsewhere in Wales, where we rely on NHS trusts to recruit and train appropriate numbers of staff to ensure that services are properly managed.

You say in the statement that there was general concern about the insufficient number of midwives. I know that the Royal College of Midwives asked for an additional 31 members of staff. What is the staffing deficiency in the trust, and will resources be identified to plug the gap?

In addition to the way in which services have been delivered in Gwent, are you concerned that there is a recruitment problem elsewhere in Wales? I have been informed that there could be problems in other parts of Wales, where we have put money into training midwives, but the NHS trusts have not identified the resources to recruit the appropriate numbers of midwives in other parts of the nation.

o'r pwys pennaf i bawb ohonom, ac yr wyf yn benderfynol o weithredu ar y pryderon y gallai'r gofal i gleifion gael ei beryglu. Byddaf yn adrodd yn ôl i'r Aelodau ymhellach ar y materion a amlinellir yma wrth i ddatblygiadau ddigwydd.

**Jonathan Morgan:** Diolchaf i'r Gweinidog am y datganiad, ac yr wyf yn croesawu'r camau i wella'r gwasanaethau mamolaeth yng Ngwent. Mae'r sefyllfa'n peri pryder mawr yn ôl pob golwg, yn arbennig o ran y problemau recriwtio a'r materion ynglŷn ag arweiniad a rheolaeth yr ydych wedi'u hamlinellu yn eich datganiad. Yng ngoleuni difrifoldeb y materion, yr oedd yn iawn gofyn i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ymyrryd yn uniongyrchol i sicrhau bod y gwasanaethau a'r lefel o wasanaethau a ddarperir yn cael eu gwella.

Yr ydych yn sôn am ddiogelwch mamau a'u babanod mewn sawl rhan o'ch datganiad. Bu problem o ran diogelwch, ac mae materion clinigol wedi dod i'r amlwg yng Ngwent dros y misoedd diwethaf. A rowch sicrwydd bod y materion hynny wedi'u cyfyngu i Went, ac nad ydych yn poeni am ddim un ymddiriedolaeth arall yng Nghymru? Byddwn yn bur bryderus petai'r darlun hwn yn cael ei ailadrodd mewn mannau eraill yng Nghymru, lle'r ydym yn dibynnu ar ymddiriedolaethau GIG i recriwtio a hyfforddi niferoedd priodol o staff i sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu rheoli'n briodol.

Dywedwch yn eich datganiad fod pryder cyffredinol ynglŷn â nifer annigonol y bydwagedd. Gwn fod Coleg Brenhinol y Bydwagedd wedi gofyn am 31 aelod ychwanegol o staff. Beth yw'r diffyg o ran staff yn yr ymddiriedolaeth, ac a glustnodir adnoddau i gau'r bwlch?

Yn ychwanegol at y ffordd y mae gwasanaethau wedi cael eu darparu yng Ngwent, a ydych yn poeni bod problem recriwtio yn rhywle arall yng Nghymru? Fe'm hysbyswyd y gallai fod problemau mewn rhannau eraill o Gymru, lle'r ydym wedi cyfrannu arian er mwyn hyfforddi bydwagedd, ond nad yw'r ymddiriedolaethau GIG wedi clustnodi'r adnoddau i recriwtio'r niferoedd priodol o



fydwagedd mewn rhannau eraill o'r wlad.

You talk about the role of Healthcare Inspectorate Wales, and it is sensible that we proceed on the basis of independent, expert advice. The inspectorate provides a valuable service, and I am delighted that it is leading the charge in Gwent to ensure that necessary changes are brought about.

Yr ydych yn sôn am rôl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ac mae'n synhwyrol inni fwrw ymlaen ar sail cyngor arbenigol, annibynnol. Mae'r arolygiaeth yn darparu gwasanaeth gwerthfawr, ac yr wyf wrth fy modd ei bod yn arwain yr ymgyrch yng Ngwent i sicrhau bod y newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud.

Can you explain why you wish to examine mental health services in the trust? I am not entirely sure what the problems that you allude to are. The issue in this statement is principally around maternity services and the recruitment of midwives. What is it about mental health services in Gwent that you are concerned about? I would be grateful if you could expand on that point.

A allwch esbonio pam yr ydych am archwilio'r gwasanaethau iechyd meddwl yn yr ymddiriedolaeth? Nid wyf yn gwbl siŵr beth yw'r problemau y cyfeiriwch atynt. Mae a wnelo'r mater yn y datganiad hwn yn bennaf â'r gwasanaethau mamolaeth a recriwtio bydwagedd. Beth ynglŷn â'r gwasanaethau iechyd meddwl yng Ngwent sy'n peri pryder ichi? Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymhelaethu ar y pwynt hwnnw.

Finally, I welcome the appointment of Denise Llewellyn. If there is one aspect of this that we need to ensure that we get right, it is the effective leadership and management of the services. Can you assure us that a full investigation into the quality of the leadership of the trust will take place and that, if there are problems with the abilities and skills of those people who manage maternity services in particular, the Assembly Government will take steps to remedy that? Whatever is done in the short term to get this right, we need to be certain that the trust has the ability to ensure long-term, sustainable services, particularly maternity services. We cannot, as your statement rightly says, put the welfare of young mums and their babies at risk.

Yn olaf, croesawaf benodiad Denise Llewellyn. Os oes un agwedd ar hyn y mae angen inni sicrhau ein bod yn ei wneud yn iawn, arweiniad a rheolaeth effeithiol ar y gwasanaethau yw honno. A allwch ein sicrhau y bydd ymchwiliad llawn i ansawdd yr arweiniad yn yr ymddiriedolaeth yn cael ei gynnal ac, os oes problemau gyda gallu a sgiliau'r bobl hynny sy'n rheoli'r gwasanaethau mamolaeth yn arbennig, y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd camau i gywiro hynny? Beth bynnag a wneir yn y tymor byr i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn iawn, mae angen inni fod yn sicr bod y gallu gan yr ymddiriedolaeth i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy, hirdymor, yn enwedig gwasanaethau mamolaeth. Ni allwn beryglu lles mamau ifanc a'u babanod, fel y dywed eich datganiad yn hollol gywir.

**Edwina Hart:** Obviously, Denise Llewellyn will examine the issues of leadership in the trust, because you are quite right: this cannot be dealt with by short-term measures; long-term measures are needed for the management of the trust. I understand that someone new has recently been recruited to that position, and that person is taking the work forward.

**Edwina Hart:** Yn amlwg, bydd Denise Llewellyn yn archwilio'r materion yn ymwneud ag arweiniad yn yr ymddiriedolaeth, oherwydd yr ydych yn hollol iawn: ni ellir delio â hyn drwy fesurau tymor byr; mae angen mesurau hirdymor o ran rheolaeth yr ymddiriedolaeth. Deallaf fod rhywun newydd wedi cael ei recriwtio i'r swydd honno yn ddiweddar, a bod yr unigolyn hwnnw'n bwrw ymlaen â'r gwaith.

Currently, Gwent is recruiting additional midwives, but I understand that, against the

Ar hyn o bryd, mae Gwent yn recriwtio bydwagedd ychwanegol, ond, o'i gymharu

criteria that I referred to, there will still be a shortfall of 15. Denise will also examine those issues. We have to be sure that we have the right level of midwives in communities and in the hospitals, because we are seeing an increase in the birth rate and in multiple births and similar issues. We must, therefore, ensure that we have the services on the ground.

I am in regular contact with the Royal College of Midwives, Unison and others, and they indicate to me if they see any problems arising in areas. I have indicated to officials that we must find out from the trusts about any other emerging problems in maternity services across Wales, because we want to have a common quality standard for the delivery of maternity services.

You asked specifically about some of the funding issues and about money. There is an issue involving the LHBs in this regard. The chairs of all the Gwent LHBs will be invited to see me after recess, when I will discuss with them their responsibilities with regard to some of the funding issues and the importance of ensuring that we maintain excellent services, particularly in this area.

You also asked about community and mental health issues. Some of the trade unions involved have indicated to me that there are concerns, particularly from the Royal College of Midwives, about community workloads, and how systems are operating. Members, too, have raised concerns with me about mental health services. I thought that, as HIW had done such an excellent job in drawing attention to maternity services, it might be wise to look at community and mental health services to ensure that we have a clear picture of what is going on in Gwent Healthcare NHS Trust.

At the heart of all this is the fact that the services are safe, but they need to be improved. We must ensure that we have

â'r maen prawf y cyfeiriais ato, deallaf y bydd diffyg o 15 o hyd. Bydd Denise yn edrych ar y materion hynny hefyd. Rhaid inni fod yn siŵr bod y lefel iawn o fydwragedd gennym yn y cymunedau ac yn yr ysbytai, oherwydd yr ydym yn gweld cynnydd yng nghyfradd genedigaethau ac mewn genedigaethau lluosog a materion tebyg. Rhaid inni, felly, sicrhau bod y gwasanaethau gennym ar lawr gwlad.

Yr wyf mewn cysylltiad rheolaidd â Choleg Brenhinol y Bydwragedd, Unsain ac eraill, ac maent yn dweud wrthyf os ydynt yn gweld unrhyw broblemau'n codi mewn meysydd. Yr wyf wedi dweud wrth y swyddogion fod yn rhaid inni gael gwybod gan yr ymddiriedolaethau am unrhyw broblemau eraill sy'n dod i'r amlwg mewn gwasanaethau mamolaeth ar draws Cymru, oherwydd yr ydym am gael safon ansawdd gyffredin ar gyfer cyflwyno gwasanaethau mamolaeth.

Holasoch yn benodol am rai o'r materion yn ymwneud â chyllido ac ynglŷn ag arian. Mae problem yn ymwneud â'r BILlau yn y cyswllt hwn. Bydd cadeiryddion holl BILlau Gwent yn cael gwahoddiad i'm gweld ar ôl y toriad, a byddaf yn trafod gyda hwy eu cyfrifoldebau o ran rhai o'r materion cyllido a phwysigrwydd sicrhau ein bod yn cynnal gwasanaethau rhagorol, yn arbennig yn y maes hwn.

Holasoch hefyd am faterion iechyd cymunedol ac iechyd meddwl. Mae rhai o'r undebau llafur dan sylw wedi dweud wrthyf fod pryderon, yn enwedig gan Goleg Brenhinol y Bydwragedd, am lwythi gwaith yn y gymuned, a sut y mae'r systemau'n gweithredu. Mae Aelodau, hefyd, wedi codi pryderon gyda mi ynglŷn â gwasanaethau iechyd meddwl. Yr oeddwn yn tybio, gan fod AGIC wedi gwneud gwaith mor rhagorol o ran tynnu sylw at y gwasanaethau mamolaeth, y gallai fod yn ddoeth edrych ar wasanaethau iechyd cymunedol ac iechyd meddwl i sicrhau bod gennym ddarlun clir o'r hyn sy'n digwydd yn Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent.

Yn ganolog i hyn oll y mae'r ffaith bod y gwasanaethau'n ddiogel, ond mae angen eu gwella. Rhaid inni sicrhau bod gennym well

improved and better services in the Royal Gwent Hospital, and particularly with regard to maternity services.

**Lynne Neagle:** Thank you for your statement and for the robust action that you have announced, Minister.

You will be aware that linked to maternity services are the important concerns about neonatal provision at the Royal Gwent Hospital, which I highlighted in the Chamber last week. Since asking for a debate on this issue, I have met staff at the hospital to discuss their experiences over recent days. As you know, Minister, there is a shortage of neonatal cots at the Royal Gwent Hospital, and that culminated in one expectant mother being taken to Yeovil to deliver and another to Portsmouth. That is in addition to those transferred to nearer hospitals.

At the Royal Gwent Hospital, I was hugely impressed by the neonatal unit staff's obvious ability and deep commitment. They were all deeply concerned about the impact that these moves were having on expectant mothers and vulnerable babies alike. However, we should not have to rely on the goodwill of NHS staff to come in on their well-earned and much-needed breaks and holidays; we need an improved level of funding for proper care.

I know that the staff at the Royal Gwent Hospital's neonatal unit were keen for me to extend an invitation to you to see their facilities at first hand, and I hope that you will consider taking them up on that invitation.

4.00 p.m.

A review of neonatal services in Wales was completed some three years ago, and we are still waiting for its publication and the resulting action. Expectant mothers and staff at neonatal units deserve movement on this urgently. Can you confirm when the review will be actioned, when the new standards will be launched, and, most importantly, that any

gwasanaethau yn Ysbyty Brenhinol Gwent, ac yn arbennig o ran y gwasanaethau mamolaeth.

**Lynne Neagle:** Diolch ichi am eich datganiad ac am y camau trylwyr yr ydych wedi'u cyhoeddi, Weinidog.

Byddwch yn ymwybodol, ynghlwm wrth y gwasanaethau mamolaeth, fod pryderon pwysig ynglŷn â'r ddarpariaeth newyddenedigol yn Ysbyty Brenhinol Gwent, y tynnais sylw atynt yn y Siambr yr wythnos diwethaf. Ers imi ofyn am ddadl ar y mater hwn, yr wyf wedi cwrdd â staff yn yr ysbyty i drafod eu profiadau yn ystod y dyddiau diwethaf. Fel y gwyddoch, Weinidog, mae prinder cotiau newyddenedigol yn Ysbyty Brenhinol Gwent, a pharodd hynny i un fam feichiog gael ei chludo i Yeovil i eni ei babi ac un arall fynd i Portsmouth. Mae hynny'n ychwanegol at y rhai a drosglwyddwyd i ysbytai sy'n nes.

Yn Ysbyty Brenhinol Gwent, gwnaeth gallu amlwg ac ymroddiad cryf staff yr uned newyddenedigol argraff enfawr arnaf. Yr oeddent i gyd yn pryderu'n fawr iawn am yr effaith yr oedd y symudiadau hyn yn ei chael ar famau beichiog a babanod agored i niwed fel ei gilydd. Fodd bynnag, ni ddylem orfod dibynnu ar ewyllys da staff y GIG i ddod i'r gwaith a hwythau ar egwyl neu ar wyliau y maent wedi'u haeddu, ac y mae gwir angen iddynt eu cael; mae angen gwell lefel o gyllido arnom er mwyn cael gofal priodol.

Gwn fod y staff yn uned gwasanaethau newyddenedigol Ysbyty Brenhinol Gwent yn awyddus imi estyn gwahoddiad ichi i weld eu cyfleusterau drosoch eich hun, a gobeithiaf y byddwch yn ystyried derbyn eu gwahoddiad.

Cwblhawyd adolygiad o wasanaethau newyddenedigol yng Nghymru tua thair blynedd yn ôl, ac yr ydym yn dal i ddisgwyl iddo gael ei gyhoeddi ac am y camau a gymerir o ganlyniad iddo. Mae mamau beichiog a staff mewn unedau gwasanaethau newyddenedigol yn haeddu gweld cymryd camau brys ar hyn. A allwch gadarnhau pa

new standards will be accompanied by sufficient funding to ensure that they are properly and fully implemented?

**Edwina Hart:** Thank you for your comments, Lynne. The Gwent neonatal service has excellent outcomes despite its occupancy levels being above the rate expected. The service has experienced unprecedented demand in recent weeks. I take fully on board what you say—we are not talking about patients just being moved to neighbouring units, but to others quite far afield.

All these issues were brought home to me a few weeks or months ago, when I met a group of neonatal nurses from across Wales. I was extremely surprised to learn that the report commissioned by Health Commission Wales did not seem to have gone anywhere, so I convened a meeting, as the neonatal nurses asked, and we discussed the issues. That report is now the subject of discussion with neonatal nurses, paediatricians and others. As part of my review of paediatric services, I have asked for some substance to be added to that report in relation to the outcomes that we want, and the finance that we need to attach to it. I have asked for that report to be produced for me by the end of the year, so that I can consider what I need to do with the budget. We had a debate about neonatal services earlier in the year, and I took some of the comments that were made very much to heart. So, there is movement on that issue.

However, we must congratulate staff in neonatal units generally on the difficult job that they do, and also the parents, because I feel sorry for them. There was a problem in Merthyr, I think, where a woman had given birth to triplets, and each one of them was taken to a different hospital. That is not fair on the triplets, and it is certainly not fair on the parents, so we need to get service provision correct in this area, given the

bryd y cymerir camau yn sgîl yr adolygiad, pa bryd y caiff y safonau newydd eu lansio, ac, yn bwysicaf oll, y rhoddir digon o gyllid i gyd-fynd ag unrhyw safonau newydd i sicrhau y cânt eu rhoi ar waith yn llawn ac yn briodol?

**Edwina Hart:** Diolch ichi am eich sylwadau, Lynne. Mae canlyniadau gwasanaeth newyddenedigol Gwent yn rhagorol er bod lefelau defnyddio gwllâu yno yn uwch na'r gyfradd a ddisgwyliid. Bu galw na welwyd ei debyg ar y gwasanaeth yn yr wythnosau diwethaf. Yr wyf yn derbyn yn llwyr yr hyn yr ydych yn ei ddweud—nid ydym yn sôn am symud cleifion i unedau cyfagos yn unig, ond i rai eraill sy'n eithaf pell i ffwrdd.

Pwysleisiwyd yr holl faterion hyn ychydig wythnosau neu fisoedd yn ôl, pan gyfarfûm â grŵp o nyrsys newyddenedigol o bob rhan o Gymru. Synnais yn fawr o glywed nad oedd yr adroddiad a gomisiynwyd gan Gomisiwn Iechyd Cymru wedi symud ymlaen o gwbl, i bob golwg, felly cynullais gyfarfod, yn unol â chais y nyrsys newyddenedigol, a thrafodasom y materion a oedd wedi codi. Mae'r adroddiad hwnnw'n destun trafod erbyn hyn gyda nyrsys newyddenedigol, pediatregwyr ac eraill. Fel rhan o'm hadolygiad o wasanaethau pediatrig, yr wyf wedi gofyn am ychwanegu rhywfaint o sylwedd at yr adroddiad hwnnw mewn cysylltiad â'r canlyniadau yr ydym am eu gweld, a'r cyllid y mae angen inni ei roi ar ei gyfer. Yr wyf wedi gofyn i'r adroddiad hwnnw gael ei lunio ar fy nghyfer erbyn diwedd y flwyddyn, fel y gallaf ystyried beth y mae angen imi ei wneud â'r gyllideb. Cawsom ddadl am wasanaethau newyddenedigol yn gynharach eleni, ac ystyriais rai o'r sylwadau a wnaethpwyd yn ddwys iawn. Felly, cymerir camau ar y mater hwnnw.

Fodd bynnag, rhaid inni longyfarch y staff mewn unedau gwasanaethau newyddenedigol yn gyffredinol ar y gwaith anodd y maent yn ei wneud, a'r rhieni hefyd, gan ei bod yn drueni gennyf drostynt. Yr oedd problem ym Merthyr, yr wyf yn credu, lle'r oedd menyw wedi rhoi genedigaeth i dripledi, ac aed â phob un ohonynt i ysbyty gwahanol. Nid yw hynny'n deg â'r tripledi ac, yn sicr, nid yw'n deg â'r rhieni, felly mae angen inni sicrhau

increasing number of multiple births.

Thank you for the interest that you have taken in neonatal matters, Lynne. I understand that you had a successful and enjoyable visit to the unit at the Royal Gwent Hospital, and I would be delighted to visit myself in due course.

**Jenny Randerson:** When I looked at some statistics recently, I was quite surprised to see that, despite the concerns that people have raised with me, as they have with you, Wales has an improving ratio of midwives. That is in contrast to England, where there is a very serious situation in some areas.

When we look at health services within Wales, what normally alerts us to a serious problem is the fact that there has been an unexplained or unnecessary death, or that there are particularly long waiting times, and so on. That does not seem to apply in this case. I want to broaden the debate, because many of the questions that I wished to ask you were asked either by Lynne Neagle or by Jonathan Morgan, and you have answered them very clearly. Therefore, I want to draw a wider lesson from this.

Minister, I have previously raised with you my serious concerns about grade 7 nurses, and the reduction in the number of nurse managers as a result of 'Agenda for Change'. I know that that is a problem in Cardiff, and I am led to believe that it is also a problem elsewhere—and that would seem to be logical. I therefore want you to consider that the issues that you have raised about midwives in Gwent could well be due to staffing problems that affect many trusts in Wales, and not just in relation to nursing. Look at the accident-and-emergency department at the University Hospital of Wales in Cardiff. The number of consultants is below the figure accepted nationally as being appropriate, and has been for many years. The outcomes of that unit are adverse as a result. Only last week or the week

bod y ddarpariaeth gwasanaethau'n gywir yn y maes hwn, o gofio bod nifer y genedigaethau lluosog ar gynnydd.

We were pleased to be the first committee to work jointly with the House of Commons Welsh Affairs Committee on scrutinising a proposed Order under the new legislative procedures. I hope that I speak on behalf of the whole committee when I say that joint working proved to be a valuable exercise that was mutually beneficial. Our timetable was such that we were able to consider and take account of the Welsh Affairs Committee report in finalising our report. We were pleased that the conclusions and recommendations of the Welsh Affairs Committee were broadly in line with ours. I thank the Deputy Minister for co-operating so openly with the committee and for giving due consideration to our report and subsequent recommendations, to which she has responded in a largely positive way.

As the committee report states, we agree in principle that legislative competence in the area of charging for non-residential social care should be conferred on the Assembly.

4.30 p.m.

deddfwriaethol hwn yn cefnogi ein hamcanion strategol i hyrwyddo annibyniaeth a chydaddoldeb i bobl sy'n derbyn gofal cymdeithasol. Bydd yn rhoi'r modd inni gefnogi eu hannibyniaeth ymhellach drwy reoleiddio pennu taliadau a dileu'r gwahaniaethau mawr sy'n bodoli ar hyn o bryd. Felly argymhellaf y Gorchymyn ichi i'w gymeradwyo.

**Joyce Watson:** A minnau'n Gadeirydd y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Gofal Cartref, yr wyf yn falch iawn o allu cyfrannu at y ddatl heddiw. Sefydlwyd y pwyllgor i ystyried y Gorchymyn arfaethedig a chyflwyno adroddiad arno. Wrth wneud hynny, ystyriasom egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn ac edrych yn fanwl iawn ar sut yr oedd wedi'i ddrfftio, i ganfod a oedd geiriad y Gorchymyn wedi'i lunio'n briodol. Wrth gyflawni ein gwaith, ymgynghorasom yn helaeth â buddgyfranogwyr. Yr ydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor, yn ysgrifenedig ac ar lafar, a fu'n gymorth amhrisiadwy inni wrth lunio ein hadroddiad a'n hargymhellion.

Yr ydym yn falch mai ni yw'r pwyllgor cyntaf i gydweithio â Phwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin wrth graffu ar Orchymyn arfaethedig dan y gweithdrefnau deddfwriaethol newydd. Gobeithio fy mod yn siarad ar ran y pwyllgor cyfan pan ddywedaf fod gweithio ar y cyd wedi bod yn brofiad gwerthfawr a oedd o fudd i'r ddwy ochr. Golygai ein hamserlen ein bod wedi gallu ystyried adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig wrth lunio ein hadroddiad terfynol. Yr oeddem yn falch bod casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Materion Cymreig yn cyd-fynd â'n rhai ni at ei gilydd. Diolchaf i'r Dirprwy Weinidog am gydweithredu mor agored â'r pwyllgor ac am roi ystyriaeth briodol i'n hadroddiad a'n hargymhellion wedi hynny, gan ymateb yn gadarnhaol iddynt ar y cyfan.

Fel y dywed adroddiad y pwyllgor, yr ydym yn cytuno mewn egwyddor y dylid rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ym maes codi tâl am ofal cymdeithasol dibreswyl i'r Cynulliad.

To arrive at this conclusion, we considered a number of specific issues, including the levels of variation in charges across local authorities, the impact of the Welsh Assembly Government's existing 'Fairer Charging' guidance, the use of alternative means to address the problem of variation in charges, and the timing of the request for legislative competence. We heard the views of the Welsh Local Government Association and the Association of Directors of Social Services, which, admittedly, had reservations about the conferral of legislative competence. In the main, those reservations derived from a more general concern about the funding of social care services in Wales.

Notwithstanding this, the committee accepted that there was broad support for the proposed Order from those who gave evidence. That support stemmed from the need to address the existing significant and widespread variations in charging for non-residential social care.

In carrying out its scrutiny function, the committee also considered in detail the scope of the proposed Order, the terms and definitions used in the relevant matter, and the potential impact of the excepted matters on the effectiveness of future Measures. The committee made a number of specific recommendations, which were aimed at improving the proposed Order and its accompanying explanatory memoranda, either by adding clarity or by ensuring that the wording of the proposed Order allowed for the widest possible interpretation so as not to restrict its future application.

One of the key recommendations made by the committee related to the use of the term 'non-residential social care' and in particular to how this term fitted with a definition of 'social care' to be used for the purpose of defining terms in field 15. The committee was concerned that the wording of the matter did not make it clear that all elements of social care included in the definition, other than residential care, were covered. In view of this, we recommended that the matter be

I gyrraedd y casgliad hwn, ystyriasom nifer o faterion penodol, gan gynnwys lefelau'r amrywiaeth mewn taliadau ar draws awdurdodau lleol, effaith canllawiau presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Codi Tâl Tecach', defnyddio dulliau amgen o fynd i'r afael â phroblem yr amrywiaeth yn y taliadau, ac amseru'r cais am gymhwysedd deddfwriaethol. Clywsom farn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, yr oedd ganddynt amheuan, mae'n rhaid cyfaddef, ynglŷn â rhoi cymhwysedd deddfwriaethol. Yr oedd yr amheuan hynny'n deillio'n bennaf o bryder mwy cyffredinol ynglŷn ag ariannu gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Ar wahân i hyn, yr oedd y pwyllgor yn derbyn bod y rhai a roddodd dystiolaeth yn gyffredinol yn cefnogi'r Gorchymyn arfaethedig. Yr oedd y gefnogaeth honno'n deillio o'r angen i roi sylw i'r gwahaniaethau sylweddol ac eang a welir ar hyn o bryd yn y taliadau a godir am ofal cymdeithasol amhreswyl.

Wrth i'r pwyllgor gyflawni ei swyddogaeth o ran craffu, cafodd cwrpas y Gorchymyn arfaethedig, y termau a'r diffiniadau a ddefnyddir yn y mater perthnasol, ac effaith bosibl y materion a eithrir ar effeithiolrwydd Mesurau'r dyfodol, eu hystyried ganddo hefyd. Gwnaeth y pwyllgor nifer o argymhellion penodol, gyda'r nod o wella'r Gorchymyn arfaethedig a'r memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef, naill ai drwy eu gwneud yn fwy clir neu drwy sicrhau bod geiriad y Gorchymyn arfaethedig yn caniatáu'r dehongliad ehangaf posibl fel na chyfyngir ar y ffordd y'i defnyddir yn y dyfodol.

Un o argymhellion allweddol y pwyllgor oedd hwnnw a oedd yn ymwneud â defnyddio'r term 'gofal cymdeithasol amhreswyl' ac, yn benodol, â sut yr oedd y term hwn yn cyd-fynd â diffiniad o 'ofal cymdeithasol' i'w ddefnyddio at ddiben diffinio termau ym maes 15. Yr oedd y pwyllgor yn poeni nad oedd geiriad y mater yn ei gwneud yn glir bod pob elfen o ofal cymdeithasol, ac eithrio gofal preswyl, yn cael ei chynnwys yn y diffiniad. O ystyried

amended so that it referred to social care, while specifically excluding residential care. I hope that members of the former committee will join me in welcoming the fact that the Deputy Minister has taken on board our recommendations in essence. However, I am concerned that the amendment to the definition may be a temporary fix until the draft Order relating to vulnerable children is laid, since matters contained in that legislation extend to children in residential care.

Does the Deputy Minister envisage that the definition of 'social care services' in this draft Order will need to be amended in light of the definition of 'social care services' in the revised proposed legislative competence Order on vulnerable children?

Our second recommendation related to the use of the term—

**William Graham:** Joyce, your time is up. I ask you to wind up quickly, please.

**Joyce Watson:** Okay. Although we were content with the term 'payment' in the matter, we were concerned that a specific reference to direct payments in the explanatory note had the potential to cause confusion. On that basis, we recommended that the wording of the explanatory note be amended. I see that the Deputy Minister has chosen not to take on board this recommendation, and that the wording of the explanatory note still contains the reference to direct payments. You made no reference to that issue, Deputy Minister. Can you explain why you chose not to take on board that recommendation?

I am sure that committee members and others who assisted us in our work will agree that the scrutiny process was worthwhile. I believe that we played an important role in ensuring that the draft Order before the Assembly today has been the subject of thorough scrutiny and that it is fit for purpose.

hyn, ein hargymhelliad oedd y dylid diwygio'r mater fel ei fod yn cyfeirio at ofal cymdeithasol, gan eithrio'n benodol ofal preswyl. Gobeithiaf y bydd aelodau'r cyn bwyllgor yn ymuno â mi i groesawu'r ffaith bod y Dirprwy Weinidog wedi derbyn ein hargymhellion yn eu hanfod. Fodd bynnag, yr wyf yn bryderus mai ateb dros dro, o bosibl, yw'r gwelliant i'r diffiniad nes gosodir y Gorchymyn drafft sy'n ymwneud â phlant sy'n agored i niwed, gan fod materion yn y ddeddfwriaeth honno'n cynnwys plant mewn gofal preswyl.

A yw'r Dirprwy Weinidog yn rhagweld y bydd angen diwygio'r diffiniad o 'wasanaethau gofal cymdeithasol' yn y Gorchymyn drafft hwn yng ngoleuni'r diffiniad o 'wasanaethau gofal cymdeithasol' yn y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig diwygiedig ynghylch plant sy'n agored i niwed?

Yr oedd ein hail argymhelliad yn ymwneud â defnyddio'r term—

**William Graham:** Joyce, mae eich amser ar ben. Gofynnaf ichi ddirwyn i ben yn gyflym, os gwelwch yn dda.

**Joyce Watson:** Iawn. Er ein bod yn fodlon ar y term 'tâl' yn y mater, yr oeddem yn bryderus y gallai cyfeiriad penodol at daliadau uniongyrchol yn y nodyn esboniadol beri dryswch. Ar sail hynny, ein hargymhelliad oedd y dylid diwygio geiriad y nodyn esboniadol. Gwelaf fod y Dirprwy Weinidog wedi penderfynu peidio â derbyn yr argymhelliad hwn, a bod geiriad y nodyn esboniadol yn dal i gynnwys y cyfeiriad at daliadau uniongyrchol. Ni chyfeiriasoch at hynny, Ddirprwy Weinidog. A allwch esbonio pam y dewisasoch beidio â derbyn yr argymhelliad hwnnw?

Yr wyf yn siŵr bod aelodau'r pwyllgor ac eraill a fu'n ein cynorthwyo yn ein gwaith yn cytuno bod y broses graffu'n werthfawr. Credaf inni chwarae rôl bwysig o ran sicrhau bod y Gorchymyn drafft sydd gerbron y Cynulliad heddiw wedi bod yn destun craffu trwyadl a'i fod yn addas i'w ddiben.

**David Lloyd:** Mae'n bleser gennyf gyfrannu at y ddadl hon ac yr oedd yn bleser cyfrannu at drafodaethau'r pwyllgor ar y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol a chefnogi'r bwriad o edrych ar godi taliadau am ofal yn y cartref. Byddwn oll yn ymwybodol o'r cefndir, sef lefelau'r taliadau, fel y mae'r Dirprwy Weinidog eisoes wedi ei olrhain, ac amrywiaeth y taliadau am yr un gwasanaeth mewn gwahanol siroedd. Yr oeddem hefyd yn ymwybodol o'r ymgyrchu brwd dros y blynyddoedd gan nifer o fudiadau i geisio cysoni lefel y taliadau yn y lle cyntaf, gan weithio, yn y pen draw, i ddileu'r holl daliadau am ofal yn y cartref.

Yr ydym yn sôn am yr holl ystod o ofal. Mae gofawyr yn darparu pob math o gymorth yn y tŷ, ac yn darparu bwyd iachus megis ffrwythau—afalau, bananas ac ati. Cytunodd y pwyllgor y dylid gofyn am gymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad ar y mater hwn. Wedi wythnosau o gymryd tystiolaeth, yn ysgrifenedig ac ar lafar, bu inni ganfod mai dyna oedd byrdwn y neges oddi wrth bobl Cymru. Clywsom yr hanesion am faich y taliadau hyn ar deuluoedd. Dyna pam mae'r newid sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn yn angenrheidiol.

Yn ystod y broses hon, fel y clywsom eisoes, bu'n fraint i'r pwyllgor gynnal cyfarfod craffu yn y Senedd ar y cyd â Phwyllgor Materion Cymreig San Steffan, ac yr oedd Aelodau Seneddol megis Hywel Francis, Siân James a Hywel Williams yn bresennol. Daeth y Pwyllgor Materion Cymreig at yr un casgliad â'n pwyllgor ni: mae'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yn briodol fel llwybr i'w ddilyn i gysoni taliadau am ofal yn y cartref rhwng gwahanol siroedd yng Nghymru. Y cam cyntaf i geisio unioni'r anghyfiawnder o godi tâl am ofal ar rai o drigolion mwyaf bregus Cymru yw hwn. Felly, cefnogwch y cynnig.

**Jonathan Morgan:** I welcome this competence Order as it seeks to address the huge variation in charges levied by county councils for non-residential domiciliary care. It is a substantial issue when you travel around Wales and discover how many different levels of charging there are, and the substantial variation between the councils

**David Lloyd:** It is a pleasure to contribute to this debate and it was a pleasure to contribute to the legislative competence Order committee's discussions and to support the intention of looking at charging for domiciliary care. We are all aware of the background, namely the levels of payments, as the Deputy Minister has already mentioned, and the variations in charging for the same service between various authorities. We were also aware of enthusiastic campaigning by many bodies to try to make charges more consistent, and, eventually, to eradicate charges for domiciliary care.

We are talking about the whole range of care. Carers provide all sorts of help in the home, and provide healthy food such as fruit—apples, bananas and so on. The committee agreed that legislative competence for the Assembly should be asked for on this matter. After weeks of taking written and oral evidence, we found that that was the main message from the people of Wales. We heard stories about the burden of these charges on families. That is why the change that would come with this legislative competence Order is necessary.

During this process, as we have already heard, the committee had the privilege of holding a joint scrutiny meeting in the Senedd with the Westminster Welsh Affairs Committee, and MPs such as Hywel Francis, Siân James and Hywel Williams attended. The Welsh Affairs Committee came to the same conclusion as our committee: that an LCO would be the appropriate path to take to make these charges for care in the home consistent between different counties in Wales. This is the first step towards trying to rectify the injustice of charging some of the most vulnerable people in Wales for care. Therefore, support the motion.

**Jonathan Morgan:** Croesawaf y Gorchymyn cymhwysedd hwn gan ei fod yn ceisio mynd i'r afael â'r amrywiaeth anferth yn y taliadau a godir gan gynghorau sir am ofal amhreswyl yn y cartref. Mae'n fater o bwys wrth ichi deithio o gwmpas Cymru a gweld faint o wahanol lefelau o godi tâl sydd, a'r gwahaniaeth mawr rhwng y cynghorau sy'n

that charge the most and those that charge the least. There is no maximum or minimum charge; there is a real postcode lottery when it comes to what individuals might be expected to pay towards their domiciliary care. We are talking about an extremely vulnerable group of people; we could be talking about elderly people who need particular types of regular daily social care to help them to live as fulfilled lives as possible within their own homes. It is only fair to them that we find a way to ensure that those charges—if they are to continue—are levied consistently.

The 'Fairer Charging' guidance has had a limited impact. I applaud the Assembly Government for introducing the guidance, because it was right, within the confines of its existing powers, for the Assembly Government to seek to introduce guidance that would help local authorities to achieve a more consistent rate of charging. However, it was clear from the evidence that the committee received, particularly from Help the Aged and the Coalition on Charging, that the guidance was quite limited. It was fairly clear, when representatives from the Welsh Local Government Association and the Association of Directors of Social Services came to give evidence, that they thought that the impact of the guidance was quite limited. They thought that the Assembly Government should be doing more to find a way to level out those charges before seeking the legislative route. I shared the Deputy Minister's view in that I was not convinced by the evidence given by the Welsh Local Government Association. It has had every possible opportunity to address the huge inconsistencies in charging. It has had the 'Fairer Charging' guidance and every possible signal from the Assembly Government and Members in other political parties that the variation in the charges simply was not acceptable. It has singularly failed to find a way of ensuring consistency in charging. Therefore, I was not convinced by its argument that we should find some other way of achieving this before the legislative route was followed.

The evidence from those people who supported the legislative competence Order

codi'r tâl mwyaf a'r rhai sy'n codi'r tâl lleiaf. Nid oes na mwyafswm na lleiafswm; mae loteri cod post go iawn ar waith o ran faint y gellir disgwyl i unigolion ei dalu at eu gofal yn y cartref. Yr ydym yn sôn am grŵp o bobl eithriadol o agored i niwed; gallem fod yn sôn am yr henoed y mae angen mathau penodol o ofal cymdeithasol beunyddiol rheolaidd arnynt i'w cynorthwyo i fyw bywydau mor llawn ag sy'n bosibl yn eu cartrefi eu hunain. Er mwyn bod yn deg â hwy, mae gofyn inni ddod o hyd i ffordd o sicrhau bod y taliadau hynny—os ydynt am barhau—yn cael eu codi mewn ffordd gyson.

Ychydig o effaith y mae'r canllawiau 'Codi Tâl Tecach' wedi'i chael. Cymeradwyaf Lywodraeth y Cynulliad am gyflwyno'r canllawiau, oherwydd ei bod yn iawn, o fewn cyfyngiadau ei phwerau ar y pryd, i Lywodraeth y Cynulliad geisio cyflwyno canllawiau a fyddai'n gymorth i awdurdodau lleol sicrhau cyfradd fwy cyson o godi tâl. Fodd bynnag, yr oedd yn amlwg yn ôl y dystiolaeth a gafodd y pwyllgor, yn enwedig gan Help the Aged a'r Glymblaid ar Godi Tâl, fod y canllawiau'n weddol gyfyngedig. Yr oedd yn eithaf amlwg, pan ddaeth cynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i roi tystiolaeth, eu bod yn meddwl bod effaith y canllawiau'n weddol gyfyngedig. Yr oeddent yn meddwl y dylai Llywodraeth y Cynulliad fod yn gwneud mwy i ddod o hyd i ffordd o gysoni'r taliadau hynny cyn mynd ar drywydd deddfwriaeth. Yr oeddwn yn cytuno â barn y Dirprwy Weinidog gan nad oedd y dystiolaeth a roddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn fy argyhoeddi. Mae wedi cael pob cyfle posibl i fynd i'r afael â'r anghysonderau anferth yn y tâl a godir. Mae wedi cael y canllawiau 'Codi Tâl Tecach' a phob arwydd posibl gan Lywodraeth y Cynulliad ac Aelodau pleidiau gwleidyddol eraill nad oedd y gwahaniaethau rhwng y taliadau'n dderbyniol o gwbl. Mae wedi methu'n llwyr â dod o hyd i ffordd o sicrhau cysondeb yn y taliadau a godir. Felly, ni chefais fy argyhoeddi gan ei dadl y dylem ddod o hyd i ryw ffordd arall o wneud hyn cyn mynd ar drywydd deddfwriaeth.

Yr oedd y dystiolaeth gan y bobl hynny a oedd yn cefnogi'r Gorchymyn cymhwysedd

was robust, and they were able to demonstrate the extent of the problem and how the Order could allow the Assembly to address it. One interesting aspect of the evidence was that when the 'Fairer Charging' guidance was altered and revised in February 2008, the impact that it had was quite interesting in that some local authorities used that revision to increase the hourly rate and maximum weekly charge. Therefore, some of the revisions had the reverse impact to what was intended in making it easier for local authorities to charge individuals more money.

4.40 p.m.

I welcome the Deputy Minister's commitment to work with stakeholders in ensuring that any future Measures can work and take into account the financial cost, because, clearly, there will be a financial impact. We all recognise that and welcome any commitment that the Deputy Minister can give to ensure that the full financial implications of any future Measures are well-thought-through, and that they are done in consultation with local government and that local government is not put at a disadvantage as a result of the Assembly wishing to introduce legislation. However, it was clear from the evidence that we had that the present system is unsustainable.

People face a huge variety of problems in their daily lives and the unfair nature of charging for domiciliary care is one of them. I urge the Deputy Minister—and I hope that Members will support me in this—when Measures are introduced in the future, if this LCO passes the hurdles in Parliament, to look at a package of measures for improving the level of social care that people can access in Wales. It is a matter not just of the charging, but of the ability of local authorities to provide the type of social care that people need. I would therefore ask the Deputy Minister to look at charging within the context of the delivery of social care, because this provides us with an opportunity to improve the social welfare of people who need a range of domiciliary care.

**Peter Black:** I welcome Jonathan Morgan's

deddfwriaethol yn gadarn, ac yr oeddent yn gallu dangos maint y broblem a sut y gallai'r Gorchymyn ganiatáu i'r Cynulliad fynd i'r afael â hi. Un agwedd ddiddorol ar y dystiolaeth oedd, pan newidiwyd y canllawiau 'Codi Tâl Tecach' a'u diwygio ym mis Chwefror 2008, fod yr effaith a gafodd hynny'n eithaf diddorol, sef bod rhai awdurdodau lleol wedi defnyddio'r diwygiad hwnnw i gynyddu'r gyfradd fesul awr a'r mwyafswm wythnosol. Felly, cafodd rhai o'r diwygiadau effaith groes i'r hyn a fwriedid, gan ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol godi mwy o arian ar unigolion.

Croesawaf ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i weithio gyda rhanddeiliaid o ran sicrhau bod unrhyw Fesurau yn y dyfodol yn gallu gweithio, a'u bod yn ystyried y gost ariannol, oherwydd y mae'n amlwg y caiff hyn effaith ariannol. Yr ydym i gyd yn sylweddoli hynny ac yn croesawu unrhyw ymrwymiad y gall y Dirprwy Weinidog ei roi i sicrhau bod goblygiadau ariannol llawn unrhyw Fesurau yn y dyfodol yn cael eu hystyried yn drwyadl, a'u bod yn cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â llywodraeth leol ac nad yw llywodraeth leol dan anfantais yn sgîl dymuniad y Cynulliad i gyflwyno deddfwriaeth. Fodd bynnag, yr oedd yn amlwg yn ôl y dystiolaeth a gawsom fod y system bresennol yn anghynaliadwy.

Mae pobl yn wynebu amrywiaeth anferth o broblemau yn eu bywydau beunyddiol ac un ohonynt yw natur annheg codi tâl am ofal yn y cartref. Pwysaf ar y Dirprwy Weinidog—a gobeithiaf y gwnaiff yr Aelodau fy nghefnogi yn hyn o beth—pan gyflwynir Mesurau yn y dyfodol, os llwydda'r Gorchymyn hwn i oresgyn y rhwystrau yn y Senedd, i edrych ar becyn o fesurau i wella lefel y gofal cymdeithasol sydd ar gael i bobl Cymru. Nid dim ond y tâl a godir sydd dan sylw ond gallu awdurdodau lleol i ddarparu'r math o ofal cymdeithasol y mae ei angen ar bobl. Byddwn felly'n gofyn i'r Dirprwy Weinidog edrych ar y tâl a godir yng nghyd-destun darparu gofal cymdeithasol, oherwydd y mae hyn yn rhoi cyfle inni wella lles cymdeithasol pobl y mae angen ystod o ofal cartref arnynt.

**Peter Black:** Croesawaf bwynt olaf Jonathan

final point. If we can use the powers that will be conferred on us by this legislative competence Order to extend the level of care that is available in Wales, we will have done everyone in the country a great service, and will have improved the lives of countless people around Wales. If that is possible and can be funded, that should be looked at in the Measures that could arise out of this LCO.

On behalf of the Welsh Liberal Democrats, I welcome this LCO and the powers that it will confer on the Assembly. It is important that we use the opportunities that are available to us through the Government of Wales Act 2006 to acquire the powers necessary to bring about the social change that the vast majority of Assembly Members in this Chamber want to bring about, and to use those powers to improve the lives of people in Wales. In the context of this LCO and the powers that it seeks, the ultimate objective—again, I think that it is the ultimate objective of many of the parties represented here—is to achieve free personal care for people in Wales, and although that will not be achievable or affordable immediately, this LCO will, ultimately, enable that to happen. For that reason, it is to be welcomed, because if we can work towards that objective of having free personal care, we need to do so—albeit that it may take a number of years to achieve that.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 4.42 p.m.  
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 4.42 p.m.*

Reference was made by Jonathan in particular, but also by other speakers, to the variation in charges between local authorities. It is unreasonable to expect individual local authorities to take a Wales-wide view and to try to thrash out differences with other local authorities in terms of their provision. It is the role of the Welsh Assembly Government to do that. That is the policy that it is pursuing, and the LCO will enable that to be done.

**Jonathan Morgan:** I accept what Peter said about the role of the Assembly Government, but surely the role of the Welsh Local Government Association is to help local

Morgan. Os gallwn ddefnyddio'r pwerau a roddir inni drwy gyfrwng y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn i ymestyn lefel y gofal sydd ar gael yng Nghymru, byddwn wedi gwneud tro da â phawb yn y wlad, a byddwn wedi gwella bywydau myrdd o bobl o gwmpas Cymru. Os oes modd gwneud hynny ac os gellir ei ariannu, dylid edrych ar hynny yn y Mesurau a allai ddeillio o'r Gorchymyn hwn.

Ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, croesawaf y Gorchymyn hwn a'r pwerau y bydd yn eu rhoi i'r Cynulliad. Mae'n bwysig inni ddefnyddio'r cyfleoedd sydd ar gael inni drwy gyfrwng Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i gael y pwerau angenrheidiol i wireddu'r newid cymdeithasol y mae'r rhan fwyaf o ddigon o Aelodau'r Cynulliad yn y Siambr hon am ei weld, ac i ddefnyddio'r pwerau hynny i wella bywydau pobl yng Nghymru. Yng nghyd-destun y Gorchymyn hwn a'r pwerau y mae'n eu ceisio, y nod yn y pen draw—unwaith eto, credaf mai hynny yw nod llawer o'r pleidiau a gynrychiolir yma yn y pen draw—yw sicrhau gofal personol am ddim i bobl yng Nghymru, ac er na fydd modd gwneud na fforddio hynny ar unwaith, bydd y Gorchymyn hwn, yn y pen draw, yn galluogi hynny i ddigwydd. Am y rheswm hwnnw, mae i'w groesawu, oherwydd os gallwn weithio at y nod hwnnw, sef gofal personol am ddim, mae angen inni wneud hynny—er y gall sawl blwyddyn fynd heibio cyn inni lwyddo i wireddu hynny.

Cyfeiriwyd gan Jonathan yn benodol, ond gan siaradwyr eraill hefyd, at y gwahaniaeth yn y taliadau a godir gan awdurdodau lleol. Mae'n afresymol disgwyl i awdurdodau lleol unigol edrych ar y sefyllfa yng Nghymru gyfan a cheisio datrys y gwahaniaethau sydd rhyngddynt hwy ac awdurdodau lleol eraill o ran eu darpariaeth. Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru yw gwneud hynny. Dyna'r polisi y mae'n ei ddilyn, a bydd y Gorchymyn yn galluogi gwneud hynny.

**Jonathan Morgan:** Derbyniaf yr hyn a ddywedodd Peter am rôl Llywodraeth y Cynulliad, ond onid rôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yw cynorthwyo

authorities achieve best practice and to ensure that such problems are ironed out.

**Peter Black:** The Welsh Local Government Association is there to promote best practice, but the whole point of local government is that local councils have discretion. Councils are democratically accountable to their locality. I will not defend some of the differences between councils. Clearly, they are difficult to defend in many instances, but each council has to be accountable to its electorate for the provision that it makes. When the Government comes to implement the powers that will be made available through this LCO and start to introduce Measures, I hope that it takes that into account. We should work with local councils to achieve this step change, not force it on them, and when we introduce those changes, we need to ensure that they are funded fully. That was an important point that came out of the scrutiny process, albeit a point that was more for the Measure stage than for the LCO. If we are going to tell local councils that they must change the way in which they charge—either in relation to the basis for the charges, or in terms of the charges themselves—that will have a cost and we must ensure that it is properly funded by the Welsh Assembly Government no matter who happens to be running that Government, otherwise those local councils would be right to cry foul in terms of how this LCO is being implemented.

Some of the discrepancies that we have around Wales are partly down to the financial situation that local councils find themselves in. There have been tight settlements and local councils are having to find ways of raising finance. It is wrong that they are doing so through the charging process and, in a sense, they are penalising the vulnerable by doing so, but that is the reality of the financial situation in which they find themselves.

In summary, I am happy to support this LCO and to acquire the powers for the Welsh

awdurdodau lleol i sicrhau'r arferion gorau a gwneud yn siŵr bod problemau o'r fath yn cael eu datrys?

**Peter Black:** Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yno i hyrwyddo'r arferion gorau, ond holl bwynt llywodraeth leol yw bod gan gynghorau lleol hawl i benderfynu. Mae'r cynghorau'n atebol yn ddemocrataidd i'w hardal. Nid amddiffynnaf rai o'r gwahaniaethau rhwng cynghorau. Mae'n amlwg eu bod yn anodd eu hamddiffyn mewn sawl enghraifft, ond rhaid i bob cyngor fod yn atebol i'w etholwyr am ei ddarpariaeth. Pan ddaw'n adeg i'r Llywodraeth weithredu'r pwerau a roddir drwy gyfrwng y Gorchymyn hwn a dechrau cyflwyno Mesurau, gobeithiaf y bydd yn cofio hynny. Dylem weithio gyda chynghorau lleol i wireddu'r newid mawr hwn, yn hytrach na'i orfodi arnynt, a phan gyflwynwn y newidiadau hynny, mae angen inni sicrhau eu bod yn cael eu hariannu'n llawn. Yr oedd hynny'n bwynt pwysig a gododd yn y broses graffu, er ei fod yn bwynt a oedd yn fwy perthnasol i gam y Mesur nag i'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol. Os ydym am ddweud wrth gynghorau lleol fod yn rhaid iddynt newid eu dull o godi tâl—naill ai o ran y sail a ddefnyddir i bennu'r taliadau, neu o ran y taliadau eu hunain—bydd hynny'n golygu cost a rhaid inni sicrhau ei fod yn cael ei ariannu'n briodol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru waeth pwy fydd yn digwydd bod yn llywodraethu, fel arall byddai'r cynghorau lleol hynny yn llygad eu lle wrth wrthwynebu'r ffordd y mae'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn yn cael ei roi ar waith.

Sefyllfa ariannol y cynghorau lleol sy'n rhannol gyfrifol am rai o'r anghysondebau sydd gennym o amgylch Cymru. Cafwyd setliadau tynn ac mae cynghorau lleol yn gorfod dod o hyd i ffyrdd o godi cyllid. Nid yw'n iawn eu bod yn gwneud hynny drwy'r broses o godi tâl ac, mewn ffordd, maent yn cosbi'r rhai sy'n agored i niwed drwy wneud hynny, ond dyna realiti'r sefyllfa ariannol a wynebant.

I grynhoi, yr wyf yn fodlon cefnogi'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol



Assembly to introduce some sort of consistency across Wales in partnership with local councils. I am also happy to have the powers that we can ultimately use to introduce free personal care for the elderly and the disabled around Wales.

**The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas):** I am grateful to Members for their considered and helpful contributions. Again, I pay tribute to the Chair and members of the scrutiny committee who played an important role in shaping the Order before us. I also thank all the organisations and individuals who responded and contributed to this.

I will deal briefly with contributions this afternoon. First, I thank Joyce for her positive comments and for covering the committee's work. I take your point on definitions. With regard to social care services, we will have to have an amendment, but that will be considered and will need Assembly agreement when we reach that point, which I hope will not be too long, on the vulnerable children LCO.

On direct payments, the explanatory memorandum, as you might have seen, now makes it clear that while the reference to payments in the LCO intends to capture all relevant payments, irrespective of the name of that payment scheme, the only type of payment that currently falls within the scope of the LCO is direct payment.

Diolchaf i Dai Lloyd am ei gyfraniad i'r pwyllgor ac am ei gyfraniad positif i'r ddadl y prynhawn yma.

Jonathan, I take your points seriously and you know that I agree with your point about the limited impact of the guidance. That has triggered this action and we have seen the results of that, as you have pointed out. Your other points will be dealt with by Measures. I also accept your point on financial implications. On Measures, I am sure that you will be glad to know that a task group

hwn a chael y pwerau i Lywodraeth y Cynulliad gyflwyno rhyw fath o gysondeb ledled Cymru mewn partneriaeth â chynghorau lleol. Yr wyf yn falch hefyd o gael y pwerau y gallwn eu defnyddio yn y pen draw i gyflwyno gofal personol am ddim i'r henoed ac i bobl anabl ledled Cymru.

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Aelodau am eu cyfraniadau ystyriol a defnyddiol. Unwaith eto, rhoddaf deyrnged i'r Cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor craffu a chwaraeodd rôl bwysig wrth lunio'r Gorchymyn sydd ger ein bron. Diolchaf hefyd i'r holl sefydliadau ac unigolion a ymatebodd ac a gyfrannodd at hyn.

Ymdriniaf yn fyr â'r cyfraniadau y prynhawn yma. Yn gyntaf, diolchaf i Joyce am ei sylwadau cadarnhaol ac am sôn am waith y pwyllgor. Derbyniaf eich pwynt ynghylch diffiniadau. O ran gwasanaethau gofal cymdeithasol, bydd yn rhaid inni gael gwelliant, ond caiff hynny ei ystyried a bydd angen cytundeb y Cynulliad pan gyrhaeddwn y pwynt hwnnw, a fydd yn digwydd cyn bo hir gobeithiaf, o ran y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch plant sy'n agored i niwed.

O ran taliadau uniongyrchol, mae'r memorandwm esboniadol, fel y gwelsoch efallai, bellach yn ei gwneud yn glir mai'r unig fath o daliad sydd o fewn cwmpas y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar hyn o bryd yw taliad uniongyrchol, er bod y cyfeiriad at daliadau yn y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol wedi'i fwriadu i gwmpasu pob taliad perthnasol, beth bynnag yw enw'r cynllun taliadau hwnnw.

I thank Dai Lloyd for his contribution to the committee and for his positive contribution this afternoon.

Jonathan, yr wyf yn cymryd eich pwyntiau o ddifrif a gwyddoch fy mod yn cytuno â'ch pwynt ynghylch effaith gyfyngedig y canllawiau. Mae hynny wedi arwain at y camau hyn ac yr ydym wedi gweld canlyniadau hynny, fel y dywedaso. Ymdrinnir â'ch pwyntiau eraill gan Fesurau. Derbyniaf hefyd eich pwynt ynghylch goblygiadau ariannol. O ran Mesurau, yr wyf

has now been set up to consider future Measures and that task group has already met once. I am sure that you will accept that the wider issues that you raised will be dealt with under 'Fulfilled Lives, Supportive Communities'.

Peter Black raised the same issues as Jonathan, although I will leave you to debate issues of local government between yourselves. The extent and level of care is important, but Measures will depend on the legal competence that we will have following the introduction of this Order. The establishment of the task group will be of help here.

I accept your point on free personal care, and this LCO would have the scope to introduce that, but as I made clear in the original debate in the Chamber—and I wish to make this clear again—we are not considering that policy because it is not affordable. I pay serious regard to your reference to local government and, again, I think that you agree that there was limitation in terms of the effect of the guidance.

4.50 p.m.

I have taken all of those issues into consideration, but if I have missed something, I will pick it up with individual Members. The Order before us supports the vision set out in our broader 10-year strategy for social services. That envisions a shift from residential care towards support for independence at home, and a switch towards earlier intervention and more preventative services. The need to ensure that local authority social services charging arrangements are aligned with this is key. This is a great opportunity to use our powers to benefit some of our most vulnerable people. On that basis, I commend this Order to you.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, the proposal is agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

yn siŵr y byddwch yn falch o wybod bod tasglu bellach wedi'i sefydlu i ystyried Mesurau yn y dyfodol ac mae'r tasglu hwnnw eisoes wedi cyfarfod unwaith. Yr wyf yn siŵr y derbyniwch yr ymdrinnir â'r materion ehangach a godasoch dan 'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol'.

Cododd Peter Black yr un materion â Jonathan, er gadawaf ichi ddadlau ymysg eich gilydd ynglŷn â llywodraeth leol. Mae maint a lefel y gofal yn bwysig, ond bydd Mesurau yn dibynnu ar y cymhwysedd cyfreithiol a fydd gennym wedi cyflwyno'r Gorchymyn hwn. Bydd sefydlu'r tasglu o gymorth yn hyn o beth.

Derbyniaf eich pwynt ynghylch gofal personol am ddim, a byddai'r gallu o dan y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol i gyflwyno hynny, ond fel y dywedais yn glir yn y ddadl wreiddiol yn y Siambr—a hoffwn bwysleisio hyn eto—nid ydym yn ystyried y polisi hwnnw gan nad yw'n fforddiadwy. Yr wyf yn rhoi ystyriaeth ddwys i'ch cyfeiriad at lywodraeth leol ac, unwaith eto, credaf y cytunwch fod cyfyngiadau o ran effaith y canllawiau.

Yr wyf wedi ystyried yr holl faterion hynny, ond os wyf wedi hepgor rhywbeth, fe'i codaf gydag Aelodau unigol. Mae'r Gorchymyn sydd ger ein bron yn cefnogi'r weledigaeth yn ein strategaeth 10 mlynedd ehangach ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Mae honno'n rhagweld symud o ofal preswyl at gymorth i fyw'n annibynnol yn y cartref, a symud at ymyriadau cynharach a mwy o wasanaethau ataliol. Mae'r angen i sicrhau bod trefniadau codi tâl adrannau gwasanaethau cymdeithasol llywodraeth leol yn cyd-fynd â hyn yn allweddol. Mae hyn yn gyfle gwych i ddefnyddio ein pwerau er budd rhai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed. Ar sail hynny, cymeradwyaf y Gorchymyn hwn ichi.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr hyn a gynigir yw cytuno â'r cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, cytunir â'r cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

**The Deputy Presiding Officer:** That **Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â'r  
brings today's proceedings to a close. cyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 4.49 p.m.  
The meeting ended at 4.49 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau  
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
Asghar, Mohammad (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
Davies, Alun (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
Griffiths, John (Llafur – Labour)  
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
James, Irene (Llafur – Labour)  
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Ann (Llafur – Labour)  
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)

Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)